npm
national
preventive
mechanism

# Monitro lleoedd cadw

Chwweched **Adroddiad Blynyddol**
Mecanwaith Ataliol
Cenedlaethol y Deyrnas Unedig
**1 Ebrill 2014 – 31 Mawrth 2015**

# Monitro lleoedd cadw

# Chweched Adroddiad Blynyddol Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig

1 Ebrill 2014 – 31 Mawrth 2015

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder drwy Orchymyn Ei Mawrhydi
Rhagfyr 2015

Cm 9160

**© Hawlfraint y Goron 2015**
Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications a www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/national-preventive-mechanism

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn:
hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk or
HM Inspectorate of Prisons, Victory House, 6th Floor, 30–34 Kingsway, Llundain WC2B 6EX

ISBN Argraffu 9781474125895
ISBN y We 9781474125901

ID 06111522 12/15

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibrau wedi'u hailgylchu.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan y Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

**Cyflwyniad**
gan Nick Hardwick, Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi 4

**1 Cyd-destun** 8
Ynghylch y Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith
a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall (OPCAT) 9
Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig 10
Y sefyllfa mewn dalfeydd yn ystod y flwyddyn 13
Cyd-destun gwleidyddol, deddfwriaethol a datblygiadau polisi 15

**2 Canolbwyntio ar faterion cadw** 20
Carcharu pobl ar eu pen eu hunain a'u hynysu 21
Dalfeydd de facto... 47

**3 Yr NPM yn 2014-15** 52
Cryfhau'r NPM 53
Datblygiadau yn neilltuol ar gyfer aelodau 54
Is-grwpiau'r NPM 60
Gweithio ar y cyd rhwng aelodau'r NPM 61
Cyflwyno cynigion a sylwadau ar ddeddfwriaeth (OPCAT Erth.19c) 61
Cydweithio rhyngwladol 63
Hunanasesiad yr NPM 64

**4 Edrych ymlaen at 2015-16** 66

**5 Atodiadau** 68
I. Cylch Gorchwyl ar gyfer is-grwp yr Alban 69
II. Cylch Gorchwyl ar gyfer y rhwydwaith iechyd meddwl 71
III. Canllawiau ar sicrhau annibyniaeth personél yr NPM 73
IV. Argymhellion yr NPM i Gyfarfod Dimensiwn
Hawliau Dynol Atodol OSCE 76
V. Geirfa 78
VI. Rhagor o wybodaeth am NPM y DU 80



# Cyflwyniad gan Nick Hardwick

## Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn disgrifio gwaith yr 20 o gyrff arolygu a monitro sy'n rhan o Fecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU (NPM). Mae'r NPM yn cyflawni ymrwymiadau'r DU sy'n deillio o'i statws fel parti i'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Arteithio a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall (OPCAT) i sicrhau bod lleoedd cadw yn cael eu monitro'n annibynnol ac yn ataliol a chyflawni mesurau ataliol effeithiol eraill. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio yn gyntaf ar garcharu pobl ar eu pen eu hunain a'u hynysu, y math mwyaf cyfyngol o ddalfeydd y mae unrhyw aelodau o'r NPM yn eu monitro. Yn ail, mae'n adolygu'r cynnydd y mae'r NPM ei hun wedi gallu ei wneud i gryfhau ei lywodraethu a'i effeithiolrwydd ei hun er mwyn rhannu arfer gorau a datblygu ymagwedd gyson tuag at ymdrin â phryderon cyffredin.

Mae ein gwaith ar garcharu pobl ar eu pen eu hunain a'u hynysu yn brosiect tymor hir a ddechreuodd eleni gyda datblygu darlun o sut y caiff ei ddefnyddio ar draws yr ystod o sefydliadau rydym yn eu monitro trwy bedair gwlad y DU. Yn y cam nesaf, bydd aelodau'r NPM yn anelu at ddatblygu rhai safonau cyson a methodoleg ar gyfer monitro ei ddefnydd.

Mewn llawer o achosion, mae carcharorion yn cael eu hynysu yn gyfreithlon i atal niwed neu i ddarparu amgylchedd tawel sydd er budd iddynt. Ond gallai carcharu pobl ar eu pen eu hunain a'u hynysu hefyd gael effaith niweidiol ar iechyd meddwl carcharor, gallai waethygu problemau ymddygiad a chynyddu'r perygl y byddant yn cael eu cam-drin. Mae'n amlwg eisoes fod llywodraethu gwael, arfer anghyson a therminoleg leddfol yn caniatáu i rai unigolion gael eu cadw ar eu pen eu hunain am gyfnodau hir heb fesurau diogelu digonol - ac mae hynny'n cynnwys rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn y ddalfa, fel plant a phobl â salwch meddwl.

Mae carcharu pobl ar eu pen eu hunain a'u hynysu yn cael ei alw yn llawer o bethau: cadw pobl ar eu pen eu hunain, ynysu, gofalu a gwahanu, di-waith aflonyddgar, datgloi sengl, colli cymdeithas, colledion, sylfaenol am drais, sylfaenol, gwahanu oddi wrth y grwp, ysgogiad isel, amser allan, ystafell gofal dwys, ynysu therapiwtig, wardiau un person, gwahanu gorfodol, tynnu oddi wrth gymdeithas, carcharu ar ei ben ei hun dros dro, gwahanu ac ailintegreiddio, canolfannau goruchwyliaeth agos, celloedd arbennig, cael ei gyfyngu i'r ystafell, dyletswydd o ofal. Mae perygl y gallai rhywfaint o'r derminoleg hon guddio difrifoldeb yr angen a'r angen am fonitro a llywodraethu trylwyr.

Yr hyn sy'n gyffredin i'r prosesau hyn i gyd yw unigolion wedi'u cloi i fyny ar eu pen eu hunain am gyfnodau hir gyda chyswllt cyfyngedig gyda charcharorion neu staff eraill.

Yn yr adroddiad hwn rydym wedi tynnu ar safonau'r Cenhedloedd Unedig a safonau rhyngwladol i ddiffinio 'carchariad ar ei ben ei hun',[1] a gwahaniaethu o ran ansawdd rhwng hyn ac 'ynysu' (gweler y diffiniadau ar dudalen 24).

Mae ein hadolygiad yn dangos y byddai modd cael dau ddyn sydd ag anghenion iechyd meddwl, ymddygiad aflonyddgar a pherygl o hunan-niweidio yn union yr un fath sydd yn cael eu cadw mewn amodau gwahanol iawn, yn dibynnu ar lle maent yn cael eu cadw. Gallai dyn mewn uned carchar lle byddai'n cael ei gadw ar ei ben ei hun gael ei gloi mewn cell fudr am 23 awr y dydd, heb unrhyw weithgaredd ar wahân i radio i wrando arni a chyswllt dynol cyfyngedig iawn. Gallai dyn sydd â nodweddion yn union yr un fath hefyd gael ei garcharu ar ei ben ei hun mewn ysbyty diogel, lle y byddai'n cael ei gadw yn ei ystafell ei hun, byddai'n cael cadw cymaint o'i bethau ei hun â phosibl, a byddai staff a gweithwyr iechyd proffesiynol yn ymweld ag ef yn rheolaidd ac yn ei helpu i ailintegreiddio. Gallai bachgen 16 oed mewn Sefydliad Troseddwyr Ifanc gael ei ddisgyblu drwy gael ei gyfyngu mewn uned carcharu oedolion ar eu pennau eu hunain am rai dyddiau; gallai'r un bachgen mewn STC gael ei gyfyngu i'w ystafell ei hun am ychydig oriau am yr un ymddygiad.

Ond mae anghysondebau yn y defnydd o garcharu pobl ar eu pen eu hunain a'u hynysu yn ddim ond un enghraifft sy'n dangos yr angen i aelodau'r NPM weithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ddatblygu safonau a methodolegau cyffredin i wella triniaeth ac amodau ar draws yr holl ystod o leoliadau cadw.

Mae crynodeb o waith aelodau'r NPM yn ystod y flwyddyn a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn rhoi enghreifftiau pellach o'r pwysau ar y sefydliadau rydym yn eu monitro, a'r cyfleoedd i rannu'r pryderon a'r arfer gorau sydd wedi codi mewn ymateb i hyn.

Y llynedd, fe wnaethom sôn am yr ymarferiad mawr y gwnaethom ei gynnal bum mlynedd ar ôl i'r NPM gael ei gynllunio i asesu pa mor effeithiol yr oedd wrth gyflawni ei gyfrifoldebau. Eleni, gallwn adrodd bod cynnydd gwirioneddol wedi cael ei wneud. Mae ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau sy'n deillio o OPCAT wedi cynyddu ymysg aelodau'r NPM, ac adlewyrchir hyn yn gynyddol yn eu prosesau monitro ac arolygu eu hunain ac yn y gwaith o ddatblygu safonau sy'n seiliedig ar hawliau dynol. Mae aelodau'r NPM wedi cytuno i gymryd camau i leihau eu dibyniaeth ar staff a secondiwyd ac osgoi gwrthdaro buddiannau lle bo hyn yn angenrheidiol. Mae aelodau hefyd yn gweithio i ddatblygu a gweithredu trefniadau i sicrhau nad yw carcharorion a phobl eraill yn wynebu cosbau oherwydd eu cysylltiad ag aelodau'r NPM. Datblygwyd gwefan yr NPM yn ystod y flwyddyn

1 Datganiad Istanbul ar Ddefnydd ac Effeithiau Cadw Pobl ar eu pen eu hunain, 9 Rhagfyr 2007, yn: http://www.solitaryconfinement.org/istanbul (agorwyd 14/10/15); Comisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Atal Troseddu a Chyfiawnder Troseddol (2015), 'Rheolau Mandela' (E/CN.15/2015/L.6/Diw.1), Rheol 44.

ac aeth yn fyw yn fuan ar ôl diwedd y flwyddyn. Mae is-grwpiau'r NPM ynghylch plant, iechyd meddwl a'r Alban yn rhoi cyfle i rannu arfer gorau, a chydlynu cysylltiad â'r llywodraeth ac awdurdodau cadw.

Mae cynnydd ar fesurau i gryfhau'r modd y caiff yr NPM ei lywodraethu wedi bod yn arafach. Cafodd rhai o aelodau'r NPM yn Lloegr eu hunain alwadau yr oeddent yn eu croesawu gan bwyllgorau seneddol a chyrff eraill i'w hannibyniaeth oddi wrth eu hadrannau noddi gael ei adolygu a'i gryfhau. Roedd yn siomedig na wnaeth y llywodraeth dderbyn yr argymhellion hyn. Cafodd y gwaith o recriwtio cadeirydd annibynnol i'r NPM fel y cam cyntaf tuag at sefydlu ei fwrdd ei hun - a fyddai'n gallu dal aelodau i gyfrif am eu gwaith, gan sicrhau cysondeb priodol a datblygu hunaniaeth penodol ar gyfer yr NPM - ei oedi oherwydd pryder gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr adran gyfrifol.


Er mor rhwystredig oedd yr oedi hwn, parhaodd NPM y DU i ddenu sylw rhyngwladol eang fel enghraifft o arfer gorau, a chafodd yr aelodau lawer o gyswllt â NPMs a gwladwriaethau eraill oedd â diddordeb yn system y DU. Tua'r amser y mae'r adroddiad hwn i fod i gael ei gyhoeddi, ym mis Rhagfyr 2015, mae disgwyl i Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig fabwysiadu *Rheolau Mandela*, diwygiad amserol o'r *Rheolau Isafol Safonol ar gyfer Trin Carcharorion* a datganiad cyfoes hynod o bwysig gan y gymuned ryngwladol ynghylch y cyfrifoldeb i drin carcharorion yn weddus ac yn drugarog.

Mae'r ddogfen hon yn ailddatgan pwysigrwydd monitro cadw annibynnol. Byddai'n amser addas i'r DU ddangos bod ei threfniadau ei hun ar gyfer atal cam-drin carcharorion hefyd wedi parhau i ddatblygu ac yn bodloni'r safonau rhyngwladol newydd.



**Nick Hardwick**
Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi

# Adran un
# Cyd-destun



## Ynghylch Protocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall (OPCAT)

Mae Protocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Arteithio a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall (OPCAT) yn gytuniad rhyngwladol ar hawliau dynol sy'n ceisio rhoi mwy o amddiffyniad i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Pan gafodd ei fabwysiadu gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn 2002, dangoswyd bod consensws yn y gymuned ryngwladol fod pobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid yn neilltuol o agored i'r perygl o gael eu cam-drin a bod angen canolbwyntio ar gamau ataliol wrth ymladd yn erbyn cam-drin o'r fath. Mae OPCAT yn ymgorffori'r syniad mai'r ffordd orau o atal cam-drin mewn lleoedd cadw yw drwy system o ymweliadau rheolaidd annibynnol â'r holl leoedd cadw. Yn ystod ymweliadau o'r fath, bydd triniaeth y rhai a gedwir, a'r amodau ar eu cyfer, yn cael eu monitro.

Daeth OPCAT i rym ym mis Mehefin 2006. Mae'n ofynnol bod gwladwriaethau sy'n cadarnhau OPCAT yn dynodi 'mecanwaith ataliol cenedlaethol' (NPM). Corff neu grŵp o gyrff yw hwn sy'n archwilio'n rheolaidd sut y mae unigolion mewn lleoedd cadw yn cael eu trin, yn gwneud argymhellion ac yn cynnig sylwadau ar ddeddfwriaeth bresennol neu ddrafft er mwyn gwella'r driniaeth a'r amodau mewn lleoedd cadw.

Er mwyn cyflawni ei rôl monitro yn effeithiol, rhaid i'r NPM:

- fod yn annibynnol ar y llywodraeth a'r sefydliadau y mae'n eu monitro;
- cael digon o adnoddau i gyflawni ei rôl; ac
- yn cynnwys personél sydd â'r arbenigedd angenrheidiol ac sy'n ddigon amrywiol i gynrychioli'r gymuned y mae'n gweithredu ynddi.

Hefyd, mae'n ofynnol bod yr NPM yn cael pwerau:

- i fynd i mewn i'r holl leoedd cadw (gan gynnwys y rheini sy'n cael eu rhedeg gan ddarparwyr preifat);
- i gyfweld rhai sydd mewn lleoedd cadw a phobl berthnasol eraill yn breifat;
- i ddewis y lleoedd y mae am ymweld â nhw a'r bobl y mae am eu cyfweld;
- i gael gwybodaeth am nifer y bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid, nifer y lleoedd cadw a'u lleoliad ac
- i gael gwybodaeth am driniaeth y rhai sydd mewn lleoedd cadw a'r amodau ar eu cyfer.

Yn ogystal â hyn, rhaid i'r NPM gydgysylltu â'r Is-bwyllgor Atal Arteithio, corff rhyngwladol a sefydlwyd gan OPCAT sydd â swyddogaethau gweithredol (ymweld â lleoedd cadw mewn parti-wladwriaethau a gwneud argymhellion ynghylch amddiffyn rhai mewn lleoedd cadw rhag cael eu cam-drin) a swyddogaethau cynghori (darparu cymorth a hyfforddiant i barti-wladwriaethau a'u mecanweithiau ataliol cenedlaethol). Mae 25 o arbenigwyr annibynnol a diduedd o bob rhan o'r byd yn aelodau o'r Is-bwyllgor Atal Arteithio, ac mae'n cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau.[2] Mae yna 80 o barti-wladwriaethau i OPCAT ar hyn o bryd, a 62 o NPMs dynodedig.

2 Gweler: http://www.ohchr.org/EN/HRBodies/OPCAT/Pages/OPCATIndex.aspx (agorwyd 14/10/15).

## Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU

Cymeradwyodd y DU OPCAT ym mis Rhagfyr 2003 a dynododd ei NPM mis Mawrth 2009. Llywodraeth y DU oedd yn gyfrifol am ddynodi'r NPM a dewisodd ddynodi cyrff presennol lluosog yn hytrach na chreu un NPM newydd. Cymerai hyn i ystyriaeth y ffaith bod llawer o fathau o gadw yn y DU eisoes yn destun monitro gan gyrff annibynnol, fel y rhagwelwyd gan OPCAT, a'r gwahanol systemau gwleidyddol, cyfreithiol a gweinyddol oedd ar waith yn y pedair gwlad sy'n rhan o'r Deyrnas Unedig. Cafodd dynodiadau eu gwneud i'r NPM yn 2009 a 2013, ac mae 20 o gyrff unigol erbyn hyn yn ffurfio'r NPM.

**Cymru a Lloegr**

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi)
Byrddau Monitro Annibynnol (IMB)
Cymdeithas yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa (ICVA)
Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC)
Y Comisiwn Ansawdd Gofal
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
Comisiynydd Plant Lloegr (CCE)
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted)
Sylwedyddion Lleyg (LO)

**Yr Alban**

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar gyfer yr Alban (HMIPS)
Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ar gyfer yr Alban (HMICS)
Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC)
Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban (MWCS)
Yr Arolygiaeth Gofal (CI)
Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yr Alban (ICVS)

**Gogledd Iwerddon**

Byrddau Monitro Annibynnol (Gogledd Iwerddon) (IMBNI)
Arolygiad Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJINI)
Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (RQIA)
Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon (NIPBICVS)

Mae'r cyrff sy'n rhan o NPM y Deyrnas Unedig yn monitro gwahanol fathau o leoedd cadw ym mhob un o'r awdurdodaethau, gan gynnwys carchardai, dalfeydd yr heddlu, dalfeydd y llysoedd, cyfleusterau cadw'r tollau, llety diogel i blant, cyfleusterau mewnfudo, cyfleusterau cadw gwasanaethau iechyd meddwl a dalfeydd y lluoedd arfog, fel a ganlyn:

Mae'r gofyniad sylfaenol yn OPCAT – bod yr holl leoedd cadw'n cael eu monitro'n annibynnol – yn cael ei gyflawni gan

| LLEOLIAD CADW | Awdurdodaeth | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Lloegr | Cymru | Yr Alban | Gogledd Iwerddon |
| Carchardai a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc | Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal ac Ofsted | Arolygiaeth Carchardai EM gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | Arolygiaeth Carchardai EM yn yr Alban (HMIPS) gyda'r Arolygiaeth Gofal a SHRC | CJINI ac Arolygiaeth Carchardai EM gyda RQIA |
| | IMB | | | IMBNI |
| Dalfeydd yr heddlu | Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi | | Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn yr Alban (HMICS) | CJINI gyda'r RQIA |
| | ICVA | | ICVS | NIPBICVS |
| Dalfeydd y llysoedd | Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac Arsylwyr Lleyg | | HMIPS | CJINI |
| Plant mewn llety diogel | Ofsted (ar y cyd ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi mewn cysylltiad â chanolfannau hyfforddi diogel) | CSSIW | CI | RQIA |
| | | | | CJINI |
| Plant (pob lleoliad) | CCE | | CI | |
| Cadw o dan gyfraith iechyd meddwl | CQC | HIW | MWCS | RQIA |
| Amddifadu o ryddid[3] a mesurau diogelu eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol | CQC | HIW | CI a MWCS | RQIA |
| | | CSSIW | | |
| Dalfeydd mewnfudo | Arolygiaeth Carchardai EM | | | |
| | IMB | | | |
| Cadw milwrol | Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a Chymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa | | | |
| Cyfleusterau cadw'r tollau | HMIC, ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a HMICS | | | |

aelodau unigol yr NPM neu gan aelodau sy’n gweithio mewn partneriaeth â’i gilydd. Mae canfyddiadau manwl ynghylch triniaeth pobl mewn lleoedd cadw, a’r amodau ar eu cyfer, yn cael eu cyhoeddi yn adroddiadau arolygu neu adroddiadau blynyddol pob un o aelodau’r NPM.

Cyfarfodydd busnes chwe misol y NPM yw ei brif fforwm i aelodau rannu canfyddiadau, arfer gorau, profiadau a gwersi o fonitro gwahanol fathau o ddalfeydd a gwahanol awdurdodaethau. Mae cynllun busnes yr NPM a phenderfyniadau eraill ar gyfer yr aelodau yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd hyn. Eleni, cynhaliwyd cyfarfodydd busnes ym mis Mehefin 2014 (Belfast), Tachwedd 2014 (Pen-y-bont ar Ogwr, Cymru) a Mawrth 2015 (Llundain).

## Cydgysylltu'r NPM

Mae cydgysylltu’n hanfodol er mwyn gweithredu OPCAT yn y Deyrnas Unedig yn llawn ac yn effeithiol, oherwydd maint a chymhlethdod y strwythur anarferol o gyrff lluosog sydd yn y Deyrnas Unedig Mae pob un o’r aelodau’n wahanol o ran ei fandad, ei bŵer a’i gyfrifoldeb daearyddol ac yn gosod ei flaenoriaethau ei hun ar gyfer monitro dalfeydd yn ogystal â chyfrannu at flaenoriaethau NPM ar y cyd.

3 Mae trefniadau diogelu cyfreithiol rhag colli rhyddid yn berthnasol i Gymru a Lloegr yn unig, ond mae sefydliadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ymweld â ac yn arolygu cyfleusterau gofal cymdeithasol lle y gall pobl fod wedi eu hamddifadu o'u rhyddid.

Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi’ yn cyflawni’r rôl o gydgysylltu’r NPM a phwrpas y swyddogaeth hon yw:

- hyrwyddo cydlyniant a dealltwriaeth ar y cyd o OPCAT ymhlith aelodau NPM;
- annog cydweithio a rhannu gwybodaeth ac arfer da rhwng aelodau NPM y DU;
- hwyluso gweithgareddau ar y cyd rhwng yr aelodau ar faterion o bryder cyffredin;
- cysylltu â'r SPT, NPMs eraill a chyrff hawliau dynol rhyngwladol perthnasol eraill;
- rhannu profiad ac arbenigedd rhwng NPM yn y DU ac NPMs mewn gwladwriaethau eraill;
- cynrychioli'r NPM yn ei gyfanrwydd i'r llywodraeth a rhanddeiliaid eraill yn y DU;
- paratoi'r adroddiad blynyddol a chyhoeddiadau eraill.

Goruchwylir swyddogaeth gydgysylltu, gweithgareddau a threfniadau llywodraethu’r NPM gan Grŵp Llywio o bum aelod o’r NPM sy’n cyfarfod yn rheolaidd ac sy’n cynrychioli aelodau ym mhob un o’r pedair gwlad

sy’n rhan o’r Deyrnas Unedig a gwahanol gylchoedd gwaith sefydliadau sy’n ffurfio’r NPM.

## Grwp llywio'r NPM

Mae'r grwp llywio'r NPM yn cefnogi'r gwaith o lunio penderfyniadau rhwng cyfarfodydd busnes, ac yn datblygu cynllun busnes yr NPM a chynigion i'r aelodau. Mae'n cael ei gadeirio gan Brif Arolygydd Carchardai EM (Cymru a Lloegr). Cyfarfu'r grwp llywio dair gwaith yn ystod y flwyddyn (Mai, Medi, Chwefror).

Ym mis Tachwedd 2014, daeth tymor ICVA i ben ar y grwp llywio a chymerwyd ei le gan HMIC; ym mis Mawrth 2015, cymerwyd lle Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gan AGGCC. Ym mis Mawrth 2015, roedd aelodaeth grwp llywio NPM fel a ganlyn:

- Nick Hardwick, Prif Arolygydd Carchardai EM (Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi)
- Theresa Nixon, Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (RQIA)
- David Strang, Prif Arolygydd Carchardai EM ar gyfer yr Alban (HMIPS)
- Kevin Barker, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
- Judith Million, Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM (HMIC).

## Is-grwpiau'r NPM

Ym mis Hydref 2014, sefydlwyd is-grŵp a ffurfiwyd o blith aelodau yn yr Alban o NPM y DU (gweler Atodiad I). Nod y grŵp yw cydlynu gweithgareddau NPM yn yr Alban, rhoi cefnogaeth i aelodau'r NPM, codi proffil gwaith yr NPM a gwella cyswllt â Llywodraeth yr Alban. Mae'n cael ei gadeirio gan Brif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi ar gyfer yr Alban.

Ym mis Tachwedd 2014, sefydlodd aelodau'r NPM rwydwaith iechyd meddwl fel is-grwp o gyfarfod busnes ehangach yr NPM. Mae'r rhwydwaith yn dwyn ynghyd y gwahanol aelodau sydd â diddordeb arbenigol mewn meysydd sy'n berthnasol i ddalfeydd iechyd meddwl yn y DU, gan ddod â chyfle newydd i sefydliadau sydd â chyfrifoldebau am fonitro a diogelu pobl mewn lleoliadau cadw iechyd a gofal cymdeithasol weithio ar y cyd ar faterion gydag effeithiau penodol yn ymwneud ag iechyd meddwl. Mae'n cael ei gadeirio gan y Comisiwn Ansawdd Gofal (gweler Atodiad II).

Mae is-grŵp o’r NPM sy’n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sy’n cael eu cadw mewn lleoedd cadw, dan gadeiryddiaeth Comisiynydd Plant Lloegr, wedi parhau i wasanaethu fel mecanwaith i aelodau’r NPM i gyfnewid gwybodaeth a chudd-wybodaeth ac i ystyried gwaith ar y cyd ar faterion sy’n effeithio ar blant mewn lleoedd cadw

## Y sefyllfa mewn lleoedd cadw yn ystod y flwyddyn

### Carchardai

Roedd dirywiad difrifol mewn canlyniadau i garcharorion yn peri pryder i aelodau'r NPM yng Nghymru a Lloegr. Yn benodol, dangosodd adroddiadau arolygu ar gyfer 2014-15 ostyngiad sydyn mewn canlyniadau diogelwch a gweithgarwch pwrpasol, gyda chynnydd o 10% yn nifer yr achosion o ymosodiadau a chynnydd o 33% mewn ymosodiadau difrifol ar staff rhwng 2013 a 2014. Cafwyd 76 o farwolaethau a achoswyd gan y carcharorion eu hunain yn ystod y flwyddyn adrodd. Dangosodd data gan NOMS bod 25 o'r rhai a gymerodd eu bywydau ar ddogfen asesiad agored, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) - system rheoli achosion ar gyfer carcharorion y nodwyd eu bod mewn perygl o hunan-niwed neu hunanladdiad.

Roedd canlyniadau ar gyfer gweithgarwch pwrpasol yn dda neu'n weddol dda mewn 25% o garchardai i oedolion gwrywaidd a arolygwyd yn ystod y flwyddyn yn unig . Cafodd y diwrnod craidd newydd, a gyflwynwyd ar draws y rhan fwyaf o garchardai i oedolion yn ystod y flwyddyn adrodd hon, ei lesteirio gan brinder staff, a oedd yn effeithio ar fynediad carcharorion at weithgaredd ystyrlon. Er bod gorlenwi a phrinder staff yn effeithio ar drefniadau byw o ddydd i ddydd mewn llawer o garchardai, roedd perthnasoedd unigol da rhwng staff a charcharorion yn gwrthbwyso rhai o'r problemau gwaethaf yr oedd y rhain yn eu hachosi. Roedd pryderon fod proses cynllunio dedfrydu'r system asesu troseddwyr (OASys) ymhell ar ei hôl hi, ac nid oedd y rhain wedi'u cwblhau'n briodol ar gyfer llawer o garcharorion.[4]

Roedd gwasanaethau iechyd wedi gwella ar draws stad y carchardai, ond cyfrannodd y ffenomenon o sylweddau seicoweithredol newydd (NPS)[5] mewn carchardai at broblemau dyled a thrais ymhlith carcharorion.

### Dalfeydd yr heddlu a'r llysoedd

Er bod arolygiadau wedi dangos bod amodau yn nalfa'r heddlu yng Nghymru a Lloegr wedi gwella dros y pum mlynedd diwethaf, roedd yn destun pryder mawr fod nifer y marwolaethau yn neu yn dilyn bod yn nalfa'r heddlu wedi cynyddu o 11 yn 2013-14 i 17 yn 2014-15.[6] Roedd gormod o bobl sy'n agored i niwed yn parhau i gael eu cadw yn nalfa'r heddlu, ac roedd angen mwy o ymdrech i ddiogelu plant a rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl a, lle bo'n briodol, eu dargyfeirio oddi wrth y system cyfiawnder troseddol.[7] Cafwyd gostyngiad i'w groesawu yn nifer y bobl a gedwid yn nalfa'r heddlu fel man diogel o dan adran 136 Deddf Iechyd Meddwl 1983 o 8,667 yn 2011-12 i 6,028 yn 2013-14,[8] ond er bod rhai heddluoedd wedi gwneud cynnydd rhagorol wrth ymdrin â hyn, roedd eraill yn parhau i gadw gormod o bobl mewn argyfwng.[9] Er bod niferoedd

4 Gweler Prif Arolygydd Carchardai EM ar gyfer Cymru a Lloegr (2015), 2014-15; *Adroddiad Blynyddol 2014-15*; ac adroddiadau'r Byrddau Monitro Annibynnol, yn http://www.imb.org.uk/reports/.

5 Cyffuriau newydd sy'n dynwared effeithiau cyffuriau anghyfreithlon, megis canabis, heroin neu amffetaminau, ac a allai gael effeithiau anrhagweladwy ac sy'n bygwth bywyd.

6 Independent Police Complaints Commission (2015) *Deaths during or following police contact: statistics for England and Wales 2014-15*.

7 HM Inspectorate of Constabulary (2015), *The welfare of vulnerable people in police custody*; gweler hefyd http://www.blackmentalhealth.org.uk/index.php/expert-opinion-mainmenu-127/1584-home-office-a-bmh-uk-joint-summit-puts-diasporas-concerns-back-on-mental-health-agenda (agorwyd 14/10/15).

8 Health and Social Care Information Centre (2014), *Inpatients formally detained in hospitals under the Mental Health Act 1983, and patients subject to supervised community treatment, 2013-14*, tabl 9.

9 Cyhoeddodd y llywodraeth newydd ei bwriad i wahardd y defnydd o gelloedd yr heddlu fel lle diogel i blant a lleihau eu defnydd ymhellach yn achos oedolion sydd angen gofal a thriniaeth iechyd meddwl. Gweler: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/430149/QS_lobby_pack_FINAL_NEW_2.pdf, t.68 (agorwyd 14/10/15).

uchel o blant yn parhau i gael eu cadw'n gaeth dros nos yng nghelloedd yr heddlu, a bod pobl o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig yn parhau i gael eu gorgynrychioli yn nalfa'r heddlu, nid oedd unrhyw ddata yn gallu cael ei gasglu'n systematig o hyd a allai ddarparu barn genedlaethol awdurdodol ynghylch dalfeydd yr heddlu, bod yn agored i niwed a gwahaniaethu.[10] Roedd angen gwelliannau yn y modd y mae gwybodaeth am y defnydd o rym a chwiliadau drwy dynnu dillad yn cael ei chasglu a'i monitro, yn ogystal ag yn ansawdd a sicrhau ansawdd cofnodion y ddalfa, asesiadau risg a throsglwyddo gwybodaeth am garcharorion.

Nododd monitro'r NPM arweinyddiaeth dameidiog ac aneffeithiol yn nalfeydd y llys, ac amodau oedd yn aml yn frwnt ac aflan. Nid oedd llawer o ddealltwriaeth o anghenion carcharorion sy'n agored i niwed, ac roedd yr asesiad o risg yn wael.

## Plant mewn lleoedd cadw

Parhaodd y gostyngiad oedd i'w groesawu yn nifer y plant mewn lleoedd cadw yng Nghymru a Lloegr yn 2014-15, i boblogaeth gyfartalog o 1,048 yn 2014-15 (yr oedd cyfartaledd o 43 ohonynt yn ferched),[11] ac arweiniodd hyn at leihad yn nifer y sefydliadau oedd yn cadw plant, gan arwain at blant yn cael eu cadw, ar gyfartaledd, ymhellach i ffwrdd o'r cartref. Dangosodd y data diweddaraf oedd ar gael (ar gyfer 2013-14) gynnydd yn nifer cyfartalog y diwrnodau a dreuliodd plant mewn lleoedd cadw ar y flwyddyn flaenorol,[12] a chofnododd aelodau'r NPM dystiolaeth fod y plant a arhosodd yn y ddalfa yn arddangos cyfuniad mwy dwys o ymddygiad heriol iawn ac anghenion cymhleth na'r ystod ehangach o blant a gedwid yn y gorffennol; roedd sefydliadau yn ei chael hi'n anodd i ddiwallu'r anghenion hyn.

Yng Nghymru, lleihaodd nifer y lleoedd 'cyfiawnder' ar gyfer plant wedi'u remandio a'u dedfrydu gan y llysoedd yn unol â'r galw yn yr unig gartref diogel i blant, ond fe wnaeth nifer y lleoedd 'llesiant' diogel ar gyfer plant dan orchymyn llesiant diogel gynyddu. Canfu arolygiadau yn Lloegr lefelau trais oedd yn peri pryder a dim digon o amser allan o'r celloedd mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, ond gwelwyd gwaith cadarnhaol mewn canolfannau hyfforddi diogel a chartrefi diogel i blant. Mae cyfraddau a gofnodwyd o ataliad, ymosodiad a hunan-niweidio wedi cynyddu ar draws y stad ddiogel ar gyfer plant a phobl ifanc i'r nifer uchaf am bum mlynedd.[13]

## Lleoedd cadw iechyd a gofal cymdeithasol

Adroddwyd am gynnydd dramatig yn nifer y ceisiadau a'r achosion o amddifadu rhyddid a gyrhaeddodd y llys gwarchod yng Nghymru a Lloegr yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn dilyn ymlaen o ddyfarniad y Goruchaf Lys yn achos *P yn erbyn Gorllewin Swydd Gaer a Chyngor Caer ac un arall* ac achos *P a Q yn erbyn Cyngor Sir Surrey*,[14] a ehangodd y ddealltwriaeth o'r diffiniad o 'golli rhyddid' ac o ganlyniad a ddaeth â nifer cynyddol o bobl i'r amlwg sy'n cael eu cydnabod fel rhai a gafodd eu hamddifadu o'u rhyddid. Yn y chwe mis yn dilyn y dyfarniad, cynyddodd nifer y ceisiadau gan ysbytai a chartrefi gofal am awdurdodi dulliau diogelu rhag colli rhyddid ar raddfa sy'n debygol o fod o leiaf wyth gwaith yn fwy na chyfradd 2013-

**10** HM Inspectorate of Constabulary (2015), *op. cit.*
**11** Ministry of Justice (2015) *Youth custody report: Awst 2015* yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/466486/youth-custody-data-august-2015.xls (agorwyd 14/10/15).
**12** Ministry of Justice/ Youth Justice Board (2015) *Youth justice annual statistics 2013-14.*
**13** Ministry of Justice/ Youth Justice Board (2015), *op. cit.*
**14** UK Supreme Court, *P v Cheshire West and Chester Council and another* and *P and Q v Surrey County Council*, [2014] UKSC 19.

14. Mae nifer y ceisiadau i'r llys diogelu am awdurdodiad yn ymwneud â lleoliadau cymunedol wedi cynyddu hefyd, a rhagwelir y byddant yn dringo'n uwch. O ganlyniad, mae gan awdurdodau lleol restr annerbyniol o hir o geisiadau gyda 19,429 yn disgwyl penderfyniad ar ddiwedd mis Medi 2014, a nifer fawr o bobl yn ôl pob tebyg wedi'u hamddifadu o'u rhyddid heb ganiatâd. Nododd aelodau'r NPM amrywiaeth yn y defnydd cywir o'r mesurau diogelu yn ôl rhanbarth, a oedd yn dangos diffyg dealltwriaeth o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.[15]

Nodwyd amrywiaeth yn y gofal a roddir i gleifion a gedwir mewn lleoedd cadw. Yn rhy aml, canfu monitro'r NPM wasanaethau nad oedd yn cynnwys cleifion yn eu triniaeth fel mater o drefn; problemau yn ymwneud â'r gwelyau sydd ar gael, a nifer cynyddol o gleifion sy'n cael eu cadw'n gaeth ymhell o'u cartrefi.[16] Mae aelodau'r NPM yn parhau i ddod ar draws cadw *de facto* ar draws ystod o leoliadau. Roedd y fframwaith ar gyfer ymchwilio i farwolaethau mewn lleoedd cadw iechyd meddwl yn cael ei ei gwestiynu am ei diffyg annibyniaeth.[17]

### Immigration detention

Y prif bryderon ar gyfer carcharorion oedd wedi mewnfudo oedd yr ansicrwydd ynghylch eu cadw a'r pryder am eu hachos mewnfudo. Roedd y pryderon hyn yn waeth ar gyfer carcharorion a oedd yn agored i niwed am ryw reswm - ac yn rhy aml, nid oedd y gwendidau hyn yn cael eu cydnabod na'u trin. Adroddwyd bod nifer cynyddol o garcharorion nad oedd yn cael mynediad at gyngor cyfreithiol i helpu i wneud cais am fechnïaeth neu am eu hachos mewnfudo. Mae'n bolisi gan y llywodraeth nad yw plant yn cael eu cadw mewn canolfannau symud mewnfudwyr, ond gallai plant gael eu cadw'n gaeth yn anghywir mewn achosion 'anghydfod oedran'.[18]

### Cadw milwrol

Nododd arolwg o gadw milwrol (y Ganolfan Hyfforddiant Cywirol Milwrol a Chyfleusterau Dalfa'r Gwasanaeth) yn ystod y flwyddyn berthnasoedd cryf rhwng staff a'r carcharorion, darparu gweithgareddau o ansawdd da, a chanolbwyntio ar adsefydlu o'r diwrnod cyntaf yn y ddalfa.

## Cyd-destun gwleidyddol, deddfwriaethol a datblygiadau polisi

Cynhaliwyd refferendwm ar annibyniaeth i'r Alban ym mis Medi 2014, gyda 55.3% yn pleidleisio yn erbyn annibyniaeth a 44.7% yn pleidleisio o blaid. Ymhlith materion cyfansoddiadol eraill, roedd hyn yn golygu na fyddai angen ystyried y posibilrwydd y byddai'n rhaid i'r Alban ystyried cadarnhau cytuniadau rhyngwladol, gan gynnwys OPCAT, ar wahân. Arweiniodd etholiad cyffredinol y DU ym mis Mai 2015 at lywodraeth fwyafrif newydd yn cael ei ffurfio gan y blaid Geidwadol. Ymhlith ymrwymiadau maniffesto'r blaid cyn yr etholiad oedd y

**15** Care Quality Commission (2014), *Monitoring the Use of the Mental Capacity Act Deprivation of Liberty Safeguards in 2013/14*; UK Parliament, *Health: Deprivation of Liberty Safeguards, Question for short debate*, HL Deb 16 Mawrth 2015, cyfrol 760, colofn 975-992 at http://www.publications.parliament.uk/pa/ld201415/ldhansrd/text/150316-0002.htm#15031643000129 (agorwyd 14/10/15).
**16** Care Quality Commission (2015), *Annual Report and Accounts 2014-15*.
**17** Equality and Human Rights Commission (2015), *Preventing deaths in detention of adults with mental health conditions, Executive summary*, t.5; Inquest (2015) *Deaths in mental health detention: an investigation framework fit for purpose?*.
**18** Yn ystod 2014, sicrhaodd prosiect anghydfod oedran y Cyngor Ffoaduriaid ryddhad 25 o garcharorion yr oedd anghydfod wedi bod ynghylch eu hoedran ond y canfuwyd yn ddiweddarach oedd yn blant neu bod asesiad oedran llawn yn yr arfaeth. Refugee Council (2014) *Age dispute project, end of year report 2014*.
**19** Conservative Party (2015), The Conservative Party manifesto.

cynllun i 'ddileu'r Ddeddf Hawliau Dynol, a chyflwyno Mesur Hawliau Prydeinig' gyda'r bwriad o dorri'r cysylltiad ffurfiol rhwng llysoedd Prydain a Llys Hawliau Dynol Ewrop.[19] Gwnaed enillion sylweddol gan Blaid Genedlaethol yr Alban, a enillodd 55 o seddi yn senedd y DU.

Cyflwynwyd gostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus ar draws yr holl sectorau a gafodd eu harchwilio gan aelodau'r NPM yn y DU. Yng Ngogledd Iwerddon, adroddodd yr aelodau fod mesurau llymder wedi arwain at newidiadau sylweddol i'r modd y cyflwynir cyfiawnder troseddol, gan gynnwys cyllidebau aelodau'r NPM.

Gwelwyd llawer o ddatblygiadau mawr mewn deddfwriaeth a pholisi yn ystod y flwyddyn oedd yn effeithio ar y gwasanaethau y mae aelodau'r NPM yn eu harolygu a'u swyddogaethau monitro eu hunain.

- Daeth **Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** i rym ar 1 Mai 2014. Mae'r ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, ac i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru; bydd yn dod i rym o fis Ebrill 2016.[20]
- The **Immigration Act 2014** introduced limitations on the right to appeal Home Office immigration decisions to an independent tribunal, among other provisions.[21]
- Newidiodd **Deddf Plant a Theuluoedd 2014** brif swyddogaeth Comisiynydd Plant Lloegr, sydd yn awr yn cynnwys 'hyrwyddo ac amddiffyn hawliau plant' mewn perthynas â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn hytrach na 'hyrwyddo ymwybyddiaeth am farn a buddiannau plant'. Daeth i rym ar 1 Ebrill 2014.[22]
- Mae **Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)**, a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2015, yn ceisio diwygio'r gyfundrefn rheoleiddio ac arolygu ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth a swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol yng Nghymru.
- Cyflwynodd **Gorchymyn Diwygio'r Gwasanaethau Cyhoeddus (Arolygu a Monitro Carchardai) (Yr Alban) 2015**[23] system newydd o fonitro carchardai yn annibynnol i gymryd lle'r Pwyllgorau Ymweld â Charchardai presennol, a throsglwyddodd y cyfrifoldeb am fonitro celloedd yr heddlu sydd wedi'u cyfreithloni[24] i ymwelwyr â'r ddalfa. Bydd yn dod i rym ar 31 Awst 2015.
- Derbyniodd **Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015** Gydsyniad Brenhinol ym mis Chwefror 2015 a sefydlodd golegau diogel fel lleoedd cadw newydd ar gyfer pobl ifanc, sy'n amlinellu pwerau i Garchardai AEM ac Ofsted arolygu colegau diogel os byddant fyth yn cael eu datblygu.[25] Cyflwynodd y Ddeddf ddedfrydau gorfodol o garchar ar gyfer y rhai 16 oed neu'n hŷn a gafwyd yn euog

**20** Yn: http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents (agorwyd 14/10/15).
**21** Yn: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/22/contents/enacted (agorwyd 14/10/15).
**22** Yn: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/6/contents/enacted (agorwyd 14/10/15).
**23** Yn: http://www.legislation.gov.uk/ssi/2015/39/contents/made (agorwyd 14/10/15).
**24** Celloedd yr heddlu wedi'u cyfreithloni yw rhai lle y gall carcharorion gael eu dal am hyd at 30 diwrnod. Fe'u ceir mewn gorsafoedd heddlu nad ydynt yn agos at garchardai.
**25** Ym mis Gorffennaf 2015, cyhoeddodd y Gweinidog dros Garchardai, Andrew Selous AS wrth y senedd na fyddai'r llywodraeth bellach yn mynd yn ei blaen i greu 'coleg diogel' ac y byddai gwaith ar y safle arfaethedig yng Nghanolbarth Lloegr yn dod i ben.
**26** https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/364707/PaceCodeC2014.pdf

o ail dramgwydd neu dramgwydd ddilynol o gario cyllell.

- Daeth **Deddf Gofal 2014** i rym yn Ebrill 2015, gan gyflwyno fframwaith statudol ar gyfer darparu gofal cymdeithasol mewn carchardai a nodi newid sylweddol yn y ffordd y mae carchardai yn trefnu ac yn darparu gofal cymdeithasol ar gyfer troseddwyr.
- Cyhoeddwyd y **Cod Ymarfer Diwygiedig ar gyfer Cadw, Trin a Holi Pobl gan Swyddogion yr Heddlu** (Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 Cod C) ym mis Mai 2014. Mae hyn yn cynnwys y diwygiad i'r gyfraith a wnaed yn y flwyddyn flaenorol sy'n caniatáu'r hawl i rai 17 mlwydd oed gael mynediad at oedolyn priodol pan maent yng ngofal yr heddlu.[26]
- Cyhoeddwyd diwygiadau i **God Ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl** ym mis Ionawr 2015 ac maent yn berthnasol yn Lloegr. Mae'r ddogfen ddiwygiedig yn cynnwys pum egwyddor gyffredinol newydd a ddylai fod yn sail i bob penderfyniad o dan y ddeddf, ac yn galw ar gomisiynwyr MHA i ystyried deddfwriaeth hawliau dynol a chonfensiynau rhyngwladol.[27]
- Cyflwynodd **Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014** ddarpariaethau ynghylch rhyddhau a goruchwylio troseddwyr ar ôl eu rhyddhau, gan gynnwys y rhai ar ddedfrydau byr. O dan y Ddeddf, bydd pob carcharor, waeth beth fo hyd ei ddedfryd, yn ddarostyngedig i isafswm o 12 mis o oruchwyliaeth a chefnogaeth adsefydlu wrth gael ei ryddhau.[28]
- Yn dilyn ymlaen o'r Ddeddf hon, dechreuwyd gweithredu'r rhaglen '**Trawsnewid Adsefydlu**' gydag ad-drefnu gwasanaethau adsefydlu yn cael ei ddarparu drwy 'gwmnïau adsefydlu cymunedol' (ar gyfer troseddwyr risg canolig ac isel) a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (ar gyfer troseddwyr risg uchel ac uchel iawn).[29]
- Creodd **Deddf Troseddau Difrifol 2015** droseddau newydd sy'n ymwneud â meddu ar gyllyll ac arfau bygythiol mewn carchardai a thaflu eitemau i mewn i garchardai.[30]
- Mae **Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015** yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodol, gan gynnwys yr holl garchardai, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant, i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i weithgaredd terfysgol.[31]
- Cafodd **Bil Iechyd Meddwl yr Alban** ei gyflwyno gyda'r bwriad o ddiwygio Deddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (Yr Alban) 2003, gan gynnwys cynigion i wneud darpariaeth ynghylch gwarediadau iechyd meddwl mewn achosion troseddol, a newid a gwella darpariaethau sy'n ymwneud â hawliau'r person unigol.[32]
- Mae **Deddf Plant a Phobl Ifanc (Yr Alban) 2014** yn rhoi dyletswyddau ychwanegol ar weinidogion yr Alban a chyrff cyhoeddus i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cynnwys yn eu gwaith, ac yn cynyddu grym Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban i ymchwilio i gwynion ynghylch eu hawliau.[33]

---

**27** Yn: https://www.gov.uk/government/publications/code-of-practice-mental-health-act-1983 (agorwyd 14/10/15).
**28** Yn: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/11/contents/enacted (agorwyd 14/10/15).
**29** Gweler: https://www.gov.uk/government/collections/transforming-rehabilitation (agorwyd 14/10/15).
**30** Yn: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/9/contents/enacted (agorwyd 14/10/15).
**31** Yn: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/23/contents/enacted (agorwyd 14/10/15).
**32** Yn: http://www.scottish.parliament.uk/parliamentarybusiness/Bills/78451.aspx#sthash.UKrzXE6P.dpuf (agorwyd 14/10/15). Daeth hyn yn Ddeddf Iechyd Meddwl (Yr Alban) 2015 pan dderbyniodd gydsyniad brenhinol ar 4 Awst, 2015.
**33** Yn: http://www.legislation.gov.uk/asp/2014/8/contents/enacted (agorwyd 14/10/15).

Gyda'i gilydd, ystyriai aelodau'r NPM fod y datblygiadau deddfwriaethol yng Nghymru yn dod â phwyslais o'r newydd ar roi blaenoriaeth i ganlyniadau i'r dinesydd a'u cymunedau fel y mesur o lwyddiant y gwasanaethau cyhoeddus. Bydd ymdrechion aelodau'r NPM i gryfhau eu fframweithiau arolygu eu hunain yn cefnogi'r ymdrechion hyn.

Cafodd cynlluniau i adeiladu carchar newydd i fenywod yn yr Alban, i gymryd lle carchar Cornton Vale, eu dileu ac ym mis Ionawr, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban gynlluniau i ymgynghori ar ddarparu cyfleusterau carchar rhanbarthol a chymunedol llai yn lle hynny.

Dros y flwyddyn, parhaodd nifer o achosion proffil uchel o gam-drin rhywiol a cham-fanteisio ar blant o'r gorffennol i ddod i'r amlwg. Cynyddodd yr ymdrechion i ymchwilio i weld a oedd cyrff cyhoeddus ac eraill wedi cymryd eu dyletswydd o ofal o ddifrif i amddiffyn plant rhag cam-drin rhywiol yn y gorffennol. Roedd y rhain yn cynnwys Cynllun Gweithredu'r Alban ar Gyfiawnder i Ddioddefwyr Cam-drin Hanesyddol Plant mewn Gofal ym mis Tachwedd 2014, ac ymgynghoriad ar sefydlu ymchwiliad cyhoeddus,[34] a sefydlu ymchwiliad annibynnol i gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr.[35] Nid ystyriwyd eto i ba raddau y gallai cam-drin fod wedi digwydd mewn dalfeydd, gan gynnwys yng Nghanolfan Gadw Medomsley (a gaeodd yn 1988 ac sy'n destun ymchwiliad troseddol[36]). O ganlyniad i'r ymchwiliadau a'r erlyniadau, mae nifer y carcharorion hyn yn debygol o gynyddu ar draws stad y lleoedd cadw.

Archwiliodd nifer o gyrff rôl a swyddogaethau aelodau'r NPM dros y flwyddyn, gan wneud argymhellion pwysig i'w hystyried gan y llywodraeth a'r aelodau eu hunain.

- Cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) astudiaeth gymharol o arolygiaethau cyfiawnder troseddol, gan gynnwys dau aelod o'r NPM (Carchardai AEM a HMIC), a argymhellodd waith pellach i gynyddu eu heffaith a gwella'r gwaith dilynol yn dilyn eu hargymhellion eu hunain ac argymhellion pobl eraill.[37]
- Galwodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol am rwymedigaeth statudol ar sefydliadau i ymateb yn gyhoeddus i argymhellion yr arolygiaeth a chyrff rheoleiddio.[38]
- Pwysleisiodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus[39] pa mor bwysig yw annibyniaeth cyrff arolygu a'r angen i egluro a chryfhau eu perthynas ag adrannau llywodraeth sy'n eu 'noddi'. Yn dilyn hynny cadarnhaodd y llywodraeth ei bod

34 Gweler: http://www.gov.scot/Resource/0046/00463120.pdf a https://consult.scotland.gov.uk/health-and-social-care/inquiry-into-historical-child-abuse (agorwyd 14/10/15).
35 Gweler: https://www.csa-inquiry.independent.gov.uk/ (agorwyd 14/10/15).
36 Gweler: https://www.durham.police.uk/news-and-events/Pages/News%20Articles/Operation-Seabrook---Medomsely-Detention-Centre.aspx (agorwyd 14/10/15).
37 Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2015). *Inspection: A comparative study*. Llundain, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.
38 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2015), *Preventing deaths in detention of adults with mental health conditions*, Llundain, Equality and Human Rights Commission.
39 House of Commons Committee of Public Accounts (2015), *Inspection in home affairs and justice*. Llundain, Y Llyfrfa.
40 House of Commons Justice Committee (2015), *Prisons: planning and policies*. Llundain, Y Llyfrfa.
41 House of Commons Justice Committee (2015), *Appointment of Chief Inspector of Prisons: matters of concern*. Llundain, Y Llyfrfa.
42 House of Commons Public Administration Select Committee (2014), *Who's accountable? Relationships between Government and arm's-length bodies*. Llundain, Y Llyfrfa.
43 House of Commons Committee of Public Accounts (2015), *Inspection in home affairs and justice*. HC 975. Llundain, Y Llyfrfa.

yn gwrthod yr argymhelliad y dylid cael adolygiad o'r trefniadau hyn.

- Argymhellodd y Pwyllgor Cyfiawnder,[40],[41] y Pwyllgor Dethol ar Weinyddiaeth Gyhoeddus,[42] y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus,[43] ac Adolygiad Harris (sy'n nodi'r camau i atal a chryfhau ymatebion i farwolaethau oedolion ifanc yn y ddalfa) i gyd y dylai Prif Arolygydd Carchardai EM fod â llinell adrodd uniongyrchol i'r senedd, yn lle, neu yn ychwanegol at y trefniadau adrodd presennol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- Cyflwynodd y Pwyllgor Cyfiawnder nifer o bryderon difrifol am y broses a gychwynnwyd i benodi Prif Arolygydd Carchardai newydd ar gyfer Cymru a Lloegr.

Fe wnaeth Gorchymyn Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Arolygu a Monitro Carchardai) (Yr Alban) 2015 ddisodli pwyllgorau ymweld â charchardai gyda system newydd o fonitoriaid dan nawdd HMIPS, a rhoddodd y cyfrifoldeb i Brif Arolygydd Carchardai EM ar gyfer yr Alban benodi cydgysylltwyr monitro carchardai.[44] Yn yr un modd, argymhellodd Adolygiad Harris y dylai'r cyfrifoldeb am oruchwylio a chyllido'r IMBs drosglwyddo i Garchardai AEM.[45] Mae'r NPM yn croesawu cyfeiriadau penodol at OPCAT a rôl ymweld SPT y Cenhedloedd Unedig a gyflwynwyd yng Ngorchymyn Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Arolygu a Monitro Carchardai) (Yr Alban).[46]

Mae'r NPM hefyd yn croesawu'r cyfeiriad penodol at OPCAT (a rôl y Comisiwn Ansawdd Gofal fel rhan o'r NPM) yng Nghod Ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl newydd.


Cytunwyd ar Gyhoeddiad gan Gyngor ar y Cyd y Gweinidogion gan arweinwyr gwleidyddol a chynrychiolwyr y DU a'r tiriogaethau tramor yn Rhagfyr 2014. Roedd hyn yn cynnwys ymrwymiad i ymestyn confensiynau hawliau dynol craidd y Cenhedloedd Unedig i'r tiriogaethau, ond nid oes cyfeiriad penodol at OPCAT a oedd yn siomedig.[47] Mae rhannu arfer gorau ynghylch rheoli carchardai rhwng y tiriogaethau tramor a'r DU i'w groesawu, ond yn is na'r safonau sy'n ofynnol gan OPCAT.

Ym mis Gorffennaf 2014, ysgrifennodd Prif Arolygydd Carchardai EM (Cymru a Lloegr) at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn yn mynegi siom gyda'r cyhoeddiad nad oedd argymhelliad ymchwiliad Baha Mousa y dylai Arolygiaeth Carchardai EM gynnal arolygiadau annibynnol o gyfleusterau cadw'r DU yn Afghanistan bellach yn angenrheidiol. Er bod presenoldeb y DU yn Afghanistan yn dirwyn i ben, mynegodd y llythyr pa mor bwysig oedd sefydlu'r egwyddor o arolygu annibynnol ar leoedd cadw dramor a reolir gan y DU ac y dylid cymhwyso'r egwyddor hon ar achlysuron yn y dyfodol pan fydd hyn yn digwydd. Ceisiodd Arolygiaeth Carchardai EM gynnwys pwerau i archwilio lleoedd cadw milwrol ym Mil bob pum mlynedd y Lluoedd Arfog, er mwyn rhoi trefniadau presennol ar sail statudol. Wrth i'r adroddiad hwn gael ei gwblhau, dywedwyd wrth Arolygiaeth Carchardai EM nad oedd y llywodraeth yn bwriadu rhoi arolygu lleoedd cadw milwrol ar sail statudol, a oedd yn siomedig.

44 Yn: http://www.legislation.gov.uk/ssi/2015/39/contents/made (agorwyd 14/10/15).
45 The Harris Review (2015), *Changing prisons, saving lives: report of the independent review into self-inflicted deaths in custody of 18-24 year olds.*
46 Dyma'r ail gyfeiriad at OPCAT mewn statudau aelodau'r NPM, mae'r cyntaf yn Neddf yr Heddlu a Diwygio Tân (Yr Alban) (93).
47 Yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/388001/JMC_Communique_FINAL.pdf (accessed 14/10/15).

## Adran dau

# Canolbwyntio ar faterion cadw



## Cadw pobl ar eu pen eu hunain a'u hynysu

O 2014-15, canolbwyntiodd aelodau'r NPM eu sylw ar gadw pobl ar eu pen eu hunain a'u hynysu mewn lleoliadau cadw, gan ddefnyddio meini prawf sy'n seiliedig ar hawliau dynol i nodi arferion presennol ar draws y lleoliadau cadw y maent yn eu monitro. Mae'r dull thematig hwn yn ymateb yn uniongyrchol i awgrymiadau gan Is-Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig er Atal Arteithio y dylai NPM y DU NPM gryfhau cysondeb ei waith.

### Cefndir

Ar draws lleoliadau cadw, mae'n bosibl i garcharorion a rhai sy'n cael eu cadw gael eu gwahanu, eu rhoi ar eu pen eu hunain neu eu hynysu oddi wrth bobl eraill. Gallai hyn ddigwydd am un o ystod o resymau a fwriadwyd neu anfwriadol, gan gynnwys:

- fel sancsiwn disgyblu, yn deillio o droseddau neu aflonyddwch a achoswyd o fewn y man cadw;
- fel mesur gweinyddol, i ddelio ag ymddygiad aflonyddgar neu beryglus;
- fel mesur ataliol rhag niwed neu risg yn y dyfodol;
- fel mesur i ddiogelu carcharor oddi wrth eraill;
- o ganlyniad i drefn a /neu amgylchedd ffisegol sy'n cyfyngu ar gyswllt ag eraill.

Mae safonau hawliau dynol yn ystyried bod yr arfer o wahanu carcharorion yn seiliedig ar y tebygolrwydd y byddant yn arfer 'dylanwad drwg',[48] yn dderbyniol, ond rhaid i unrhyw gyfyngiadau a osodir ar bersonau sydd eisoes wedi'u hamddifadu o'u rhyddid fod y lleiafswm angenrheidiol ac yn gymesur â'r amcan cyfreithlon y gosodir nhw ar ei gyfer.[49]

Er y gall rhai cyfyngiadau fod yn gyfreithlon, mae angen i'r cyfiawnhad ar gyfer mesurau o'r fath a'u difrifoldeb gael eu harchwilio yn ofalus gan gyrff monitro. Mae'n hanfodol i aelodau'r NPM wneud hyn oherwydd pan fyddant o'r golwg, gall hawliau carcharorion gael eu hesgeuluso neu eu tanseilio. Mae effaith seicolegol a ffisiolegol ynysu hefyd yn cyfiawnhau mwy o graffu ar yr arferion.

Ar eu mwyaf difrifol, gall arferion ynysu fod yn gyfystyr â charcharu ar eu pen eu hunain, a ddiffinnir fel a ganlyn:

> 'Carcharu carcharor ar ei ben ei hun yw'r ynysu unigolion yn gorfforol sy'n cael eu cyfyngu i'w celloedd am 22 awr neu fwy y dydd.' Pan fydd hyn yn para am gyfnod o fwy na 15 diwrnod yn olynol mae'n cael ei alw yn garchariad ynysig hir. Mewn llawer o awdurdodaethau caniateir carcharorion allan o'u celloedd am un awr o ymarfer corff ar eu pen eu hunain. Mae cysylltiad ystyrlon â phobl eraill fel arfer yn cael ei ostwng i isafswm. Mae'r gostyngiad mewn ysgogiadau nid yn unig yn feintiol ond hefyd yn ansoddol. Anaml y mae'r ysgogiadau sydd ar gael a'r cysylltiadau cymdeithasol achlysurol yn cael eu dewis yn rhydd, maent yn undonog ar y cyfan, ac yn aml nid ydynt yn dangos empathi.[50]

Yn ei adroddiad 2011 i Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, nododd Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Artaith ei farn awdurdodol na ddylai carcharu pobl ar eu

48 United Nations, *Standard minimum rules for the treatment of prisoners* (1955), 67(a). United Nations Commission on Crime Prevention and Criminal Justice (2015), *op. cit.*, 93(1)(a).
49 Council of Europe, *Recommendation on the European Prison Rules* (CM/Rec(2006)2), 3.
50 Istanbul Statement on the Use and Effects of Solitary Confinement (9 December 2007); United Nations Commission on Crime Prevention and Criminal Justice (2015), *op. cit.*, Rheol 44.

pen eu hunain gael ei ddefnyddio ar blant neu bobl ag anableddau meddyliol.[51]

### Methodoleg

Cytunodd NPM y DU ar ddiffiniadau cyffredin o ynysu a charcharu pobl ar eu pen eu hunain fel sylfaen ar gyfer monitro. Roedd y diffiniad dwy-haen hwn yn caniatáu i aelodau'r NPM gynnwys arfer cyffredinol - lle mae carcharorion yn cael eu hynysu yn gorfforol am un o nifer o resymau - ac arfer yn ei ffurf fwyaf eithafol, sy'n gyfystyr â charcharu rhywun ar ei ben ei hun, waeth sut y cafodd yr arferion eu henwi neu a ganfuwyd nhw mewn cyfleusterau wedi'u dynodi at ddiben ynysu ai peidio.

> **Diffiniadau gwaith yr NPM Ynysu**
> Ynysu ffisegol unigolion sy'n cael eu cyfyngu i gelloedd /ystafelloedd am resymau disgyblu, amddiffynnol, ataliol neu weinyddol, neu sydd yn rhinwedd yr amgylchedd ffisegol neu gyfundrefn yn cael eu hunain wedi'u hynysu i raddau helaeth oddi wrth eraill. Mae cyfyngiadau ar gysylltiadau cymdeithasol a'r ysgogiadau sydd ar gael yn fwy nag ar gyfer y boblogaeth o garcharorion yn gyffredinol.
>
> **Carcharu rhywun ar ei ben ei hun**
> Ynysu ffisegol unigolion sy'n cael eu cyfyngu i gelloedd /ystafelloedd am fwy na 22 awr y dydd. Mae cysylltiad ystyrlon â phobl eraill yn cael ei leihau i isafswm ac mae gostyngiad meintiol neu ansoddol mewn ysgogiadau. Anaml y mae'r ysgogiadau sydd ar gael a'r cysylltiadau cymdeithasol achlysurol yn ddewis rhydd, yn gyffredinol maent yn undonog ac yn aml nid ydynt yn empathetig.

Rhoddodd aelodau'r NPM ymatebion i dempled monitro cyffredin yn seiliedig ar eu hymweliadau a /neu gronfeydd data. Mae'r ymatebion gan aelodau'r NPM wedi cael eu crynhoi a'u cofnodi yn ôl y mathau o fannau cadw fel ffordd o nodi arferion cyffredin ar draws awdurdodaethau. Mae'r dystiolaeth yn rhoi cipolwg o'r canfyddiadau gan aelodau'r NPM yn hytrach na disgrifiad cynhwysfawr neu ddarn cynhwysfawr o waith ymchwil. Cyflwynir themâu allweddol o'r holl leoliadau ar y diwedd.

### Carchardai

Mae HMIPS ac Arolygiaeth Carchardai EM yn archwilio ynysu fel rhan o'u harolygiadau rheolaidd ac fe wnaethant gyfrannu tystiolaeth i'r adolygiad hwn o un a 12 o arolygiadau yn y drefn honno.[52] Mae CJINI hefyd yn arolygu carchardai ac yn adrodd ar arwahanu, ond ni wnaethant gynnal unrhyw arolygiadau perthnasol yn ystod y cyfnod adrodd. Mae arolygwyr carchardai yn adolygu ffeiliau carcharorion unigol, yn bwrw golwg dros gofnodion cyfarfodydd sy'n ymwneud â goruchwylio ynysu, yn siarad â charcharorion a staff ac yn arsylwi arferion er mwyn llunio barn ynghylch ei ddefnydd. Mae meini prawf a safonau ar gyfer yr arolygiadau hyn yn cael eu cyhoeddi.[53] Cyflwynwyd gwybodaeth hefyd gan un IMB yng Nghymru a Lloegr ac Ysgrifenyddiaeth IMBNI.

### Cefndir

Mae safonau hawliau dynol yn nodi y gall yr arfer o ynysu carcharorion godi o sancsiwn disgyblu, at ddibenion diogelu, neu fel penderfyniad gweinyddol ar gyfer dibenion ataliol. Dylai carcharu rhywun ar ei ben ei hun gael ei ddefnyddio fel dewis olaf yn unig, ac mewn amgylchiadau eithriadol. Dylai fod mesurau diogelu gweithdrefnol ar gyfer pob achos o garcharu rhywun ar ei ben ei hun, a ddylai bara am y cyfnod byrraf posibl. Maent

**51** United Nations General Assembly, Report of the Special Rapporteur on Torture, A/66/268, 5 Awst 2011.
**52** Roedd pob un o'r arolygiadau hyn yn rhai o garchardai dynion.
**53** Yn: http://www.gov.scot/Publications/2015/03/8256/0 a http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/about-our-inspections/inspection-criteria/#.Vbjq9qPsqQA (agorwyd 14/10/15).

hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i sicrhau bod rhaglen foddhaol o weithgareddau ar gael i'r carcharorion: 'ni ellir gadael i garcharorion ddihoeni am wythnosau, misoedd o bosibl, dan glo yn eu celloedd, waeth pa mor dda y gallai amodau materol fod o fewn y celloedd'. Dylai cyfundrefnau ddarparu wyth awr neu fwy y dydd i'r carcharorion y tu allan i'w celloedd, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau pwrpasol o natur amrywiol, gan gynnwys o leiaf un awr o ymarfer corff yn yr awyr agored bob dydd.[54]

### Lle mae carcharu pobl ar eu pen eu hunain ac ynysu yn digwydd

Ar draws y DU, gall carcharorion gael eu hynysu mewn unedau neu gelloedd arbennig (unedau 'gwahanu', 'gofal a gwahanu' neu 'wahanu ac ailintegreiddio'). Yng Nghymru a Lloegr, gallai hyn fod i gynnal 'trefn neu ddisgyblaeth dda' neu er budd y carcharorion eu hunain (Rheol Carchar 45 (1)). Gall carcharorion gael eu gosod yn yr unedau hyn hefyd o dan 'gaethiwed yn y gell' fel cosb (Rheol Carchar 55 (1) (e)), neu hyd nes ceir dyfarniad (Rheol Carchar 53 (4)). Mae 'celloedd arbennig' yn cael eu defnyddio ar gyfer ynysu carcharorion sy'n 'anhydrin neu dreisgar' a dylid eu defnyddio am gyfnodau byr yn unig.[55] Yn yr Alban, gall carcharorion gael eu hynysu i ddiogelu eu hiechyd a'u lles eu hunain neu eraill (Rheol Carchar 41), er mwyn 'trefn ddisgyblaeth dda', er mwyn diogelu buddiannau unrhyw garcharor a sicrhau diogelwch pobl eraill (Rheol Carchar 95), neu ar gyfer cosb (Rheol Carchar 114).[56] Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r rhan fwyaf o wahanu ffurfiol yn digwydd ar sail cyfyngu ar gymdeithasu er mwyn trefn neu ddisgyblaeth dda, er mwyn sicrhau diogelwch neu er lles y carcharor ei hun (Rheol 32).[57]

Mewn llawer o achosion, canfu arolygwyr carchar yng Nghymru a Lloegr fod y cyfundrefnau mewn unedau arwahanu yn gyfystyr â chadw carcharorion ar eu pen eu hunain.

Yn ogystal, yng Nghymru a Lloegr, mae system y 'ganolfan oruchwyliaeth agos' (CSC) (math o ddalfa ddwfn o fewn y stad diogelwch uchel) yn fath o arwahanu gweinyddol sy'n symud carcharorion unigol o'r boblogaeth brif ffrwd er mwyn cynnal trefn neu ddisgyblaeth dda neu am resymau diogelwch (Rheol Carchar 46). Mae rhai carcharorion ar y 'cynllun rheoli ymddygiad heriol' hefyd yn cael eu cadw ar wahân i'r boblogaeth brif ffrwd mewn unedau ar wahân neu unedau arwahanu[58]

Yng Nghymru a Lloegr, canfu arolygwyr fod carcharorion ar drefnau sylfaenol[59] neu os oeddent yn ddi-waith yn aml yn cael eu cloi yn eu celloedd am gyfnodau digon hir i'r drefn fod yn gyfystyr â chadw carcharorion ar eu pen eu hunain. Fe wnaethant ganfod carcharorion hefyd wedi eu hynysu tra roeddent yn cael eu rhoi mewn unedau gofal iechyd.

Mewn un carchar i ferched, nad oedd wedi'i gynnwys yn yr adolygiad hwn, nododd yr arolygwyr yn flaenorol nad oedd unrhyw uned

54 European Committee for the Prevention of Torture (2015), *CPT Standards*, CPT/Inf/E (2002) 1 – Rev 2015, paras 47-48, 53-64; Shalev, S. (2008) *A Sourcebook on Solitary Confinement*. Llundain: Canolfan Mannheim ar gyfer Troseddeg, Ysgol Economeg Llundain.
55 The Prison Act 1952 s14 (6) yn: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/Geo6and1Eliz2/15-16/52/contents (agorwyd 14/10/15).
56 The Prisons and Young Offenders Institutions (Scotland) Rules 2011. Yn: http://www.legislation.gov.uk/ssi/2011/331/contents/made (agorwyd 14/10/15).
57 The Prison and Young Offenders Centres Rules (Northern Ireland) 1995. Yn: https://www.dojni.gov.uk/publications/northern-ireland-prison-service-prison-rules (agorwyd 14/10/15).
58 HM Inspectorate of Prisons (2015), *Report on an unannounced thematic inspection of the Close Supervision Centre system by HM Chief Inspector of Prisons, 9-20 Mawrth 2015.*
59 Gweler National Offender Management Service, *Prison Service Instruction 30/2013, Incentives and Earned Privilieges*, at: http://www.justice.gov.uk/downloads/offenders/psipso/psi-2013/psi-30-2013-1.doc#section4 (agorwyd 14/10/15)

wahanu ffurfiol ac roedd y nifer fach o ferched a oedd yn destun cosb ffurfiol yn cyflawni'r gosb ar yr unedau yn eu cell eu hunain. Er bod angen gwella'r modd y goruchwylir y trefniant hwn, roedd yn cael ei ystyried yn welliant ar y defnydd o unedau arwahanu a welir fel rheol mewn carchardai merched.[60]

Efallai y bydd y cynnydd dramatig yn nifer y carcharorion a gyfyngwyd i'w celloedd oherwydd prinder staff mewn un carchar yng Ngogledd Iwerddon ar ddiwedd 2014 hefyd wedi cynyddu'r achosion o ynysu ar y pryd.[61]

**Astudiaeth achos: carcharorion di-waith sy'n cael eu carcharu eu pen eu hunain**
Mewn arolygiad o garchar lleol mawr, gorlawn oedd yn dal dros 1,600 o ddynion, canfu arolygwyr fod tua 600 o garcharorion ar leoliad arferol yn ddi-waith. Roedd llawer o'r dynion hyn yn derbyn dim ond un awr allan o'u celloedd bob dydd oherwydd cyfundrefn a oedd wedi ei heffeithio'n ddifrifol gan brinder staff. Roedd y rhai ar y gyfundrefn sylfaenol yn derbyn hanner awr y dydd o ymarfer corff. Os oeddent yn ddi-waith, dim ond am tua awr ar ddau ddiwrnod yr wythnos y byddent allan o'u celloedd, yn cysylltu gyda phobl eraill. Ar ddydd Sul, roedd pob carcharor yn cael awr o ymarfer corff, ond fel arall roeddent yn cael eu cloi yn eu celloedd trwy'r dydd oni bai eu bod yn dymuno mynychu addoliad corfforaethol. Roedd carcharorion di-waith yn gyffredinol yn derbyn ymarfer corff bob dydd, ac fel arall roeddent yn cael cyfnod o 'gawodydd a thasgau domestig', a oedd yn amrywio o ran hyd rhwng 45 a 90 munud.

## Materion penodol a nodwyd drwy fonitro

### Terminoleg
Roedd ynysu a /neu garcharu rhywun ar ei ben ei hun yn un o'r prif nodweddion yn yr unedau a ddynodwyd yn arbennig a enwir uchod. Dyma hefyd oedd nodwedd ddiffiniol yr arferion neu'r termau canlynol mewn achosion penodol: llety mewn amodau penodedig; gwahardd rhag cymdeithasu; cyfyngu i'r ystafell; dyletswydd gofal.

**Astudiaeth achos: 'dyletswydd gofal'**
Canfu monitro'r NPM drefn gyfyngedig mewn carchar diogelwch uchel a elwir yn 'ddyletswydd gofal', sy'n anelu at ddiogelu'r rhai sydd mewn perygl o ddioddef o drais dialgar. Roedd carcharorion ar y drefn anffurfiol hon yn parhau i fod ar brif adain y carchar, ond ni allent dreulio mwy na 30 munud y dydd allan o'u cell (er yn answyddogol roedd rhai yn cael mwy). Gallent fynychu ymweliadau ac addoli corfforaethol pe baent yn cael eu hebrwng. Roedd deg o ddynion wedi bod yn destun y gyfundrefn hon am dros fis, pump am dros ddau fis ac un am dros saith mis. Roedd y gyfundrefn yn gyfystyr â charchau pobl ar eu pen eu hunain ac roedd y gwaith o'u llywodraethu neu eu hadolygu'n annigonol.

**60** HM Inspectorate of Prisons (2013), *Report on an unannounced inspection of HMP Eastwood Park by HM Chief Inspector of Prisons, 11-22 November 2013.*
**61** Northern Ireland Assembly, Question AQW 41221/11-15. Gweler: http://aims.niassembly.gov.uk/questions/printquestionsummary.aspx?docid=221039 (agorwyd 14/10/15).

## Hyd yr unigedd: arferion ffurfiol ac anffurfiol

Roedd cryn amrywiaeth yn hyd yr amser yr oedd carcharorion yn ei dreulio yn ynysig. Yn gyffredinol, roedd hyd cyffredinol arhosiad mewn uned wahanu neu arwahanu yn fyrrach na'r amser roedd rhai carcharorion yn ei dreulio wedi eu cyfyngu i'w cell neu wedi'u hynysu yn anffurfiol ar drefn 'sylfaenol'. Ond roedd eithriadau gan gynnwys mewn un carchar yng Ngogledd Iwerddon, lle canfu un aelod o'r NPM ddynion yn yr uned gofal a gwahanu yn ofni dychwelyd i'w hadain a oedd wedi aros yno am fisoedd, ac un a oedd wedi cael ei wahanu am nifer o flynyddoedd. Roedd hyd cyfartalog arhosiad mewn unedau arwahanu yng Nghymru a Lloegr yn amrywio o dri diwrnod i 12 diwrnod, ond gallai fod yn llawer hirach.

Roedd rhai o'r dynion mewn CSCs wedi bod yno'n barhaus am nifer o flynyddoedd, gan gynnwys un a oedd wedi ei ddewis ar gyfer y CSC yn 1999. Yn y rhan fwyaf o achosion, parodd yr amser a dreuliwyd mewn 'llety arbennig' ychydig oriau, ond mewn dau garchar canfu aelod o'r NPM sawl achos o garcharorion yn cael eu cadw drwy'r nos neu am dros 15 awr.

## Rhesymeg a chyfiawnhad

Mewn llawer o achosion, mae aelodau'r NPM yn ystyried bod y modd y gwneir penderfyniadau i ynysu o dan y rheolau carchar penodol a amlinellir uchod yn un y gellir ei gyfiawnhau a rhoddir rhesymeg glir dros wneud hynny. Ond mewn nifer o garchardai a gynhwysir yn yr adolygiad hwn nid oeddent yn argyhoeddedig bod pob gwahanu neu ddefnyddio llety arbennig yn angenrheidiol neu'n ddewis olaf. Mewn un carchar, canfu arolygwyr bod gormod o ddefnyddio ar wahanu 'hyd nes ceir dyfarniad' neu 'hyd nes ceir ymchwiliad gan ddiogelwch'.

Mae carcharorion a nodwyd fel rhai sydd mewn perygl o gyflawni hunanladdiad neu hunan-niwed yn cael eu rheoli gan ddefnyddio gweithdrefnau asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT), sy'n cael eu hanelu at leihau risg trwy gynllunio gofal.[62] Dylai carcharorion ar ACCT gael eu gwahanu mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, gyda rhesymau am hynny wedi'u cofnodi'n glir a lle ceir tystiolaeth eu bod wedi ystyried yr holl opsiynau eraill. Ond mae aelodau'r NPM wedi mynegi pryderon yn gyson am wahanu carcharorion sydd mewn perygl. Mewn nifer o achosion yn yr adolygiad hwn, canfu aelodau'r NPM fod niferoedd uchel o garcharorion ar ACCTs wedi cael eu cadw mewn lleoedd arwahanu a buont yn holi a oedd yna, mewn gwirionedd, yr amgylchiadau eithriadol oedd yn cyfiawnhau eu gwahanu. Mewn un carchar, roedd 45 o garcharorion ar ddogfennau ACCT wedi cael eu gwahanu yn ystod y chwe mis cyn yr arolygiad. Roedd yn destun pryder mawr fod pump o garcharorion wedi lladd eu hunain tra roeddent mewn unedau gwahanu yn 2014-15, ac o'r rhain roedd un ar ACCT ar y pryd.

Mewn un carchar nododd aelod NPM fod algorithmau diogelwch wedi'u cymhwyso i roi ystyriaeth i iechyd meddwl carcharorion cyn i'r arwahanu gael ei gymeradwyo, ac mewn un arall, roedd yn amlwg oddi wrth y cyswllt gyda staff fod anghenion iechyd meddwl a gwendidau wedi cael eu hystyried, ond nid oedd y rhain wedi cael eu cofnodi'n llawn.

62 National Offender Management Service, *Prison Service Instruction 64/2011 Management of prisoners at risk of harm to self, to others and from others (Safer Custody)*. Yn: http://www.justice.gov.uk/downloads/offenders/psipso/psi-2011/psi-64-2011-safer-custody.doc (agorwyd 14/10/15).

63 HM Inspectorate of Prisons, 2015), *Report on an unannounced inspection of HMP Humber, by HM Chief Inspector of Prisons, 13-24 July 2015.*

64 HM Inspectorate of Prisons (2014), *Report on an unannounced inspection of HMP Guys Marsh, by HM Chief Inspector of Prisons, 10-21 November 2014.*

Mewn un carchar, sydd y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn, canfu arolygwyr nifer o garcharorion yn 'hunan-ynysu' am eu bod ofn gadael eu celloedd oherwydd bygythiadau gan garcharorion eraill neu ddyled heb ei datrys. Roedd gan bob un gyfundrefnau hynod o gyfyng ac nid oedd gan unrhyw un ohonynt gymorth ffurfiol na chynlluniau ar gyfer ailintegreiddio neu reoli.[63] Mae arolygwyr ffurfiol wedi adrodd am garchardai hefyd lle roedd dynion wedi camymddwyn fel y byddent yn cael eu cymryd i'r uned arwahanu lle byddent yn ddiogel rhag gangiau a bwlio, ac yna byddent yn aml yn trosglwyddo i garchar arall.[64]

## Amodau a chyfundrefn

> **Astudiaeth achos: mae arolygydd yn adrodd am amodau mewn uned gofal a gwahanu (CASU)**
> Roedd y celloedd yn y CASU yn arbennig o wael. Roeddent wedi'u gorchuddio gyda graffiti, nid oedd unrhyw sgrinio o amgylch y toiled ac nid oedd gan y rhan fwyaf fwrdd. Roeddent mewn cyflwr gwaeth na'r lleoliad arferol. Roedd gan un gell yr hyn oedd yn edrych fel carthion dynol wedi eu taenu ar hyd ffrâm y drws. Dywedodd y carcharor a oedd yn byw yn y gell hon wrthyf fod hyn wedi bod yno pan symudodd i mewn i'r gell dair wythnos yn flaenorol. Cafodd y materion hyn eu trin yn ystod yr arolygiad ond nid oedd unrhyw wybodaeth am ba mor hir yr oeddent wedi bodoli cyn yr arolygiad.

Roedd amrywiaeth eang yn yr amodau yr oedd carcharorion yn cael eu hynysu ynddynt. Yn yr Alban, ystyrid bod amodau mewn unedau 'gwahanu ac ailintegreiddio' yn dda yn gyffredinol, gydag un eithriad mewn carchar hŷn. Fel arfer, roedd gan gelloedd gwahanu yr un dodrefn ag a geid yn y prif leoliad. Mewn un achos, nododd yr aelod NPM fod waliau'r celloedd wedi cael eu difrodi gan y prosesau glanhau yn ystod ac ar ôl protestiadau budr.

Yng Ngogledd Iwerddon, roedd amodau yn gyffredinol dda ac roedd ardaloedd cymunedol mewn cyfleusterau arwahanu yn lân, ond roedd y celloedd yn aml yn fudr. Roedd gan y rhan fwyaf o gelloedd arwahanu deledu.

Canfu monitriaid NPM amodau rhesymol neu dda mewn tri o'r carchardai yn Lloegr a gafodd eu cynnwys yn yr adolygiad hwn. Mewn carchardai eraill daethant o hyd i graffiti ar waliau celloedd, celloedd oer neu frwnt a thoiledau heb eu sgrinio. Roedd y rhan fwyaf o gelloedd arwahanu wedi eu dodrefnu'n ddigonol ac mewn un carchar nododd arolygydd mai dodrefn metel sefydlog oedd yno. Mewn rhai achosion roedd gan garcharorion setiau teledu mewn unedau arwahanu ond mewn dau garchar lle'r oedd yn anarferol i garcharorion gael setiau teledu, roedd radios gyda batris yn anodd eu cael. Mewn un arall, nid oedd setiau radio yn cael eu caniatau beth bynnag oedd y rheswm dros y gwahaniad. Roedd gan un uned wahanu yn yr adolygiad hwn lyfrgell fechan. Nodwyd nodweddion normaleiddio, fel posteri, yn ardaloedd cymunedol un uned arwahanu a rhai o'r unedau CSC.

Mewn sawl sefydliad, gan gynnwys y CSCau, roedd aelodau'r NPM yn pryderu o ganfod iardiau ymarfer a oedd fel cewyll neu nad oedd modd gweld unrhyw beth o'r tu allan nad oedd wedi'i hidlo trwy ffensys neu wifren rasel.

Roedd y celloedd llety arbennig y gwnaeth aelodau'r NPM ymweld â hwy fel rhan o'r adolygiad hwn heb eu dodrefnu a nododd yr arolygwyr fod yr amodau yn ddifrifol. Mewn un, roedd gan y gell blinth caled isel a rhywfaint o olau naturiol, ond roedd yn oer ac roedd

angen ei hailbeintio a'i hailaddurno. Nododd un aelod o'r NPM nad oedd carcharorion a oedd yn bygwth staff pan fyddent yn ceisio agor drysau'r gell efallai hyd yn oed yn cael dwr am gyfnodau hir iawn, ac efallai y byddent yn cael eu rhoi mewn dillad na fyddai'n rhwygo os credid eu bod mewn perygl o hunan-niweidio.

Roedd y gyfundrefn oedd ar gael i garcharorion oedd wedi'u hynysu yn ffurfiol yn amrywio hefyd. Mewn rhai carchardai, roedd lefelau staffio yn cyfyngu ar yr amser y gellid ei dreulio allan o gelloedd mewn unedau gwahanu, neu roedd hyn yn golygu nad oedd trefnau'n cael eu cyflawni'n gyson. Mewn un carchar yng Ngogledd Iwerddon, mynediad anghyson yn unig oedd gan ddynion oedd wedi'u harwahanu at gawodydd, ymarfer corff a ffonau gan fod hyn yn dibynnu ar faint o staff oedd ar gael. Roedd carcharorion yn gwneud ymarfer corff mewn carchardai yn Lloegr ar eu pen eu hunain yn aml ac nid oedd yn para am awr gyfan, fel y dylai. Mewn un carchar, roedd cawodydd a galwadau ffôn yn cael eu darparu dair gwaith yr wythnos yn unig i ddynion yn yr uned wahanu. Mewn carchar arall, roedd carcharorion a oedd yn destun 'datgloi lluosog' (lle mae'n rhaid i sawl aelod staff fod yn bresennol i agor eu drysau neu eu hebrwng) fynediad mwy cyfyngedig at ymarfer corff, cawodydd a galwadau ffôn.

**Astudiaeth achos: cyfyngiadau ar y gyfundrefn mewn uned wahanu**

Hanner awr o ymarfer, defnyddio'r ffôn, cyfle i lanhau'r gell a thro byr i'r man gweini oedd yr unig hawl dyddiol i adael y gell, gan fod y cawodydd yn y gell. Roedd ymarfer yn digwydd yn unigol, a gwelsom fod swyddogion gradd sylfaenol yn arfer disgresiwn i wrthod galwadau ffôn os bernid bod y carcharor yn ymddwyn yn amhriodol.

Roedd mynediad at addoli corfforaethol i fod i gael ei gynnig ar sail lle roedd y risg wedi'i asesu, ond mewn sawl achos ni wnaeth aelodau'r NPM ganfod unrhyw enghreifftiau lle roedd hyn wedi ei ddarparu.

Yn y CSC, canfu arolygwyr fod gan y rhan fwyaf o ddynion gyfleoedd rhesymol i gael amser allan o'r gell, cael cyswllt â charcharorion eraill a staff, a threfnau rhesymol o adeiladol.

Roedd y carcharorion oedd yn canfod eu hunain wedi'u hynysu yn anffurfiol yn eu celloedd yn gallu cael mynediad at drefn gyfyngedig yn unig ac roedd eu cysylltiad ag eraill yn dibynnu ar amser cyfyngedig yn unig allan o'u celloedd. Mewn un carchar, gallai dynion ar drefn sylfaenol gael dwy gawod yr wythnos yn unig, ac mewn rhai eraill roeddent yn cael dim ond 30 neu 60 munud y dydd ar gyfer ymarfer corff neu ddyletswyddau domestig. Mewn nifer o sefydliadau, nid oedd carcharorion yn cael unrhyw fynediad at addysg. Mewn un carchar, nododd yr aelod NPM fod setiau teledu a radio wedi eu dwyn oddi ar y carcharorion a'u bod wedi derbyn radio carchar sylfaenol yn lle hynny. Roedd ymweliadau i 20 o garcharorion ar drefn sylfaenol mewn un carchar wedi cael eu cyfyngu i 30 munud mewn bythau ymweld caeedig.

Mewn un carchar lle canfu arolygwyr garcharorion gydag anghenion iechyd meddwl sylweddol wedi'u hynysu yn uned cleifion mewnol yr adran gofal iechyd, fe wnaethant nodi bod y dynion yn destun protocolau datgloi rheoledig ac mai ychydig iawn o gyswllt a gaent â staff, a llai gyda charcharorion eraill.

**Arfer da o un carchar yn Lloegr**
Roedd y mannau cymunedol yn yr uned wahanu yn lân ac wedi'u haddurno'n lliwgar, roedd gorchuddion y lloriau wedi eu hatgyweirio a nodweddion normaleiddio megis murluniau a phosteri ar waliau yn gwella'r amgylchedd. Roedd yr 16 o gelloedd ar draws dau landin yn lân ac yn rhydd o graffiti. Roeddent wedi eu dodrefnu'n ddigonol ac roedd gan rai setiau teledu. Roedd y drefn ddyddiol ar gyfer carcharorion oedd wedi'u lleoli yn yr uned wahanu yn well nag yr ydym yn ei weld yn aml ac yn cynnwys mynediad dyddiol i ymarfer corff, ffonau a chawodydd. Weithiau roedd carcharorion yn cael caniatâd i fwyta allan o'u celloedd os nad oeddent yn peri unrhyw risg i eraill ac roedd rhai wedi cael caniatâd i gymdeithasu am gyfnodau byr yn dilyn asesiad risg.

## Gweithdrefnau a llywodraethu

Yn yr Alban, mae gan y rhai a gedwir mewn unedau gwahanu ac ailintegreiddio am fwy na thri mis gynlluniau gofal unigol, ac mae eu hachosion yn cael eu hadolygu gan bwyllgor amlddisgyblaeth. Mae carchardai yng Nghymru a Lloegr i fod i ddatblygu cynlluniau gofal ar gyfer carcharorion unigol a gedwir mewn unedau gwahanu am dros fis a grwpiau monitro ac adolygu arwahanu (SMARG), ond roedd y rhain yn darparu lefelau amrywiol o oruchwyliaeth. Mewn dau garchar, canfu arolygwyr fod monitro SMARG yn soffistigedig wrth adnabod yr unigolion sy'n cael eu gwahanu dro ar ôl tro; mewn carchar arall roedd monitro SMARG wedi dod i ben ac felly dibynnid ar wybodaeth bersonol y staff i nodi achosion o arwahanu oedd yn digwydd dro ar ôl tro.

Mae gan yr IMBs rôl benodol mewn adolygiadau gwahanu, gan eu bod yn cael eu hysbysu am benderfyniadau i wahanu ac y gallant fynychu cynadleddau achos ac adolygiadau lle gallant wneud eu barn yn hysbys.[65] Ond nododd un IMB yng Nghymru a Lloegr anawsterau o ran mynychu'r adolygiadau cyntaf ar arwahanu (o fewn 72 awr). Gallai aelodau eraill o'r NPM fynychu cynadleddau achos arwahanu yn ystod arolygiadau fel rhan o'u harsylwi.

Ym mis Gorffennaf 2015, dyfarnodd y Goruchaf Lys yn achos *R (ar gais Bourgass ac un arall) yn erbyn Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder* bod dirprwyo cyfrifoldebau gweinidogol i ymestyn arwahanu yng Nghymru a Lloegr y tu hwnt i 72 awr yn anghyfreithlon mewn dau achos o arwahanu yn y tymor hir. [2015] UKSC 54

Er bod adolygiad mewnol sylweddol yn cael ei wneud o benderfyniadau i leoli neu ymestyn lleoliadau yn y CSC, mae un aelod o'r NPM wedi mynegi pryder ynghylch diffyg adolygiad allanol o'r penderfyniadau hyn.

Yng Nghymru a Lloegr, dylai staff iechyd asesu unigolyn sydd wedi cael ei wahanu yn ffurfiol o fewn dwy awr er mwyn sicrhau ei fod yn feddyliol ac yn gorfforol abl i gael ei wahanu, gan ddefnyddio algorithm safonedig. Mae staff iechyd yn ymweld â phob carcharor sy'n cael ei wahanu neu sy'n ddarostyngedig i gael ei gaethiwo yn ei gell yn ddyddiol ac maent

65 Yn yr 1970au, roedd y Byrddau Ymwelwyr (IMBs yn ddiweddarach) eu hunain yn gallu disgyblu a gallent osod cosbau ar garcharorion, gan gynnwys 'colli hawl i leihau cosb'. Diwygiwyd y rôl hon yn 1992 o ganlyniad i heriau cyfreithiol ac argymhellion Adroddiad Woolf.
66 Y rhesymau pam fod gwahaniaethu yn anghyfreithlon. Gweler: http://www.equalityhumanrights.com/private-and-public-sector-guidance/public-sector-providers/public-sector-equality-duty/what-equality-duty (agorwyd 14/10/15).
67 UK Parliament, Written Question No. 218558 18/12/2014.

yn mynychu'r cyfarfodydd amlddisgyblaethol ffurfiol i adolygu gwahanu parhaus. Mewn rhai carchardai, mae staff iechyd meddwl yn arwain o ran y rôl hon, sy'n arfer da oherwydd effaith negyddol posibl gwahanu ar iechyd meddwl a'r gyfran uchel o garcharorion â phroblemau iechyd meddwl sy'n cael eu cadw mewn unedau arwahanu. Mae un aelod o'r NPM wedi arsylwi ymgysylltu o ansawdd da gan staff iechyd, ond yn aml dim ond wrth ddrws y gell ynghyd â nifer o swyddogion eraill y mae staff iechyd yn bresennol, heb fawr o gyfle i drafod materion yn gyfrinachol.

Yn yr Alban, mae carcharorion yn yr unedau gwahanu ac ailintegreiddio fel arfer yn cael eu gweld bob dydd gan staff gofal iechyd a gallant ofyn am ymweliadau yn ôl y gofyn. Mae nifer llai o garcharorion - y rhai sy'n cael eu cadw am gyfnodau estynedig fel arfer - yn cael eu hasesu gan seicolegydd neu seiciatrydd.

Ystyriodd aelodau'r NPM a oedd llywodraethu gwahanu yn caniatáu i garchardai nodi unrhyw gynrychiolaeth anghymesur gan grwpiau penodol o garcharorion. Nid yw data sy'n cofnodi nifer y carcharorion â nodweddion a warchodir[66] sy'n cael eu cadw mewn unedau arwahanu yn cael eu cadw'n ganolog.[67]Mewn un carchar, nododd arolygwyr fod gorgynrychiolaeth anghymesur o garcharorion duon ac o leiafrifoedd ethnig a charcharorion sy'n oedolion ifanc yn yr uned wahanu. Er bod rheolwyr y system CSC yn ymwybodol o'r nifer anghymesur o uchel o garcharorion duon ac o leiafrifoedd ethnig a Mwslimaidd a gedwid, nid oeddent yn deall y rhesymau dros hyn.

Er bod ynysu ffurfiol yn ddarostyngedig i nifer o fesurau diogelwch sy'n cymryd ei effaith ar garcharorion a'r angen am oruchwylio i ystyriaeth, anaml y mae'r ynysu 'anffurfiol' a chaethiwed i rywun ar ei ben ei hun sy'n deillio o gyfundrefnau cyfyngedig yn destun gweithdrefnau tebyg. Nododd aelodau'r NPM fod yr awdurdodiad i osod carcharor ar drefn 'sylfaenol', a arweiniodd mewn rhai achosion at ynysu sylweddol a hyd yn oed garcharu rhywun ar ei ben ei hun, ar lefel is na'r hyn a gymhwyswyd at garcharorion sy'n cael eu rhoi mewn unedau arwahanu. Ar ben hynny, nid oedd unrhyw fesurau diogelu ar gyfer carcharorion oedd wedi eu nodi fel rhai oedd mewn perygl drwy'r broses ACCT. Mewn un carchar lle canfu'r arolygwyr ynysu anffurfiol ar adain, roedd staff y carchar wedi trafod a chytuno ar 'gompact' ar gyfer y trefniant gyda'r carcharor. Nid yw trefniadau gofal iechyd ffurfiol a gymhwysir mewn unedau arwahanu yng Nghymru a Lloegr yn bodoli ar gyfer ynysu anffurfiol ar yr adain, sy'n golygu nad yw'r carcharorion hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i asesu effaith arwahanu neu i gynnig cymorth iddynt. Mae'n bosibl na fydd carcharorion sydd wedi'u hynysu yn anffurfiol yn ymgysylltu â gofal iechyd gan eu bod yn dibynnu ar staff yn eu tywys i'r adran honno, a allai arwain at anghenion iechyd nad ydynt yn cael eu diwallu.

### Ailintegreiddio

Mae llawer o garcharorion sydd wedi'u hynysu yn cael eu hailintegreiddio i mewn i'r prif garchar, ac mae rhai yn cael eu trosglwyddo allan, neu eu hanfon o unedau ynysu ffurfiol i unedau gofal iechyd neu ysbytai. Yn yr Alban, mae cynlluniau rheoli fel arfer yn cael eu paratoi ar gyfer carcharorion a gedwir ar wahân am gyfnodau hir, ond gwelwyd bod y rhain o ansawdd amrywiol. Yng Nghymru a Lloegr, cynlluniau *ad hoc* yn unig oedd gan nifer o garchardai ar gyfer ailintegreiddio, neu nid oedd y rhain wedi eu hysgrifennu i lawr. Nododd un aelod NPM nad oedd unrhyw gynlluniau neu gymorth i sicrhau y gallai carcharorion oedd yn ynysu eu hunain ailintegreiddio i mewn i gyfundrefn y carchar.

## Casgliad

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr adolygiad hwn yn tynnu sylw at nifer o bryderon am yr arferion ynghylch carcharu pobl ar eu pen eu hunain a'u hynysu mewn carchardai.

Mae aelodau'r NPM wedi nodi amrywiaeth eang yn yr amodau yn y cyfleusterau dynodedig lle mae carcharorion yn cael eu hynysu yn ffurfiol. Mae'r gyfundrefn y gall carcharorion gael mynediad ati yn amrywio'n eang o garchar i garchar hefyd, ac mae aelodau'r NPM wedi nodi nifer o sefyllfaoedd lle mae mynediad hyd yn oed at gyfundrefn isafol yn anghyson a /neu wedi cael ei heffeithio'n andwyol gan lefelau staffio.

Mae nifer yr achosion lle mae carcharorion yn cael eu hynysu yn anffurfiol, ac mewn nifer o achosion mewn amodau sy'n gyfystyr â charchariad ar eu pen eu hunain, dros gyfnodau hir o amser yn peri pryder mawr. Nid yw llywodraethu'r cyfundrefnau sylfaenol neu garcharorion di-waith yn darparu mesurau i ddiogelu rhag effaith ynysu neu garcharu rhywun ar ei ben ei hun, a gallai diffyg adolygiadau gofal iechyd penodol adael carcharorion mewn perygl. Mae angen rhoi mwy o sylw i'r graddau y mae carcharorion yn cael eu hynysu a hyd yn oed eu carcharu ar eu pen eu hunain o ganlyniad i gyfundrefnau cyfyngedig a phrinder staff.

Er bod y syniad y dylid cael gweithdrefnau ffurfiol i sicrhau nad yw carcharorion sydd wedi'u gwahanu yn cael niwed o ganlyniad i ynysu, ac i sicrhau adolygiadau priodol, yn rhan hanfodol o brosesau carchar, dywedodd holl aelodau'r NPM fod ganddynt bryderon gyda'u gweithredu. Mae aelodau'r NPM wedi mynegi pryderon yn aml ynghylch nifer y carcharorion sy'n agored i niwed sy'n cael eu gwahanu yn ffurfiol, ac mae nifer y marwolaethau sydd wedi digwydd mewn unedau arwahanu yn ein hatgoffa o'r peryglon difrifol. Roedd goruchwylio ar lefel rheoli i sicrhau bod arwahanu yn cael ei fonitro, a ddylai lywio ymdrechion i sicrhau defnydd priodol o arwahanu ac ymdrin ag unrhyw gynrychiolaeth anghymesur o garcharorion du a lleiafrifoedd ethnig a Mwslimaidd ymhlith materion eraill, yn amrywio hefyd.

Roedd yn drawiadol canfod bod cynllunio ailintegreiddio ar gyfer carcharorion wedi'u hynysu yn *ad hoc* ar y gorau yn yr enghreifftiau a adolygwyd gan aelodau'r NPM.

Bydd aelodau'r NPM yn parhau i graffu ar yr arferion hyn, a bydd gwaith thematig pellach i archwilio arferion arwahanu yn yr Alban.

## Plant mewn lleoedd cadw

Mae aelodau'r NPM sy'n monitro mannau cadw lle mae plant yn cael eu cadw yn craffu ar arferion ynysu fel rhan o'u pwerau monitro presennol, gan adrodd ynghylch eu canfyddiadau a chodi pryderon a gwneud argymhellion yn eu hadroddiadau.

---

68 United Nations Committee against Torture, *Consideration of the Reports submitted by States Parties under article 19 of the Convention, Concluding observations of the Committee against Torture, Macao Special Administrative Region*, CAT/C/MAC/CO/4, para. 8; UN Subcommittee on Prevention of Torture, *Report on the SPT visit to the Republic of Paraguay*, CAT/OP/PRY/1, para. 185; UN Committee on the Rights of the Child, *Consideration of reports submitted by States Parties under Art. 44 of the Convention, Concluding observations of the Committee, Denmark*, CRC/C/15/Add.151, para. 41; ac UN Committee on the Rights of the Child, *Consideration of reports submitted by States Parties under Art. 44 of the Convention, Concluding observations of the Committee, El Salvador*, CRC/C/15/Add.232, para. 36 (a); United Nations General Assembly, Report of the Special Rapporteur on Torture, A/66/268, 5 August 2011, para77.

69 The Lord Carlile of Berriew QC, *An independent inquiry into the use of physical restraint, solitary confinement and forcible strip searching of children in prisons, STCs and local authority SCHs*, (2006) The Howard League for Penal Reform.

70 The Young Offender Institution Rules 2000, yn: http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/3371/contents/made; HM Prison Service Prison Service Instruction 1700 *Segregation, Special Accommodation and Body Belts* yn http://www.justice.gov.uk/downloads/offenders/psipso/psi-17-2006.doc (accessed 14/10/15).

Gall CCE ymweld ag unrhyw leoliad lle mae plentyn yn cael ei letya neu'n derbyn gofal, ac eithrio annedd preifat. Ystyriodd ei gasgliadau o saith ymweliad i stad ddiogel cyfiawnder ieuenctid yn 2013-14 (ei cyfnod adrodd cyflawn olaf).

Mae Ofsted yn cynnal ymweliadau arolygu/rheoleiddio mewn cartrefi plant diogel (SCH) ac arolygiadau o ganolfannau hyfforddi diogel (STC) (gyda CQC ac Arolygiaeth Carchardai EM). Lluniodd gasgliadau o sampl o 10 o adroddiadau arolygu SCH a phedwar adroddiad arolygu STC, yn ogystal â'r adborth o bedwar cyfweliad lled-strwythuredig gydag arolygwyr.

Bwydodd AGGCC ei gasgliadau o arolygiad cartref plant preswyl diogel i mewn i'r gwaith hwn.

Mae Arolygiaeth Carchardai EM yn arolygu sefydliadau troseddwyr ifanc (STI) a Chanolfannau Hyfforddi Diogel (yr olaf gydag Ofsted). Cafodd casgliadau o arolygiadau o un Sefydliad Troseddwyr Ifanc ac un STC eu cynnwys yn yr adolygiad hwn.

## Cefndir

Mae cyrff hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig yn ystyried carcharu plant ar eu pen eu hunain, am unrhyw hyd, yn driniaeth greulon, annynol neu ddiraddiol ac maent yn argymell yn gyson na ddylai plant fod yn ddarostyngedig iddo.[68] Yn 2006, argymhellodd ymchwiliad annibynnol dan arweiniad yr Arglwydd Carlile na ddylai carcharu plant ar eu pen eu hunain fyth gael ei ddefnyddio fel cosb.[69]

## Lle mae carcharu pobl ar eu pen eu hunain ac ynysu yn digwydd

Mae gwahanu ffurfiol mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn Lloegr yn cael ei reoli gan Reolau'r Sefydliad Troseddwyr Ifanc a gorchymyn y Gwasanaeth Carchar (PSO) 1700.[70] Mae'r rhain yn nodi'r posibilrwydd y gallai plentyn gael ei atal rhag cymdeithasu ag eraill ar gyfer 'trefn a disgyblaeth dda' (GOOD) neu 'er ei fudd ei hun' (Rheol 49 YOI). Dylai hyn barhau am ddim mwy na thri diwrnod, oni bai yr awdurdodir hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol am hyd at 14 diwrnod, y gellir ei adnewyddu. Gall plant gael eu cyfyngu dros dro hefyd am ymddygiad anhydrin neu dreisgar am hyd at 24 awr mewn cell neu ystafell arbennig (Rheol 51 YOI). Mae Rheolau Sefydliad Troseddwyr Ifanc yn gwahardd llywodraethwyr rhag gosod caethiwed mewn cell fel cosb (Rheol STI 60 (1) (f))[71]. Mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, byddai plant yn cael eu cadw mewn 'uned gofal a gwahanu' ddynodedig, ond gallent hefyd gael eu hynysu yn eu hystafelloedd os ydynt ar gyfundrefn sylfaenol neu 'golledion'.

Mae Rheolau Canolfannau Hyfforddi Diogel[72] a rheoliadau sy'n ymwneud â chartrefi plant[73] yn llywodraethu arferion ynysu mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant yng Nghymru a Lloegr. Mae gan rai sefydliadau unigol eu polisïau eu hunain, a all ei gwneud yn ofynnol i gofnodi achosion o ynysu yn fwy manwl, a allai beidio â chael eu cofnodi mewn sefydliadau eraill.

Mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant canfu aelodau'r NPM ynysu ffurfiol ac anffurfiol sy'n digwydd yng

**71** Gweler hefyd: Prison Service Order 0101, *The Young Offenders Institution (Amendment) Rules 2000.*
**72** *The Secure Training Centre Rules 1998*, yn: www.legislation.gov.uk/uksi/1998/472/contents/made (agorwyd 14/10/15).
**73** *The Children's Homes (England) Regulations 2015*, yn: www.legislation.gov.uk/uksi/2015/541/contents/made; *The Children (Secure Accommodation) Regulations 1991*, yn: www.legislation.gov.uk/uksi/1991/1505/regulation/6/made (agorwyd 14/10/15).
**74** Gweler: http://www.securechildrenshomes.org.uk/secure-accommodation-network/ (agorwyd 14/10/15).
**75** Department for Education (2015), *Guide to the children's homes regulations, including the quality standards*, paragraph 9.42.

nghelloedd / ystafelloedd y plant eu hunain neu mewn ardaloedd eraill, gan gynnwys coridorau, ystafelloedd addysg ac unedau gofal iechyd. Mae arferion ynysu mewn Cartrefi Diogel i Blant fel arfer yn cael eu diffinio fel rhai detholedig, rhai a orchmynnir neu sy'n cael eu gorfodi, gan ddilyn canllawiau a ddatblygwyd gan y rhwydwaith llety diogel.[74]. Defnyddir gwahanu wedi ei orchymyn a'i orfodi fel rhan o dechnegau rheoli ymddygiad ac i atal niwed i'r plentyn neu un arall, neu i atal difrod sylweddol. Mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel, roedd ynysu yn aml yn digwydd o ganlyniad i ataliad. Mae rheoliadau cartrefi plant a weithredwyd yn ddiweddar a safonau ansawdd cysylltiedig wedi ei gwneud yn glir bod cyfyngu pellach ar ryddid mewn cartrefi plant diogel yn gyfystyr ag ataliad.[75]

## Materion penodol a nodwyd drwy fonitro

### Terminoleg

Roedd ynysu a /neu garcharu person ar ei ben ei hun yn un o brif nodweddion neu yn nodwedd ddiffiniol o'r arferion a'r 'statysau' canlynol:

- Sefydliadau Troseddwyr Ifanc: gwahanu, gofal a gwahanu, di-waith aflonyddgar, datgloi sengl, colli cymdeithas, 'colledion', sylfaenol am drais, sylfaenol (trefn), ailintegreiddio a chefnogaeth;
- Canolfannau Hyfforddi Diogel: gwahanu sengl, amser allan, amser i ffwrdd, colli cymdeithas;
- Cartrefi Diogel i Blant: gwahanu grwp (lle mae plentyn wedi'i wahanu oddi wrth weddill y grwp, ond mae'n parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau un-i-un gyda staff), rheoli risg.

### Hyd yr ynysu: arferion ffurfiol ac anffurfiol

Mae'r rhan fwyaf o achosion o ynysu ffurfiol mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant yn fyr (llai nag awr), er bod aelodau'r NPM wedi canfod arferion anffurfiol, lle mae plant yn cael eu hynysu oddi wrth eu cyfoedion ond yn cael rhywfaint o gysylltiad cyfyngedig gyda staff, oedd yn para am sawl diwrnod.

Mewn un Sefydliad Troseddwyr Ifanc, cyfnod cyfartalog yr arwahanu ffurfiol oedd naw diwrnod, gyda'r byrraf a gofnodwyd yn para un diwrnod a'r hwyaf yn para 60 diwrnod. Nododd aelodau'r NPM arferion oedd yn gyfystyr â chaethiwo rhywun ar ei ben ei hun y tu allan i gyfleusterau ynysu ffurfiol. Mewn llawer o achosion, roedd ynysu y tu allan i'r uned gofal a gwahanu ffurfiol yn para am fwy na 22 awr y dydd, a gallai barhau am nifer o wythnosau.

**Astudiaeth achos: 'di-waith aflonyddgar '**

Mewn un YOI, nododd archwiliad gan aelod o'r NPM fod bechgyn yn cael eu cadw mewn amodau oedd yn gyfystyr â chadw pobl ar eu pen eu hunain o dan gyfundrefn anffurfiol a elwir yn 'ddiwaith aflonyddgar'. O ganlyniad i ymddygiad aflonyddgar, roedd bechgyn yn cael eu hynysu yn eu celloedd, mewn llawer o achosion am dros 22 awr y dydd. Nid oedd unrhyw lywodraethu ffurfiol ar yr ymarfer, ac er bod cyfarfod adolygu wythnosol yn ystyried y bechgyn, roedd hyn drwy ddisgrifiad llafar gan staff yr adain yn unig, heb unrhyw asesiad gwrthrychol. Roedd y diffyg llywodraethu yn ei gwneud yn anodd nodi pa mor hir yr oedd rhai bechgyn yn cael eu cadw o dan y gyfundrefn hon, ond roedd yn amlwg y

76 HM Inspectorate of Prisons (2014), *Report on an announced inspection of HMPYOI Feltham (children and young people) Guys Marsh, by HM Chief Inspector of Prisons, 11-15 August 2014*; HM Inspectorate of Prisons 2014, *Report on an announced inspection of HMPYOI Cookham Wood by HM Chief Inspector of Prisons, 9-20 June 2014*; HM Inspectorate of Prisons 2013, *Report on an announced inspection of HMYOI Warren Hill by HM Chief Inspector of Prisons, 5-8 March 2013*; HM Inspectorate of Prisons (2015), *Report on an unannounced inspection of HMYOI Werrington by HM Chief Inspector of Prisons 1-12 September 2014.*

gallai'n aml bara nifer o wythnosau. Mewn rhai achosion, os oedd y risg canfyddedig wedi gostwng, byddai bechgyn yn dychwelyd i'r drefn arferol. Mewn achosion eraill, efallai y byddent yn cael eu trosglwyddo allan o'r sefydliad.

## Amodau a chyfundrefn

Roedd yr amodau yr oedd y plant yn cael eu hynysu oddi tanynt yn amrywio'n sylweddol. Yn yr YOI a gynhwysir yn yr adolygiad hwn, roedd bechgyn a gedwid mewn uned wahanu a gofal mewn amgylchedd gwael, gyda threfn annigonol. Er bod rhai gwelliannau wedi'u gwneud, roedd yr iardiau ymarfer yn foel a llwm, ac nid oedd llawer o dystiolaeth o unrhyw weithgareddau adeiladol. Roedd rhai bechgyn wedi cael caniatâd i ymarfer gyda'i gilydd, ond dywedodd pob un o'r bechgyn y siaradodd yr aelod NPM gyda nhw eu bod yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser dan glo yn eu celloedd.

Mae Unedau Gwahanu mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn adenydd bach o gelloedd i un person yn unig, sy'n aml yn cynnwys dodrefn sefydlog. Mae'r drefn ar gyfer plant yn yr unedau hyn yn sylfaenol ac, er bod rhai yn cael mynediad at setiau teledu, nid oes llawer o ysgogiad gweledol ac mae amser allan o'r gell i'r rhan fwyaf yn cael ei gyfyngu i lai nag awr y dydd. Y tu allan i'r adolygiad hwn, mae aelodau'r NPM yn aml wedi beirniadu'r amodau mewn unedau gwahanu pwrpasol mewn rhai Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, ac wedi canfod celloedd budr wedi'u gorchuddio gyda graffiti, celloedd gyda awyru gwael, toiledau budr, iardiau ymarfer corff moel, a mynediad cyfyngedig at gawodydd, ymarfer corff, addysg a galwadau ffôn. Mewn nifer o achosion, mae bechgyn wedi dweud eu bod yn ddiflas neu yn unig, ac yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn cysgu neu'n darllen. Mae perthynas dda rhwng y staff a'r bechgyn, a chafodd ymweliadau mynych gan gaplaniaid ac eiriolwyr eu nodi mewn rhai unedau. Mae aelodau'r NPM wedi gweld achosion cadarnhaol lle roedd trefn gyson yn golygu bod bechgyn yn gwybod y byddent bob amser yn cael yr amser allan o'r gell a gweithgareddau y dywedwyd wrthynt y byddent yn eu cael.[76]

Ar gyfer bechgyn a oedd yn cael eu hynysu'n anffurfiol yn eu celloedd, roedd amodau yn amrywio hefyd. Roedd rhai celloedd yn fudr ac nid oedd ganddynt gypyrddau na silffoedd, ac nid oedd pob toiled yn cael ei sgrinio'n ddigonol. Oherwydd, yn y rhan fwyaf o sefydliadau, nad oedd unrhyw weithdrefnau ar gyfer monitro neu lywio achosion o'r fath, roedd hyd yr ynysu, amser allan o'r gell, mynediad i, ac ailintegreiddio i, drefn arferol yn dibynnu ar ddisgresiwn staff unigol.

Nid oes gan Ganolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant gyfleusterau pwrpasol ar gyfer ynysu plant, felly nid yw amodau sylfaenol yn wahanol os yw plentyn yn cael ei ynysu. O ganlyniad, roedd yr amodau ar gyfer plant wedi'u hynysu mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant ar y cyfan yn llawer gwell nag ar gyfer bechgyn mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc. Ond mewn rhai achosion roedd plant oedd wedi'u hynysu yn eu hystafelloedd arferol mewn Cartrefi Diogel i Blant yn cael eu heiddo wedi'i dynnu oddi arnynt a chyfleusterau'r ystafell ymolchi wedi'u cloi i ffwrdd. Mewn rhai achosion, roedd yn ofynnol i blant wedi'u hynysu wisgo dillad na ellid eu rhwygo.

Roedd amrywiaeth o ran y graddau yr oedd ynysu mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant yn effeithio ar fynediad plant at addysg. Mewn rhai achosion, nid oedd plant yn gallu cael mynediad at addysg am gyfnodau byr, ond mewn achosion eraill, roedd trefniadau i sicrhau cymaint o addysg â phosibl

o fewn cyfyngiadau'r ynysu. Mewn un achos, roedd addysg arferol yn cael ei ddisodli gan daflenni gwaith o ansawdd gwael, nad oedd yn rhoi unrhyw fewnbwn addysgol ystyrlon, ac mewn eraill, nid oedd gan y plant unrhyw gyswllt wyneb-yn-wyneb gyda staff addysg yn ystod cyfnodau o ynysu.

Roedd un STC oedd yn defnyddio ystafell benodol ar gyfer ynysu yn sicrhau ei bod yn gyfforddus ac yn llawn offer. Roedd y rhyngweithio â staff yn sylweddol ac roedd cyswllt â phlant eraill yn cael ei hyrwyddo, cyn belled ag y byddai diogelwch a phryderon eraill yn caniatáu. Gwnaed ymdrechion i sicrhau cymaint o fynediad at addysg ag y bo modd, ac roedd plant yn cael caniatâd i ddychwelyd i'w hystafelloedd arferol i gysgu yn y nos.

**Arfer da mewn un YOI**

Roedd uned arbenigol mewn un YOI wedi cymryd camau i sicrhau bod y plant i gyd wedi'u hintegreiddio'n dda ac yn cael eu cadw'n brysur yn ystod y diwrnod craidd. Roedd cynadledda achos rhagorol yn sicrhau bod hyd yn oed y bechgyn tawelaf yn cael eu hannog i gymdeithasu a chymryd rhan yn y gyfundrefn brysur ac yn wir byddai hyn yn cael ei ddisgwyl. Roedd yr ymdrechion hyn yn allweddol oherwydd nad oedd neb wedi cael eu rhoi yn yr uned wahanu am rai misoedd. Roedd nifer fach iawn o fechgyn wedi cael eu harwahanu ar brif safle'r YOI.

## Gweithdrefnau a llywodraethu

Mae gweithdrefnau a sefydlwyd o dan PSO 1700 yn berthnasol i blant mewn YOIs fel y maent i oedolion. Mae'r rhain yn cynnwys y gofyniad am ymweliadau rheolaidd ac asesiadau gan y meddyg a'r staff gofal iechyd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw reswm pam y dylai carcharorion gael eu tynnu oddi ar uned wahanu ar sail iechyd corfforol neu feddyliol. Rhaid i sgrin diogelwch arwahanu cychwynnol gael ei gwblhau o fewn dwy awr i blentyn gael ei arwahanu. Mae rôl yr IMB, a ddylai gael gwybod am benderfyniadau i wahanu ac a ddylai allu mynychu cynadleddau achos ac adolygiadau i fynegi barn, hefyd yn berthnasol yn yr un modd.

Er bod un aelod NPM wedi nodi gwelliant cyffredinol yng nghysondeb y gwaith o wneud penderfyniadau, a chofnodi a monitro'r defnydd o wahanu mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae nifer o bryderon yn dal i fodoli. Roedd angen gwelliannau wrth gofnodi arwahanu sengl mewn dau allan o 10 o Gartrefi Diogel i Blant, a gwelliant o ran monitro a chofnodi gwahanu unigol mewn tair allan o bedair Canolfan Hyfforddi Diogel. Mewn un STC, nid oedd arolygwyr yn sicr fod pob achos o wahanu unigol yn cael ei gofnodi, ond ystyrid bod goruchwyliaeth gan reolwyr o achosion a gofnodwyd yn ddigonol. Yn yr YOI yn yr adolygiad hwn, ystyriodd yr aelod NPM bod arwahanu yn cael ei ddefnyddio fel dewis olaf a bod pob achos a adolygwyd wedi cael ei awdurdodi'n briodol. Nodwyd hefyd bod yr YOI wedi peidio i symud bechgyn o'u hunedau preswyl fel cosb.

P'un a ydynt wedi'u gorchymyn, eu dewis neu eu gorfodi, mae angen i'r holl arferion ynghylch ynysu fod yn destun gweithdrefnau llywodraethu, goruchwylio a monitro. Yn ymarferol, fodd bynnag, mae achosion o wahanu detholedig yn llai tebygol o gael eu hadrodd. Lle roedd ynysu a charcharu rhywun ar ei ben ei hun yn digwydd y tu allan i gyfleusterau gwahanu penodol, roedd aelodau'r NPM yn bryderus ynghylch absenoldeb gweithdrefnau neu oruchwyliaeth ffurfiol. Mewn un STC, roedd rhai staff yn ystyried 'amser allan' fel math o gosb, yn hytrach na gweithdrefn y gallai pobl ifanc

ddewis ei dilyn pan oeddent am gael peth amser preifat ar eu pen eu hunain. Roedd dros chwarter y bechgyn mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a arolygwyd gan un aelod NPM wedi treulio noson mewn uned arwahanu.

### Ailintegreiddio

Mewn rhai Cartrefi Diogel i Blant, nododd aelodau'r NPM ail-integreiddio graddol o ynysu, gan ddefnyddio'r lle byw y tu allan i ystafelloedd gwely at y diben hwn. Mewn un arall, roedd 'dull adferol' yn cael ei ddefnyddio, gyda phob plentyn yn cwblhau adroddiad ar ôl cael ei ynysu i edrych ar yr hyn a ddigwyddodd a'r effaith a gafodd hyn arnyn nhw eu hunain ac ar eraill. Canfu aelod o'r NPM mewn nifer o Gartrefi Diogel i Blant nad oedd rhai plant yn gwybod sut i ddychwelyd i leoliad neu gyfundrefn arferol.

Mewn un YOI, roedd bechgyn oedd yn cwblhau eu hamser mewn uned arwahanu naill ai yn cael eu dychwelyd i'r adain arferol neu yn cael eu trosglwyddo allan o'r carchar. Mewn rhai achosion, gallai bechgyn gael eu rhyddhau o'r ddalfa yn uniongyrchol o uned wahanu. Barnwyd bod y cynllunio ar gyfer ailintegreiddio yn *ad hoc* a heb bolisïau ffurfiol.

Roedd arfer da mewn Cartrefi Diogel i Blant yn cynnwys ôl-drafod a myfyrio effeithiol gan y staff a'r plant. Arweiniai hyn, ochr yn ochr â mwy o bwyslais ar dawelu, at ostyngiad yn amlder y digwyddiadau a gwell ymddygiad gan y bobl ifanc.

### Casgliad

Mae'r adolygiad hwn yn dangos bod mwy i'w wneud o hyd i osgoi defnyddio ynysu. Er bod aelodau'r NPM wedi nodi defnydd priodol o gyfnodau byr o ynysu ffurfiol mewn rhai Cartrefi Diogel i Blant a STCs, a defnydd wedi'i awdurdodi a'i gyfiawnhau o ynysu ffurfiol yn yr un YOI a adolygwyd, mae tystiolaeth yn dangos hefyd nifer oedd yn peri pryder o achosion lle nad yw unigedd yn destun llywodraethu ffurfiol. Mewn rhai achosion, mae plant yn cael eu cadw am gyfnodau hir mewn amodau sy'n gyfystyr â'u carcharu ar eu pen eu hunain. Mae yna amrywiaeth eang yn yr amodau a'r drefn ar gyfer plant sy'n cael eu hynysu ar draws gwahanol fathau o gyfleusterau cadw, a allai arwain at blant ag anghenion ac ymddygiad tebyg yn cael eu trin mewn ffyrdd gwahanol iawn.

Gan nad yw plant wedi datblygu'n llawn yn wybyddol, yn feddyliol nac yn emosiynol, ni all y posibilrwydd y gallai eu hynysu neu eu carcharu ar eu pen eu hunain achosi niwed parhaol gael ei ddiystyru. Mae hyn yn darparu sail resymegol ar gyfer craffu trylwyr ar arferion sy'n gyfystyr â charcharu pobl ar eu pen eu hunain a'u hynysu gan aelodau'r NPM. Ni ddylai plant gael eu hynysu fel cosb, ac ni ddylid fyth eu cadw mewn amodau sy'n gyfystyr â'u carcharu ar eu pen eu hunain.

Nododd yr adolygiad ddefnydd priodol o gyfnodau byr o ynysu mewn rhai Cartrefi Diogel i Blant a Chanolfannau Hyfforddi Diogel a llywodraethu priodol ar arwahanu ffurfiol mewn rhai Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, ond hefyd rai arferion anffurfiol annerbyniol sy'n ynysu ac, mewn llawer o achosion, sy'n arwain at garcharu plant ar eu pen eu hunain.

Mae gan y gwaith o oruchwylio a chraffu ar blant yn y ddalfa haenau lluosog. Mae aelodau'r NPM (gan gynnwys IMBs) yn chwarae rhan, ond mae gofynion adrodd eraill ar gyfer

77 Mae'r Arolygiaeth Gofal wedi dechrau monitro yn 2015.
78 Mental Welfare Commission for Scotland (2014), *Good practice guide, the use of seclusion*. Yn: http://www.mwcscot.org.uk/media/191573/final_use_of_seclusion.pdf (agorwyd 14/10/15).

yr awdurdodau sy'n cadw plant (i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru a Lloegr, drwy fonitoriaid YJB er enghraifft) a ddylai sicrhau bod arferion ynysu yn cael eu monitro, a bod arferion amhriodol neu anffurfiol yn cael eu stopio. Nid yw'n glir a fyddai gweithdrefnau ar gyfer digwyddiadau critigol yn cael eu galw i rym gan gyfnodau hir o ynysu. Gallai Byrddau Lleol Diogelu Plant ddarparu craffu allanol lle mae ynysu yn mynd ymlaen am gyfnodau hir neu lle mae'n anffurfiol, fel maent yn ei wneud ar hyn o bryd mewn perthynas â materion diogelu eraill mewn carchardai (megis y defnydd o rym neu gwynion).

### Lleoedd cadw iechyd a gofal cymdeithasol

Fe wnaeth aelodau'r NPM oedd yn monitro lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol archwilio arferion ynysu mewn wardiau iechyd meddwl oedolion a wardiau ysbytai anabledd deallusol. Cyfrannwyd tystiolaeth gan MWCS, CSSIW, HIW a CQC.[77]

Gall MWCS adolygu'r holl gofnodion o achosion arwahanu a pholisïau a gweithdrefnau, ac mae ganddo ei ganllawiau ei hun i staff ar y defnydd o arwahanu.[78]

Mae AGGCC yn adolygu detholiad ar hap o ffeiliau ar archwiliadau blynyddol o gartrefi gofal, gan edrych ar yr holl ddigwyddiadau a ddigwyddodd yn y 12 mis blaenorol ar gyfer pob ffeil, gan gynnwys ynysu. Efallai y bydd AGGCC hefyd yn dod yn ymwybodol o ynysu sy'n digwydd mewn cwynion am faterion eraill, neu mewn perthynas â cheisiadau am amddiffyn rhag amddifadu o ryddid o dan ei bwerau rheoleiddio.

Mae AGIC yn adolygu ystafelloedd arwahanu fel rhan o arolygiadau rheoleiddiol mewn ysbytai annibynnol ac yn edrych ar ystafelloedd arwahanu fel rhan o ymweliadau arolygu â gwasanaethau'r GIG.

Mae CQC yn edrych ar arferion ynysu ar ymweliadau a gynhelir o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac fel rhan o'i arolygiadau rheoleiddio. Mae wedi ymgymryd ag ymweliadau monitro gyda ffocws penodol ar ynysu, a gall hefyd ymchwilio i a derbyn cwynion sy'n gysylltiedig â'r arferion hyn.

#### Cefndir

Nid yw lleoedd cadw mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn gosbol o ran natur, felly ni ddylai arferion o fewn lleoedd cadw megis ynysu fod â diben sy'n ymwneud â chosb. Ni ddylid defnyddio ynysu fel cosb, bygythiad nac offeryn gweithredol i addasu ymddygiad, nac fel dull o reoli ymddygiad hunan-niweidio yn unig, ond yn hytrach fel mesur adweithiol, a ddefnyddir fel dewis olaf i gynnwys ymddygiad sy'n wirioneddol beryglus. Gellir ei gyfiawnhau dim ond cyhyd ag y bo ei angen i gynnwys ymddygiad o'r fath.

**79** Mae ynysu yn cyfeirio at garcharu claf ar ei ben ei hun a'i ynysu dan oruchwyliaeth, i ffwrdd oddi wrth gleifion eraill, mewn ardal y mae'r claf yn cael ei atal rhag ei gadael, lle mae'n angenrheidiol ar unwaith er mwyn cyfyngu aflonyddwch ymddygiadol difrifol sy'n debygol o achosi niwed i eraill. Mae gwahanu tymor hir yn cyfeirio at sefyllfa lle, er mwyn lleihau'r risg barhaus o niwed a berir gan y claf i bobl eraill, sy'n nodwedd gyson o'u hymddygiad, mae adolygiad aml-ddisgyblaethol a chynrychiolydd o'r awdurdod comisiynu cyfrifol yn penderfynu na ddylid gadael i glaf gael yr hawl i gymysgu'n rhydd gyda chleifion eraill ar y ward neu uned ar sail tymor hir. Mewn rhai achosion, gallai LTS fod yn gyfystyr â chadw'r claf ar ei ben ei hun. Cyflwynwyd LTS i God Ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl (Adran Iechyd) 2008 a 2015 ers dyfarniad 2005 *Regina yn erbyn Awdurdod Ysbyty Ashworth (Mersey Care National Health Service Trust erbyn hyn) ex parte Munjaz [2005]* UKHL 58.

**80** Department of Health (2015), *Mental Health Act 1983: Code of Practice*. Llundain, Y Llyfrfa.

**81** National Health Service England (2013), *The High Security Psychiatric Services (Arrangements for Safety and Security) Directions 2013*.

**82** Gweler Department of Health (2015), *op. cit.*, para 26.105.

### Lle mae carcharu pobl ar eu pen eu hunain ac ynysu yn digwydd

**Astudiaeth achos: ynysu ar ward**
Mewn un achos roedd claf wedi cael ei gadw mewn man dan glo mewn ward ddiogel ar sail barhaus ers dros bum mlynedd. Roedd yr ysbyty'n diffinio'r arfer hwn fel 'ysgogiad isel'. Er bod y claf wedi'i ynysu, roedd ymdrechion wedi eu gwneud i sicrhau cyswllt rheolaidd â staff a oedd yn gweini arno o ran ei ofal personol a'i brydau bwyd, ac a oedd yn ei annog i adael yr ardal ac ymuno â chleifion eraill ar y ward. Roedd yr aelod o'r NPM yn fodlon fod y claf yn gallu gwneud hyn pan fyddai'n gofyn, a nododd fod ei achos yn destun adolygiad rheolaidd gan dimau amlddisgyblaethol ac asesiadau risg rheolaidd. Roedd natur y person a'r sefyllfa a'r goruchwylio yn golygu y bernid bod yr arwahanu yn briodol ac ystyrid ei fod yn cael ei ddefnyddio fel dewis olaf.

Mae ynysu mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn fwy adnabyddus fel 'arwahanu'. Yn eu monitro, canfu aelodau'r NPM garcharorion wedi'u hynysu mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn ffurfiol ac yn anffurfiol.

Yn Lloegr, mae dau gategori penodol yn cael eu cydnabod: 'arwahanu' ac 'arwahanu hirdymor' (LTS).[79] Mae ysbytai diogel yn yr Alban yn defnyddio 'ystafelloedd arwahanu', sydd fel arfer yn cael eu monitro drwy ffenestr. Caniateir i gleifion fynd allan o'r ystafell fel arfer ar gyfer gofal personol, defnyddio'r toiled, ac ymarfer lle bo hynny'n briodol.

Mewn rhai lleoliadau, rhoddir 'amser allan' i gleifion yn eu hystafelloedd pan fydd eu hymddygiad wedi gwaethygu. Mae hyn yn ei hanfod yn ynysu'r claf, ac mae'n fwy cyffredin mewn mannau lle nad oes ystafell arwahanu, neu fel cam cyn yr arwahanu ffurfiol.

Mae aelodau'r NPM hefyd yn dod ar draws achosion lle mae ardal yn cael ei neilltuo mewn ward fel ardal hunangynhwysol i glaf unigol.

Mae ynysu gwirfoddol neu ynysu 'ar gais y person ei hun' hefyd yn digwydd, fel ffordd o leihau ysgogiadau ar wardiau a allai ysgogi ymddygiad ymosodol. Rhaid i ynysu o'r fath gael ei adolygu'n rheolaidd hefyd.

Mewn cartrefi gofal, nododd aelodau'r NPM drigolion a oedd wedi eu hynysu o ganlyniad i fesurau anghymesur a gymerwyd i ymdrin â risgiau canfyddedig (er enghraifft, syrthio o'u cadair olwyn).

### Materion penodol a nodwyd drwy fonitro

#### Terminoleg
Roedd carcharu pobl ar eu pen euhunain a'u hynysu yn un o brif nodweddion neu nodwedd ddiffiniol yr arferion canlynol: arwahanu; arwahanu yn y tymor hir; ysgogiad isel; amser allan; ystafelloedd gofal dwys; ynysu therapiwtig; wardiau un person; arwahanu gorfodol.

#### Hyd ac amlder yr ynysu: arferion ffurfiol ac anffurfiol
Gall ynysu a ddiffinnir fel arwahanu barhau am sawl awr neu hyd yn oed ddyddiau. Lle mae arferion yn cael eu nodi fel LTS fel y diffinnir yng Nghod Ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl (MHA),[80] sy'n berthnasol yn Lloegr, bydd y rhain fel arfer yn bodloni diffiniad NPM o garcharu rhywun ar ei ben ei hun.

Mae un o aelodau'r NPM wedi mynegi pryder ynghylch ynysu arferol cleifion mewn ysbytai diogelwch uchel gan eu bod yn cael eu cloi yn eu hystafelloedd gwely yn y nos. Mae pwerau

penodol i wneud hyn wedi cael eu nodi mewn polisi.[81] Er y byddai'r arfer yn bodloni'r meini prawf ar gyfer arwahanu o dan God Ymarfer MHA, mae'r Adran Iechyd wedi datgan na ddylid ystyried arferion o'r fath felly, ac o'r herwydd nid ydynt yn ddarostyngedig i'r un gofynion adolygu.[82] Mynegwyd pryder gan yr aelod o'r NPM fod hyn mewn gwirionedd yn cyflwyno categori newydd o arwahanu.

## Amodau

Bwriedir i ystafelloedd arwahanu arbennig fod yn rhai 'ysgogiad isel', a allai olygu eu bod yn cynnwys dim ond gwely /matres, toiled a basn ymolchi, neu weithiau wely gyda mynediad ar wahân at doiled. Mae aelodau'r NPM wedi nodi llawer o achosion lle na fu unrhyw ymgais i wneud lleoedd ynysu yn fwy 'cartrefol', sy'n arbennig o bwysig lle mae ynysu yn digwydd yn y tymor hir.

Mae aelodau'r NPM wedi nodi sefyllfaoedd lle gwrthodir yr hawl i gleifion wisgo dillad arferol, a dim ond fel dewis olaf y dylid gwneud hyn. Canfu un aelod achosion lle roedd cleifion benywaidd yn cael eu harwahanu heb fynediad at gynhyrchion glanweithiol am resymau 'diogelwch'. Yn ystod nifer o ymweliadau nodwyd cleifion nad oeddent yn cael gweld cloc.

### Pryderon am amodau

Gwnaed sylwadau beirniadol am seilwaith gan un aelod o'r NPM mewn 52 allan o 126 o ymweliadau. Roedd y rhain yn cynnwys: diffyg preifatrwydd; diffyg awyru; ystafelloedd yn rhy boeth neu'n rhy oer; ystafelloedd budr; difrod heb ei atgyweirio; corneli miniog peryglus / sgriwiau mewn ffitiadau heb fod yn fflat; dodrefnu neu ddillad gwely annigonol; diffyg man galw. Mewn un achos, roedd claf benywaidd wedi cael ei harwahanu ar ward i ddynion oherwydd bod cyfleuster y ward fenywaidd eisoes yn cael ei ddefnyddio, ac mewn achos arall, roedd claf benywaidd wedi cael ei harwahanu heb ei dillad, ac yna wedi ei harsylwi gan staff gwrywaidd. Roedd arfer a feirniadwyd yn flaenorol o basio bwyd drwy agoriad mewn drws oedd yn wynebu ardal y toiled yn yr ystafell wahanu wedi ailymddangos.

## Gweithdrefnau a llywodraethu

Canfu un aelod o'r NPM fod cyfnodau parhaus o garcharu pobl ar eu pen eu hunain yn cael eu galw'n bethau gwahanol fel arwahanu neu LTS. Mae perygl y gallai awdurdodau cadw ailddiffinio cyfnodau estynedig o arwahanu fel LTS, i gyfiawnhau llacio rheoleidd-dra adolygiadau ffurfiol, er y gallai natur ragnodol gynyddol Cod Ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl beidio â chefnogi hyn.

Mewn sawl achos, gwnaed adolygiadau rheolaidd o ynysu gan dimau amlddisgyblaethol, ond mewn un achos lle roedd claf ag anableddau deallusol wedi ei wahanu oddi wrth brif boblogaeth y ward mewn cyfleuster tebyg i fflat yn barhaus am bythefnos, nid oedd cofnodion yn darparu tystiolaeth o unrhyw ymgynghoriad neu gytundeb gyda'r tîm amlddisgyblaethol ar gyfer hyn, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o 'gynllun gofal ar gyfer arferion cyfyngol' a allai fod wedi darparu sail resymegol dros yr ynysu.

Mewn tua un rhan o bump o'i ymweliadau, nododd un aelod o'r NPM bryderon ynghylch adolygu arwahanu, gan gynnwys llawer o achosion lle nad oedd adolygiadau meddygol ac eraill wedi digwydd mor aml ag sy'n ofynnol, a diffygion o ran cadw cofnodion.

**83** Department of Health (2015), *op. cit.*, paras 26.148, 26.167-171.

Mewn rhai achosion, cafwyd bod goruchwyliaeth fewnol ar arwahanu yn ddiffygiol. Mewn un ymweliad, ni welodd un aelod o'r NPM system gyffredinol i fonitro arwahanu, ac nid oedd y staff yn gallu dweud pryd y defnyddiwyd ef ddiwethaf. Mewn ymweliad arall, nid oedd grwp llywodraethu clinigol oedd yn gyfrifol am oruchwylio arwahanu ac LTS wedi trafod y mater am dros flwyddyn.

**Arfer da mewn ysbyty diogelwch isel**

Roedd claf oedd â hanes o ymosod treisgar yn cael ei gadw mewn ardal wedi'i harwahanu o ysbyty diogelwch isel gyda larwm oedd yn cael ei weithredu'n barhaol ar y drws, yn hytrach na'i gyfeirio ef i gyfleuster diogelwch canolig, a ystyrid yn fesur mwy cyfyngol. Gofynnwyd am gytundeb teulu'r claf ac fe'i cafwyd, ac roedd mesurau diogelu yn cynnwys adolygiad parhaus, cynllunio gofal, eiriolaeth annibynnol, a chyswllt rheolaidd gydag aelod yr NPM ynghylch unrhyw newidiadau pellach. Gofynnwyd i seiciatrydd ymgynghorol annibynnol a nyrs ymgynghorol o ysbyty diogelwch canolig mewn mannau eraill yn y DU adolygu'r cynllun triniaeth er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni anghenion a hawliau'r claf, ac fe wnaethant roi mesurau diogelu priodol ar waith. Roedd gan y claf fynediad at ymyriadau therapiwtig a gweithgarwch ac arsylwadau rheolaidd. Ar ôl gwelliant yn ymddygiad y claf, hwylusodd y staff nyrsio ei gysylltiad â chleifion eraill, o dan oruchwyliaeth agos.

## Cyfreithlondeb ynysu

Yn ystod eu hymweliadau, nododd aelodau'r NPM bryderon ynghylch cyfreithlondeb y defnydd o ynysu. Er enghraifft, honnai cleifion ar ward fforensig i blant a phobl ifanc fod arwahanu yn cael ei ddefnyddio fel cosb, dywedodd claf ar ward aciwt nad oedd arwahau yn cael ei ddefnyddio fel dewis olaf gan nad oedd opsiynau eraill wedi eu hystyried, a dywedodd cleifion eraill y gallent gael eu harwahanu pe baent yn gwrthod cymryd meddyginiaeth.

Mewn un achos, roedd un o'r trigolion mewn cartref gofal yng Nghymru yn cael ei hynysu gan ei bod yn cael ei chyfyngu i ddefnyddio dim ond ei hystafell wely oherwydd ei bod yn anymataliol o ran wrin. Arweiniodd hyn at ymchwiliad troseddol.

Mae aelodau'r NPM yn ymwybodol lle nad yw ynysu yn cael ei ddefnyddio, y gallai dulliau amgen o reoli ymddygiad cythryblus gynnwys mwy o ddefnydd o feddyginiaeth (ataliaeth cemegol), ataliad llaw hir neu ataliaeth fecanyddol (y defnydd o ddillad atal). Nododd un aelod o'r NPM fod diffyg cyfleuster arwahanu mewn uned anableddau dysgu wedi arwain at ataliad llaw am gyfnod hir ar sawl achlysur. Mae ymdrechion cadarnhaol gan rai gwasanaethau i edrych ar eu harferion ataliaeth yn ehangach, ac ymdrechion i symud i sefyllfa o 'ddim ataliaeth', drwy ganolbwyntio ar achosion gwaelodol ymddygiad aflonyddgar (diflastod, diffyg cyswllt â staff, diffyg mannau tawel neu breifat), i'w croesawu.

## Ailintegreiddio

Mae Cod Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl 2015 (Cymru) yn cynnwys gofynion manwl y dylai dibriffio a chymorth ddilyn yr holl achosion o arwahanu, a chydnabyddiaeth eu bod yn debygol o achosi rhywfaint o ofid i gleifion. Dylai adrodd yn ôl o'r fath, neu adolygu ar ôl digwyddiad, roi cyfle i ddysgu sefydliadol.

**84** UN Special Rapporteur on the human rights of migrants, *Report to the UN Human Rights Council* A/HRC/20/24, 2 Ebrill 2012, para 31.
**85** The Detention Centre Rules 2001, 3(1), yn: http://www.legislation.gov.uk/uksi/2001/238/made (agorwyd 14/10/15).

Os yw cleifion yn gallu ac yn cytuno i drafod y digwyddiad a arweiniodd at y defnydd o ymyriad cyfyngol, dylent gael y cyfle, trwy berthynas therapiwtig empathetig, i archwilio agweddau o'r ymyriad a helpodd, nad oedd yn helpu ac a allai fod wedi eu gwneud yn wahanol, yn ogystal ag i gofnodi eu dymuniadau ar gyfer ymyriadau cyfyngol yn y dyfodol[83] mewn datganiad ymlaen llaw.

Fel rhan o'u gwaith monitro, mae'r NPM yn disgwyl i wasanaethau iechyd meddwl yn Lloegr fod wedi gweithredu'r canllawiau newydd yn y Cod Ymarfer, ond mewn nifer o ymweliadau nid yw aelodau'r NPM wedi canfod unrhyw dystiolaeth bod sesiynau dibriffio ar ôl digwyddiad wedi eu cynnal.

### Casgliad

Gall ynysu achosi gofid i gleifion sy'n cael eu cadw a'r rhai mewn lleoliadau gofal. Mae'r arferion a nodwyd gan aelodau'r NPM yn dangos, mewn llawer o achosion, nad yw gweithdrefnau a gynlluniwyd i sicrhau defnydd a goruchwylio priodol o ynysu yn cael eu dilyn na'u dangos. Mae pob claf sydd mewn lle cadw yn agored i niwed o ganlyniad i ddioddef o anhwylder meddyliol difrifol, sy'n gwneud mesurau diogelwch yn hynod o bwysig.

Mae'r ffaith fod yr arolygiaethau iechyd wedi canolbwyntio ar ganlyniadau ynysu ar iechyd corfforol a meddyliol wedi arwain at graffu mwy penodol ar yr amgylchedd a'r gyfundrefn lle mae'n digwydd. Mater i'w groesawu yw fod Cod Ymarfer newydd MHA yn cryfhau amddiffyniadau i gleifion yn Lloegr sydd wedi eu hynysu yn y tymor byr neu'r tymor hir, ac yn codi safonau'r amodau ar gyfer ynysu o'r fath. Mae'r gydnabyddiaeth yn y Cod y gallai ynysu bob amser fod yn drawmatig, fel bod angen i gleifion gael cefnogaeth ar ei ôl, a bod angen i ystafelloedd ynysu fod â chloc gweladwy ynddynt, yn ganlyniad uniongyrchol yr arsylwadau o fonitro gan yr NPM. Ar yr un pryd, mae cyflwyno ynysu yn rheolaidd drwy gaethiwed yn ystod y nos, heb y posibilrwydd o weithredu gofynion adolygu mathau eraill o ynysu, yn destun pryder.

Bydd fforwm iechyd meddwl NPM yn ystyried ffyrdd i gryfhau'r gwaith o fonitro carcharu pobl ar eu pen eu hunain a'u hynysu - gan gynnwys drwy weithrediad llawn Cod Ymarfer MHA yn Lloegr - drwy eu pwerau monitro a rheoleiddio. Mae rhai datblygiadau cadarnhaol mewn safonau ac ymwybyddiaeth wedi eu cyflawni heb os, a gall aelodau'r NPM chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod y rhain yn cael eu cynnal, a'u cyflwyno mewn ardaloedd nad ydynt wedi bod ynddynt o'r blaen.

## Dalfeydd mewnfudo

Mae dalfeydd mewnfudwyr ar draws pedair cenedl y DU yn cael eu monitro gan Arolygiaeth Carchardai EM a'r IMBs, gydag aelodau eraill yr NPM yn darparu gwaith monitro penodol ar ddarpariaeth iechyd ac addysg. Cyfrannwyd tystiolaeth at yr adolygiad hwn o dri arolygiad o ganolfannau symud mewnfudwyr (IRC).

### Cefndir

Dylai'r gwahaniaeth rhwng dalfeydd mewnfudwyr (math o leoedd cadw gweinyddol) a ffurfiau cosbol o leoedd cadw fod yn glir yn yr amodau y mae carcharorion yn cael eu cadw ynddynt.[84] Mae diben heb fod

86 Detention Centre Rules 2001, Rheolau 40 and 42 yn y drefn honno.

yn gosbol IRCs yn y DU yn cael ei nodi'n glir yn Rheolau'r Canolfannau Cadw ( 2001), sy'n pwysleisio y dylid cael trefn hamddenol gyda chymaint o ryddid i symud a chymdeithasu ag y bo modd, yn gyson â chynnal amgylchedd saff a diogel.[85] Dylai'r egwyddor hon fod yn flaenllaw wrth wneud defnydd o unrhyw arferion sy'n gyfystyr ag ynysu mewn IRC.

### Lle mae carcharu pobl ar eu pen eu hunain ac ynysu yn digwydd

O dan Reolau'r Canolfannau Cadw, gall carcharorion gael eu hynysu o ganlyniad i'w symud oddi wrth gymdeithas (Rheol 40) neu gael eu carcharu ar eu pen eu hunain dros dro (Rheol 42).[86] Dylai symud pobl oddi wrth gymdeithas gael ei gyfiawnhau gan fuddiannau diogelwch. Yn ôl Rheolau'r Canolfannau Cadw, am y 24 awr cyntaf gellir ei awdurdodi gan reolwr canolfan gadw, yn gweithredu o dan gyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol, a ddylai gael ei hysbysu. Ni ddylid symud carcharorion am gyfnod o fwy na 24 awr heb awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol, er yn ymarferol, mae hyn yn cael ei ddirprwyo i uwch reolwr o adran gorfodi mewnfudo y Swyddfa Gartref. Gellir defnyddio carcharu pobl ar eu pen eu hunain a'u hynysu mewn llety arbennig i gadw neu i reoli ymddygiad anhydrin neu dreisgar, ond am ddim mwy nag y mae ymddygiad o'r fath yn para. Ni ddylai bara am fwy na 24 awr heb gymeradwyaeth uwch, ac ni ddylai fod am fwy na thri diwrnod.

Roedd gan ddau o'r IRC yr ymwelwyd â hwy 'unedau gwahanu' lle roedd carcharorion yn cael eu cadw o dan Reol 40 neu Reol 42, ac roedd gan un ohonynt wyth o gelloedd. Yn y trydydd IRC, roedd ystafell oddi ar y prif goridor yn cael ei defnyddio. Ni chafwyd tystiolaeth o ynysu anffurfiol neu garcharu pobl ar eu pen eu hunain ym mhrif ardaloedd y sefydliadau hyn.

Nid oedd plant yn cael eu hynysu mewn unrhyw achosion yn yr un IRC a oedd yn eu cadw (fel rhan o uned deuluol).

### Materion penodol a nodwyd drwy fonitro

#### Hyd a math o ynysu

Mae ynysu sy'n codi o Reol 40 yn llawer mwy cyffredin na Rheol 42. Roedd un IRC yr ymwelwyd ag efi yn gwneud llawer o ddefnydd o ynysu, ond am gyfnodau cymharol fyr. Mewn un IRC, gyda lle ar gyfer 575 o garcharorion, roedd arolygwyr yn cyfrifo bod tua 131 o garcharorion wedi cael eu gwahanu yn ystod y chwe mis cyn yr arolygiad. O'r rhain, roedd 128 wedi cael eu gwahanu o dan Reol 40 a thri o dan Reol 42. Mewn sawl achos roeddent wedi cael eu cadw mewn celloedd am dros 22 awr y dydd, er y gallent ddefnyddio ffonau symudol pan oeddent yno. Roedd yn anghyffredin i unrhyw un aros yn yr uned wahanu am fwy na chwe diwrnod.

Mewn IRC arall, er bod cyfanswm nifer y carcharorion oedd yn cael eu hynysu yn is na'r cyfartaledd, roedd yr amser yr oeddent yn ei dreulio wedi'u hynysu yn uwch, yn aml oherwydd oedi gan y contractwr hebrwng gan nad oedd eu faniau bob amser yn cyrraedd y ganolfan pan ddisgwylid iddynt wneud hynny. Mewn rhai achosion, roedd yr ynysu yn gyfystyr â charcharu pobl ar eu pen eu hunain.

#### Cyfiawnhad dros ynysu

Yn y rhan fwyaf o achosion, ystyriai'r arolygwyr bod Rheol 40 a Rheol 42 am wahanu yn cael eu defnyddio'n briodol. Ond mewn un o'r IRC, canfu arolygwyr dystiolaeth fod carcharorion ag anghenion iechyd meddwl wedi cael eu gwahanu oherwydd diffyg llety mwy addas ar eu cyfer.

#### Amodau a chyfundrefn

Gwelwyd bod amodau'r gwahanu mewn dau o'r IRCs - un gydag uned wahanu bwrpasol,

ac un gyda ystafell sengl a ddefnyddir ar gyfer gwahanu - yn ddigysur ac yn wael. Roedd gan y trydydd IRC amodau da yn ei huned wahanu, gan gynnwys ystafell gymdeithasu a ddefnyddid yn rheolaidd. Roedd celloedd Rheol 40 yn brin o ddodrefn. Roedd y celloedd yn lân ac roedd ganddynt doiledau a chawodydd wedi'u sgrinio'n briodol.

### Astudiaeth achos: amodau gwael yn ystod gwahanu

Roedd yr uned wahanu mewn un IRC yn cynnwys wyth o gelloedd, gan gynnwys cell gyda gatiau oedd yn cael ei gwylio'n gyson. Roedd yr amgylchedd yn wael ar y cyfan. Er bod y ddau goridor cymunedol yn weddol lân, roeddent yn gul ac ychydig o olau naturiol oedd ynddynt, a oedd yn creu amgylchedd gormesol. Roedd y rhan fwyaf o'r celloedd yn frwnt ac roedd rhai toiledau yn fudr. Roedd gan rai celloedd setiau teledu ac roedd gan bob un drydan. Roedd iard ymarfer yn llwm ac yn debyg i gawell.

Roedd trefn ddyddiol sylfaenol yn cynnwys cawodydd ac ymarfer corff, ond mewn llawer o achosion roedd carcharorion yn cael eu cadw yn eu celloedd, a'u gwahanu oddi wrth bobl eraill am dros 22 awr y dydd. Roedd carcharorion yn cael defnyddio eu ffonau symudol pan oeddent dan glo yn eu celloedd.

Gallai carcharorion rheol 40 mewn theori fynychu gweithgareddau megis addysg, llyfrgell a'r gampfa ar ôl asesiad risg, ond mewn gwirionedd anaml yr oedd hyn yn digwydd.

## Gweithdrefnau a llywodraethu

Mewn dwy o'r IRC, canfu'r aelod o'r NPM problemau gyda'r ddogfennaeth oedd yn berthnasol i wahanu carcharorion. Mewn un, nid oedd bob amser yn cyfiawnhau'r rhesymau dros wahanu yn glir, ac nid oedd staff y Swyddfa Gartref a'r staff gofal iechyd bob amser yn cofnodi eu hymweliadau i'r uned, er eu bod yn ymweld yn rheolaidd. Mewn un arall, nid oedd llofnodion y Swyddfa Gartref wedi'u cynnwys ar rai dogfennau ac mewn un achos, nid oedd staff y Swyddfa Gartref wedi gweld carcharor cyn iddo gael ei dynnu oddi ar Reol 40.

### Arfer da mewn un IRC

Roedd grwp monitro ac adolygu gwahanu yn cwrdd yn fisol i fonitro nifer y rhai oedd yn cael eu cadw ar wahân a'r rhesymau tu ôl i hyn. Roedd dogfen strategaeth wedi ei chyhoeddi oedd yn disgrifio arferion gwaith a threfniadau rheoli. Roedd pob achos yn cael ei adolygu bob dydd gan uwch reolwr ac roedd carcharorion yn cael eu gweld fel arfer gan aelod o'r IMB, caplan a meddyg.

## Casgliad

Mae'r disgrifiadau hyn yn dangos amrywiaeth eang yn amodau'r drefn o ynysu yn stad dalfeydd mewnfudwyr. Roedd defnydd anghyson o'r mesurau diogelu a ddylai fod ar waith ar gyfer pob achos o ynysu, yr oedd rhai ohonynt yn gyfystyr â charcharu rhywun ar ei ben ei hun.

O ystyried hyn, mae'n hanfodol fod holl aelodau'r NPM sydd â rôl yn y gwaith o fonitro dalfeydd mewnfudwyr yn rhoi sylw manwl i arferion ynysu.

87 Yn wahanol i garcharorion PACE, o dan adran 41 TACT, gellir arestio unigolion am 'amheuaeth resymol' o fod yn ymwneud â pharatoi neu achosi gweithredoedd terfysgol hyd yn oed pan nad oes trosedd benodol mewn golwg. Mae trin carcharorion TACT yn cael ei lywio gan reolau penodol wedi'u cynnwys yn Rhan I, Atodlen 8 TACT a Chod H PACE.
88 The Children Act 1989.
89 Police Scotland; PACE adran 8 Cod C.

## Dalfeydd yr heddlu a lluoedd ffiniau

Mae cyfleusterau dalfeydd yr heddlu yn y DU yn cael eu harchwilio'n rheolaidd gan HMIC, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, HMICS a CJINI, ac mae ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa (aelodau ICVA, ICVS a NIPBICVS) yn ymweld fel mater o drefn i wirio bod hawliau carcharorion yn cael eu caniatáu ac y rhoddir sylw i'w llesiant.

Cafodd tystiolaeth o ddau arolygiad ar ddalfeydd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr ac un arolygiad o ddalfeydd y tollau Border Force (mewn meysydd awyr a phorthladdoedd), yn ogystal â sylwadau gan ddau gorff sy'n ymweld, eu cynnwys yn yr adolygiad hwn.

### Cefndir

Mae lleoedd cadw yn nalfeydd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr yn cael eu rheoli drwy God C o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984. Mae rhai carcharorion yn nalfeydd yr heddlu yn cael eu cadw o dan bwerau mewnfudo (carcharorion 'IS91') gan ddisgwyl eu trosglwyddo i IRC, neu o dan adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl a Deddf Plant 1989 fel 'man diogel'. Defnyddir dalfeydd yr heddlu, gan gynnwys ystafelloedd dynodedig arbennig, hefyd i ddal carcharorion o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000 (TACT).[87]

- O dan PACE, gall carcharorion gael eu cadw'n gaeth am uchafswm o 24 awr cyn y bydd uwch-arolygydd yr heddlu yn gofyn am gyhuddiad neu am ymestyn lle cadw am 12 awr arall. Mewn achosion difrifol, gall lle cadw gael ei ymestyn ymhellach gan ynad. Gall lle cadw gael ei ymestyn ymhellach unwaith y bydd carcharor wedi ei gyhuddo os gwrthodir mechnïaeth a'i fod yn aros am ymddangosiad llys.
- Yn yr Alban, mae carcharorion sy'n cael eu dal ar gyfer y llys yn cael eu cadw tan y diwrnod cyfreithlon nesaf (y bydd y llys yn eistedd), a allai ymestyn i bedwar diwrnod yn y ddalfa yn ystod cyfnod gwyliau.
- O dan y Ddeddf Terfysgaeth, gall carcharorion gael eu cadw cyn eu cyhuddo am hyd at 14 diwrnod, yn ddarostyngedig i adolygiadau rheolaidd.
- Nid oes terfyn amser ar gadw pobl dan IS91 yn nalfa'r heddlu.
- Nid oes terfyn amser penodol ar gadw plant mewn gorsafoedd heddlu fel man diogel, ond dylai hyn fod 'hyd oni [...] cheir llety addas arall yn unig'.[88]
- O dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, y cyfnod hwyaf y gall person gael ei gadw gan yr heddlu yw 72 awr.

Mae dalfeydd tollau Border Force yn debyg i ddalfeydd yr heddlu ond ychydig yw'r niferoedd sy'n mynd drwyddynt (tua 750 yn 2013-14). Gallai unigolion sy'n mynd drwy borthladdoedd neu feysydd awyr yr amheuir eu bod wedi llyncu cyffuriau mewn pecynnau wedi'u selio i'w cuddio nhw wrth ddod i mewn i'r wlad gael eu cadw yma i aros hyd nes bydd unrhyw gyffuriau yn mynd trwy eu cyrff.

### Lle mae carcharu pobl ar eu pen eu hunain a'u hynysu yn digwydd

Ynysu yw'r norm yn nalfa'r heddlu, sy'n cael ei gyfiawnhau gan y ffaith bod angen i rai sy'n cael eu cadw gael eu cadw ar eu pen eu hunain tra bônt yn cael eu holi am droseddau y gallent fod wedi eu cyflawni, neu tra bo tystiolaeth arall yn cael ei chasglu, cyn iddynt gael eu cyhuddo. Mae polisi yn nodi bod yn rhaid i'r holl garcharorion gael eu cadw mewn celloedd sengl, beth bynnag yw eu troseddau neu hyd eu cyfnod yn y ddalfa.[89] Ar adegau prin, mae carcharorion yng Nghymru a Lloegr wedi cael eu canfod wedi 'dyblu i fyny' mewn celloedd.

Ystyriodd aelodau'r NPM achosion o gyfnodau hirach nag arfer o gadw carcharorion heb 'ryngweithio ystyrlon', y gallai rhywfaint ohono fod yn gyfystyr â chadw carcharorion ar eu pen eu hunain.

## Materion penodol a nodwyd drwy fonitro

### Hyd yr ynysu

Dylai'r amser mwyaf y bydd carcharor yn nalfa'r heddlu neu lu'r ffiniau yn cael ei ynysu gael ei bennu gan derfynau amser y pŵer cadw penodol y maent yn cael eu cadw oddi tano, fel uchod.

Mae aelodau'r NPM wedi nodi achosion lle mae carcharorion sydd wedi mewnfudo a gadwyd o dan bwerau IS91 wedi eu hynysu am dri neu bedwar diwrnod yn aros am gael eu trosglwyddo i IRC. Gallai carcharorion yr Heddlu, os ydynt yn cael eu harestio dros y penwythnos, gael eu cadw'n gaeth am gyfnodau hwy nag arfer wrth aros am ymddangosiad yn y llys.

**Astudiaeth achos: 45 awr o ynysu yn ystod carchariad cyn y treial**

Cafodd dyn 19 mlwydd oed ei arestio am 11:58 ddydd Mawrth a'i gyhuddo'r bore canlynol. Roedd yn barod ar gyfer y llys am 12.45pm ddydd Mercher, a chafodd papurau eu ffacsio i'r llys am 13.23pm. Aethpwyd ag ef i'r llys am 10:10am yn y diwedd ddydd Iau, ar ôl 45 awr yn y ddalfa. Yn ystod y cyfnod hwn o 45 awr cafodd gyfweliad 45 munud gyda'r heddlu, cyfweliad 20 munud gyda'i gyfreithiwr a chafodd ei ddwyn allan at ddesg y ddalfa i'w gyhuddo. Ar wahân i hyn yr oedd wedi treulio'r holl amser yn ei gell, heb unrhyw ymarfer corff na chawod (er iddo gael cynnig un). Roedd hen gylchgrawn yn ei gell a roddwyd iddo i basio'r amser. Byddai rhywun wedi mynd i weld y sawl a gadwyd bob 60 munud (rhywun yn edrych drwy'r agoriad a dweud ychydig o eiriau efallai).

**Astudiaeth achos: 28 awr o ynysu dan bwerau mewnfudo**

Mae'r llinell amser hon yn dangos yr amser a dreuliodd un carcharor IS91 yn y ddalfa.

- 09.12: ei arestio
- 10.10: ei awdurdodi a hawliau wedi eu hesbonio i'r carcharor mewn Arabeg trwy wasanaeth cyfieithu dros y ffôn
- 10.18: gofyn am ofal iechyd
- 10.50: arhosodd y carcharor wrth y 'bont' i weld gofal iechyd, yn hytrach na chael ei roi mewn cell
- 10.57: rhoddwyd bwyd a diod i'r carcharor
- 11.49: cymerwyd y carcharor i'r ystafell feddygol am tua 15 munud cyn dychwelyd i'r gell
- 12.32: symudwyd ef o'r gell i siarad â chyfreithiwr ar y ffôn (gyda chyfieithydd) yn yr ystafell ymgynghori
- 12.56: yn dilyn cyngor gan gyfreithiwr hawliodd loches gwleidyddol
- 14.00: rhoddwyd pryd o fwyd i'r carcharor yn ei gell
- 17.12: cyflwynwyd IS91 wrth ddesg gofrestru drwy wasanaeth cyfieithu dros y ffôn
- 22.44: caniatawyd i'r carcharor fynd allan o'i gell i olchi ei ddwylo a'i wyneb
- 05:30: cafodd ei ddeffro ac yna rhoddwyd diod boeth, bwyd a bisgedi halal, copi o'r Qur'an a mat gweddïo iddo
- 08.32: rhoddwyd diod boeth iddo ond gwrthododd y bwyd
- 14.00 (tua): ei drosglwyddo i'r IRC

Cyfanswm yr amser: tua 28 awr.

### Cyfiawnhau a llywodraethu ynysu

Nid oes angen unrhyw weithdrefnau, dogfennau neu ganiatâd ar wahân ar gyfer carcharu pobl ar eu pen eu hunain neu eu hynysu yn nalfa'r heddlu, gan fod hyn yn gynhenid yn y math hwn o gadw.

Ychydig o dystiolaeth a welodd monitoriaid yr NPM o roi ystyriaeth benodol i effaith ynysu yn nalfa'r heddlu ar blentyn neu unigolyn sydd â phroblemau iechyd meddwl. Ond mae plant sy'n cael eu cadw yn aml yn cael eu rhoi mewn celloedd neu ystafelloedd sy'n agosach at ddesg derbynfa lle gall staff y ddalfa ddarparu ymweliadau ychwanegol.

Ar gyfer carcharorion wedi mewnfudo, gan fod awdurdodau'r heddlu yn codi tâl ar awdurdodau mewnfudo am gostau cadw unwaith yr adroddir amdanynt a hyd nes cânt eu casglu, mae hyn yn creu trywydd archwilio a chymhelliant economaidd i gyfyngu ar eu hamser yn y ddalfa.

**Astudiaeth achos: achos dros rannu cell?**

Cafodd wyth o garcharorion a gafodd eu harestio ar ôl eu gollwng o lori ar draffordd eu cymryd i ddwy ystafell yn nalfa'r heddlu. Roedd o leiaf un tad a mab yn y grŵp, a dau frawd. Nid oedd unrhyw aelod o'r grŵp yn honni ei fod yn gallu siarad Saesneg, a nodwyd eu cenedligrwydd fel Iraciaid neu Syriaid. Roedden nhw wedi cael eu cadw am dros 22 awr pan ddaeth arolygwyr NPM ar eu traws. O ganlyniad i ymyriadau arolygwyr, cafodd y ddau frawd fynediad i'r iard ymarfer corff fel y gallent siarad â'i gilydd. Teimlai'r arolygwyr, o ystyried y tebygolrwydd bod y dynion hyn wedi teithio gyda'i gilydd a'u cysylltiadau teuluol, y gellid bod wedi rhoi peth ystyriaeth i rannu celloedd am ychydig. Byddai hefyd wedi bod yn gyfle i osod y grŵp mewn ardal gyda giatiau, ddiogel gyda'i gilydd.

### Amodau a chyfleusterau

Oherwydd mai ynysu yw'r norm yn nalfa'r heddlu, mae'n bwysig y gall effeithiau hyn ar y carcharor gael eu gwrthbwyso neu eu negyddu gan gyfundrefn sy'n hwyluso rhyngweithio da rhwng y staff a'r carcharor, yn ogystal â mynediad at gawodydd, ymarfer corff, deunyddiau darllen ac ymweliadau.

Mae aelodau'r NPM yn gweld bod cyfleusterau ar gyfer carcharorion yn aml yn cael eu darparu mewn ymateb i gais oddi wrthynt yn unig ac nid yn cael eu cynnig yn systematig. Er bod gan ystafelloedd yr holl ddalfeydd gawodydd a phethau ymolchi, ac mae gan y rhan fwyaf ardal i gael awyr iach neu ymarfer corff y tu allan a rhywfaint o ddeunydd darllen cyfyngedig, yn aml nid yw carcharorion yn gwybod bod y cyfleusterau hyn ar gael iddynt.

**Astudiaeth achos: cyswllt ystyrlon?**

Roedd carcharor mewnfudo wedi treulio bron i 24 awr yn y ddalfa pan siaradodd arolygydd NPM ag ef. Roedd yn aros i gael ei drosglwyddo i IRC ac roedd wedi bod allan o'i gell am ddim ond pum munud i wneud galwad ffôn i'w gyfreithiwr. Ymwelwyd ag ef bob 30 munud gan staff cadw, a oedd fel arfer yn golygu agor yr agoriad yn nrws y gell neu gael gair cyflym '*popeth yn iawn?*', ac roedd wedi derbyn prydau microdon ar adegau prydau bwyd arferol. Credai'r swyddog cadw cyfrifol fod y carcharor yn siarad rhywfaint o Saesneg, ond mewn gwirionedd roedd yn rhugl. Dywedodd y carcharor y byddai wedi hoffi cawod a rhywfaint o awyr iach, ond nid oedd un o'r rhain wedi cael eu cynnig, ac nid oedd yn gwybod eu bod ar gael. Ar ôl awgrym gan arolygydd yr NPM, fe gafodd bum munud y tu allan i gael awyr iach, ond ni chafodd gawod. Cafodd ei drosglwyddo yn y diwedd ar ôl tua 36 awr.

Yn yr achosion a nodwyd gennym lle cafodd y carcharorion eu cadw am gyfnod hwy na chyfnodau arferol, roedd amodau'r cadw yr un fath ag y byddent wedi bod ar gyfer unrhyw garcharor arall. Nid yw celloedd yr heddlu wedi eu dodrefnu ac mae mainc syml ynddynt. Fel arfer mae ganddynt fatres, gobennydd a blanced (ond yn aml dim ond pan ofynnir am hynny neu yn ystod y nos). Mae gan y rhan fwyaf o gelloedd doiledau yn y gell, ond dim ond lleiafrif sydd â chyfleusterau golchi dwylo. Mae'n bosibl y bydd rhaid i garcharorion sy'n cael eu cadw am gyfnodau hir aros yn y dillad y maent yn cyrraedd ynddynt, er y caniateir i deuluoedd weithiau ddod â dillad glân i'r rhai a gedwir am gyfnodau hwy, yn amodol ar asesiad risg. Mae aelodau'r NPM yn canfod er bod dillad eraill yn cael eu darparu weithiau, mai dim ond lleiafrif o ystafelloedd sy'n cadw dillad isaf y gellir newid iddynt.

Nododd un aelod o'r NPM allan o wyth o ystafelloedd dalfeydd Border Force a arolygwyd, mai dim ond dwy oedd ag ardal ymarfer y tu allan. Fe wnaethant nodi bod carcharorion yn aml yn cael eu cadw ar eu pen eu hunain, a bod y rhyngweithio rhwng carcharorion a staff yn gymysg. Mewn un achos, roedd carcharor wedi cael ei gadw am 20 diwrnod mewn ystafell heb unrhyw gyfleusterau ymarfer corff y tu allan, ond roedd y staff wedi ymdrechu i hwyluso galwadau ffôn, cael llyfrau a dillad iddo, ac roeddent yn ystyriol.

## Casgliad

Mae polisïau sy'n rheoli cadw yn nalfeydd yr heddlu yn nodi y dylai carcharorion gael eu cadw ar eu pen eu hunain mewn celloedd, sydd â sail resymegol benodol y rhan amlaf sy'n deillio o'u cadw cyn eu cyhuddo tra gallai tystiolaeth gael ei chasglu.

Ond fel y nodwyd uchod, mewn rhai achosion mae carcharorion yn cael eu cadw am gyfnod hwy na chyfnodau arferol a dylid ymchwilio i ffyrdd o wrthbwyso amodau'r ynysu. Dylai hyn gynnwys annog rhyngweithio ystyrlon rhwng staff a charcharorion, a hwyluso mynediad at gawodydd ac iardiau ymarfer corff, ymweliadau a deunydd darllen.

Mae monitro gan yr NPM hefyd yn dangos y gallai fod achosion lle gallai unigolion a gedwir yn nalfa'r heddlu ryngweithio'n ddiogel gydag eraill, megis yr achos yn ymwneud â charcharorion o'r un teulu oedd yn cael eu cadw o dan bwerau mewnfudo.

Mae angen rhoi sylw arbennig i'r posibilrwydd y gallai carcharorion gael eu cadw am hyd at 14 diwrnod o dan ddeddfwriaeth terfysgaeth, o ystyried y tebygolrwydd o gyfnodau hirach nag arfer o ynysu, a bydd hyn yn cael ei ystyried gan aelodau'r NPM mewn gwaith yn y dyfodol.

## Themâu allweddol

Mae rhai themâu yn dod i'r amlwg yn sgil yr adolygiad o arfer gan aelodau'r NPM, sy'n ein galluogi i nodi meysydd cyffredinol sy'n peri pryder ar draws gwahanol fathau o ddalfeydd.

Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan aelodau'r NPM yn dangos bod **arfer anghyson** ar draws lleoliadau cadw. Nodwyd meysydd o arfer da, gan gynnwys ymdrechion gwerthfawr i leihau'r defnydd o ynysu ac ymdrin ag achosion unigol cymhleth.

Mae'r canfyddiadau'n dangos y graddau y mae arferion neu gyfundrefnau mewn mannau cadw **yn gyfystyr â charcharu pobl ar eu pen eu hunain**. Er mai nid prif bwrpas llawer o'r rhain yw ynysu (e.e. cyfundrefnau 'sylfaenol'), mae'r ffaith eu bod yn arwain at garcharu pobl ar eu pen eu hunain yn peri pryder. Gallai'r defnydd o derminoleg amrywiol i ddisgrifio arferion sy'n ynysu carcharorion dynnu sylw

oddi ar natur ddifrifol yr arferion hyn.

Roedd yr amodau yr oedd carcharorion yn cael eu hynysu yn amrywio'n sylweddol, fel yr oedd eu mynediad at addysg, ymweliadau, galwadau ffôn, ac agweddau eraill ar drefn a fyddai'n gwrthbwyso effeithiau ynysu. Mewn ambell le, gwnaed ymdrechion sylweddol i ymgysylltu carcharorion neu liniaru'r ymdeimlad o unigedd, ond mewn rhai eraill dim ond pan wneid cais am hynny neu yn anghyson y byddai cyfleusterau yn cael eu darparu.

Er bod ymdrechion wedi eu gwneud i gryfhau'r gweithdrefnau a'r mesurau diogelu ar gyfer ynysu ffurfiol ar draws sawl math o gadw, nododd gwaith monitro'r aelodau ormod o achosion lle roedd llywodraethu yn wael a lle roedd cyfiawnhad dros wneud mwy o ymdrechion i osgoi ynysu. Roedd yn bryder arbennig nad oedd llywodraethu ynysu ar gyfer plant yn dal i fod yn ddigon cadarn, ac nad oedd prosesau goruchwylio yn taflu goleuni ar y rhesymau dros nac yn ymdrin ag unrhyw gynrychiolaeth anghymesur o garcharorion gyda rhai 'nodweddion gwarchodedig' ar eu pennau eu hunain. Mae'r rôl mae aelodau'r NPM yn ei chwarae wrth graffu ar y gweithdrefnau a'r dulliau diogelu hyn yn hanfodol a gellid eu cryfhau ymhellach.

Canfu holl aelodau'r NPM enghreifftiau o garcharu pobl ar eu pen eu hunain a'u hynysu oedd yn codi o gyfundrefnau cyfyngol neu fesurau dros dro, ac roedd y lleihad mewn lefelau staffio mewn llawer o leoedd cadw yn cyfrannu'n uniongyrchol at hyn. Mae anffurfioldeb ynysu, heb unrhyw brosesau llywodraethu neu oruchwylio, yn golygu nad yw'r potensial ar gyfer niwed i garcharorion, gan gynnwys carcharorion agored i niwed, yn cael ei ystyried yn llawn ac y gallai effeithio ar eu gallu i ailintegreiddio i mewn i fywyd yn y prif sefydliad.

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd prosesau ailintegreiddio gan lawer o aelodau'r NPM. Mae llawer o enghreifftiau o'r sector iechyd yn dangos gwell dealltwriaeth o ddulliau i integreiddio carcharorion yn ôl i gyfundrefnau arferol, gan gynnwys drwy baratoi datganiadau ymlaen llaw a chynnal trafodaethau ar ôl digwyddiadau. Ym mhob achos o ynysu, dylai carcharorion wybod beth sydd ei angen i ynysu ddod i ben, ac roedd yn destun pryder canfod llawer o enghreifftiau lle nad oedd hyn yn wir.

Lle mae ynysu yn norm, fel yn nalfa'r heddlu, gallai fod achosion lle na ellir ei warantu a lle gallai fod yn niweidiol. Dylid rhoi mwy o sylw liniaru effeithiau ynysu yn y sefyllfaoedd hyn, yn ogystal ag mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai cosbol, yn enwedig drwy annog rhyngweithio ystyrlon rhwng staff a charcharorion.

### Camau nesaf

Bydd yr adolygiad cychwynnol hwn o arfer yn bwydo i mewn i waith yn y dyfodol i gryfhau cysondeb a thrylwyredd gwaith monitro'r NPM, ac i mewn i gynigion ar gyfer cryfhau polisi ac arfer ar draws lleoliadau cadw yn y DU. Mae rhai o aelodau'r NPM eisoes wedi nodi camau ar gyfer cyflwyno'r gwaith hwn, gan gynnwys:

- bydd is-grwp plant a phobl ifanc yr NPM yn canolbwyntio yn ystod 2015-16 ar ganfyddiadau ei aelodau a ffyrdd o gryfhau

**90** Fe wnaeth yr arolygiad cyntaf o'r fath, o ganolfan y ddalfa yn Kittybrewster yn Aberdeen, dynnu sylw unwaith eto at y ffaith nad oedd y carcharorion yn cael defnyddio cawodydd na chymryd rhan mewn ymarfer corff. Cynhaliwyd yr arolygiad hwn ym mis Mawrth 2015 a chyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mai 2015 (HMICS [2015], *Local Policing+ Inspection Programme, Inspection of custody centre located in Aberdeen City Division*) yn: http://www.hmics.org/publications/local-policing-inspection-programme-inspection-custody-centre-located-aberdeen-city (agorwyd 14/10/15).

**91** The Supreme Court Hilary Term [2014] UKSC 19, yn: http://supremecourt.uk/decided-cases/docs/UKSC_2012_0068_Judgment.pdf (agorwyd 14/10/15).

monitro a gwneud y defnydd priodol o ynysu;

- bydd yr Arolygiaeth Gofal yn adrodd ar ei ganfyddiadau ar garcharu pobl ar eu pen eu hunain a'u hynysu mewn adroddiadau sydd i ddod ar bob un o'r pum uned ddiogel ar gyfer pobl ifanc yn yr Alban;
- bydd Comisiynydd Plant Lloegr yn cyhoeddi canfyddiadau ei brosiect ar ynysu yn 2015;
- bydd arolygiaethau yn canolbwyntio ar garcharu carcharorion TACT ar eu pen eu hunain a'u hynysu mewn gwaith arolygu yn y dyfodol;
- Bydd HMICS yn ystyried carcharu pobl ar eu pen eu hunain a'u hynysu, yn ogystal â chyfundrefnau sy'n gwrthbwyso eu heffeithiau, yn ystod arolygiadau'r dalfeydd yn ei raglen arolygu Plismona Lleol+;[90]
- Arolygodd Arolygiaeth Carchardai EM y canolfannau goruchwyliaeth agos, gan edrych ar y CSCs fel system ar wahân am y tro cyntaf. Ymgynghorodd â grwp o arbenigwyr i lywio datblygiad *Disgwyliadau* (safonau arolygu) penodol a oedd yn canolbwyntio sylw ar y mesurau diogelu a'r ymdrechion i wrthbwyso effeithiau ynysu.

Bydd aelodau'r NPM hefyd yn defnyddio'r canfyddiadau hyn i ddatblygu set o safonau cyffredin ar gyfer monitro carcharu pobl ar eu pen eu hunain a'u hynysu y gellir eu defnyddio ar draws pob lleoliad cadw.

## Cadw de facto

Ar draws yr holl awdurdodaethau, mae aelodau'r NPM yn parhau i nodi unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n destun cadw *de facto* – sy'n colli eu rhyddid gyda diffyg mynediad at brosesau priodol ar gyfer adolygu pa mor gyfreithlon ac angenrheidiol yw'r angen am amddifadu'r unigolion hynny o'u rhyddid.

Mae dyfarniad y Goruchaf Lys yn 2014 yn achosion *P yn erbyn Gorllewin Swydd Gaer* a *P a Q yn erbyn Cyngor Sir Surrey*[91] yn rhoi rhywfaint mwy o eglurder ar rai amgylchiadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid o dan Erthygl 5 Llys Hawliau Dynol Ewrop (ECHR). Mae pobl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid os ydynt:

- yn meddu ar y gallu i wneud penderfyniadau am eu gofal a'u preswylio;
- yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus o dan gyfrifoldeb y wladwriaeth; a,
- heb y dewis i adael eu lleoliad gofal. (Prawf Gorllewin Swydd Gaer)

Disgrifiodd adroddiadau blynyddol blaenorol yr NPM pa mor gyffredin yw cadw *de facto*. Roedd yr heriau mwyaf a nodwyd mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn 2014–15, ceisiodd gweithgor *de facto* NPM y DU ganolbwyntio ar sut mae aelodau'r NPM yn canfod cadw *de facto* yn y lleoliadau hyn, gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau diogelu i amddiffyn yr unigolion hyn, a nodi bylchau posibl mewn polisi neu ddeddfwriaeth.


At ddibenion y gwaith a wnaed yn 2014-15, byddai unrhyw un sy'n colli ei ryddid yn ôl prawf Gorllewin Swydd Gaer yn cael ei ystyried wedi'i gadw *de facto*, os oedd hyny wedi cael ei wneud heb drefn briodol. Mae yna achosion eraill hefyd sy'n gyfystyr â chadw *de facto*, gan gynnwys sefyllfaoedd lle mae gan bobl y gallu i wneud penderfyniadau am eu gofal a'u preswyliad, ond nad ydynt yn gallu gadael y lleoliad gofal, neu eu bod wedi mynegi anfodlonrwydd ynghylch agweddau ar y gyfundrefn gofal, megis ataliad.

### *Cadwde facto* yn ôl lleoliad gofal

Chwiliodd y gweithgor am enghreifftiau o arferion cadw *de facto* o leoliadau gofal ym

mhob un o awdurdodaethau'r DU. Ymatebodd aelodau'r NPM o ddwy wlad i'r cais am wybodaeth. Cafwyd ymatebion gan RQIA, MWCS a CI, gyda 12 enghraifft o gadw *de facto* wedi'u gwasgaru'n gyfartal ar draws cartrefi gofal, ysbytai iechyd meddwl, ysbytai iechyd meddwl ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, a lleoliadau byw gyda chymorth. Nid yw'r canfyddiadau a gyflwynir yma yn rhoi disgrifiad llawn na darn cynhwysfawr o waith ymchwil, ond maent yn rhoi darlun o'r mathau o sefyllfaoedd ac achosion a nodwyd drwy fonitro gan yr NPM.


Enghreifftiau o gadw *de facto* yn ôl lleoliad gofal




## *Cadwde facto* yn ôl grwp gofal

Roedd saith o'r 12 o enghreifftiau (58%) yn ymwneud â gwasanaethau ar gyfer pobl ag anabledd dysgu (oedolion a phobl iau), oedd yn derbyn triniaeth i gleifion mewnol mewn ysbytai, oedd yn byw mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol, neu oedd yn derbyn gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol.

Nifer y bobl a ystyrid wedi'u cadw *de facto* yn ôl grwp gofal




Ond dylid nodi bod tair o'r enghreifftiau hyn yn disgrifio sefyllfaoedd o gadw *de facto* ar gyfer 20 o bobl i gyd; roedd dwy enghraifft yn ymwneud â wardiau ysbytai oedd yn darparu gofal a thriniaeth ar gyfer cyfanswm o 18 o bobl ar draws y ddwy ward, a chyfeiriodd un arall at ddau o bobl oedd yn byw mewn llety a rennir yn y gymuned. Felly, o'r 29 o bobl y cyfeirir atynt yn yr enghreifftiau a ddarperir gan aelodau'r NPM, mae'n destun pryder bod gan 24 (83%) o'r rhai yr ystyrid eu bod yn cael eu cadw *de facto* anabledd dysgu.

Roedd yr enghreifftiau oedd yn weddill yn ymwneud â phobl â dementia (un), anaf i'r ymennydd oedd yn gysylltiedig ag alcohol (un), a salwch meddwl (dau oedolyn ac un person ifanc).

## Fframweithiau deddfwriaethol

Mae yna fframweithiau deddfwriaethol yn yr Alban i ddarparu mesurau diogelu ar gyfer unigolion sydd heb y gallu i wneud penderfyniadau ynghylch eu gofal, triniaeth neu drefniadau byw yn annibynnol. Ar hyn o bryd yng Ngogledd Iwerddon, mae dulliau diogelu llai cadarn ar waith er bod deddfwriaeth newydd (y Bil Galluedd Meddyliol), a ragwelir fydd yn cael ei ddeddfu yng ngwanwyn 2016, yn anelu at fynd i'r afael â'r bylchau yn y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gallu unigolyn i wneud penderfyniadau. Yn y cyfamser, mae canllawiau'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd yn darparu'r fframwaith ar gyfer ystyried a gweithredu unrhyw arfer sy'n gyfystyr â cholli rhyddid.

Roedd yr enghreifftiau a roddwyd gan

92 HM Inspectorate of Prisons (2015), *Report on an unannounced inspection of the short term holding facility at Becket House by HM Chief Inspector of Prisons, 6 January 2015*.

aelodau'r NPM yn dangos bwlch yng ngwybodaeth a dealltwriaeth staff sy'n darparu gwasanaethau am yr hyn y dylent ei ystyried ynghylch colli rhyddid /arferion cyfyngol yn eu hymarfer. Mae staff yn aml yn ymarfer mewn modd y gellid ei ystyried sy'n ddiffygiol mewn dilysrwydd cyfreithiol, pan nad yw mesurau diogelwch y fframweithiau deddfwriaethol wedi cael eu cymhwyso. Dim ond dwy o'r enghreifftiau a roddwyd oedd yn dangos bod staff yn ymwybodol o oblygiadau eu hymarfer. Roedd y staff hyn wedi ceisio sicrhau bod yr amgylchiadau a'r awdurdodiadau priodol wedi cael eu hystyried yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol. Roedd saith o'r enghreifftiau yn dangos yn glir nad oedd y staff yn ymwybodol y gallai agweddau ar eu harfer gael eu hystyried fel rhai oedd heb sail gyfreithiol. Roedd y tri achos yn weddill yn llai clir; er bod rhai agweddau ar arfer y staff wedi'u hawdurdodi, gallai'r sefyllfa gyfreithiol sy'n newid ar ôl Gorllewin Swydd Gaer Cheshire olygu bod angen ystyried meysydd newydd a rhoi arweiniad ymarferol i'r staff.

Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yng Ngogledd Iwerddon, fel y rhagwelir ar hyn o bryd, yn darparu mesurau diogelu i bobl a aseswyd fel rhai sydd heb allu i wneud penderfyniadau am eu hiechyd, llesiant a /neu gyllid, ac yn rhoi canllawiau i staff ynghylch ymarfer cyfreithlon. Yn yr Alban, mewn rhai achosion, ceir diffyg eglurder ynghylch pwy ddylai fod y person neu'r corff sy'n gyfrifol am wneud cais am yr awdurdodiadau priodol, er bod hyn yn cael ei ystyried fesul achos.

### Themâu cyffredin

Roedd y meysydd cyffredin amlycaf yn yr enghreifftiau iechyd a gofal cymdeithasol a ddarparwyd yn cynnwys:

- diffyg eglurder neu ddealltwriaeth o fewn ymarfer y staff;
- methiant i ymgysylltu tîm amlddisgyblaethol mewn asesiadau risg a chynllunio gofal;
- methiant i adolygu asesiadau risg a chynlluniau gofal, gan gynnwys adolygu gallu'r person i gydsynio i ofal, triniaeth a / neu ymyriadau;
- llywodraethu aneffeithiol o ran adnabod achosion o gadw *de facto*.

Nid yw'r canfyddiadau hyn yn wahanol iawn i'r rhai hynny y rhoddir manylion amdanynt yn adroddiadau blaenorol yr NPM. Bydd aelodau'r NPM yn parhau i wneud argymhellion ar gyfer gwelliant lle nodir enghreifftiau o gadw *de facto*. Bydd aelodau'r NPM yn ystyried hefyd a fyddai datblygu canllawiau i staff yn fanteisiol.

### Cadw *de facto* y tu allan i leoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol

*Nodwyd cadw de facto* hefyd yn 2014–15 gan Arolygiaeth Carchardai EM (Cymru a Lloegr). Nododd arolygiad o adeilad a ddefnyddir gan y gwasanaethau mewnfudo 'ardal chwilio eilaidd', ystafell sengl dan glo gyda seddau ar gyfer naw o bobl, nad oedd yn gallu gadael yr ystafell fel y dymunent. Ar ddiwrnod yr ymweliad arolygu, roedd 31 oedolyn ac un plentyn yn cael eu cadw yn yr ardal hon am gyfartaledd o un awr a 56 munud, gyda saith o'r carcharorion hyn yn cael eu cadw am fwy na phedair awr.[92] Roedd pryderon eraill a nodwyd yn cynnwys:

- methiant i gwblhau'r ddogfennaeth ofynnol i ddilysu'r cadw;
- diffyg hyfforddiant neu achrediad ar gyfer y gard oedd yng ngofal y carcharorion;
- diffyg hyfforddiant amddiffyn plant ar gyfer gard diogelwch y Swyddfa Gartref;
- ni allai dynion a merched gael eu cadw ar wahân;

- roedd yr ardal yn anaddas i blant, ac ystyrid ei bod yn lle anaddas i gadw pobl;
- roedd yn rhaid i garcharorion ofyn am gael mynd allan o'r ardal chwilio eilaidd oedd wedi'i chloi i ddefnyddio'r toiled;
- nid oedd gan y carcharorion fynediad at awyr iach;
- roedd y trefniadau llywodraethu yn aneglur;
- cofnodion gwael yn cael eu cadw

Gwnaed argymhelliad i'r Swyddfa Gartref yn ymdrin â'r pryderon hyn. Hon oedd yr enghraifft gyntaf o gadw *de facto* a nodwyd gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, ac ystyriwyd ei fod yn debygol o fod yn ddigwyddiad ynysig.

## Astudiaethau achos

### Astudiaeth achos 1

Mae gan Mr K ei denantiaeth ei hun gyda chefnogaeth yn ystod y dydd a staff nos ar alwad. Nid yw Mr K yn ymateb yn dda i newid, a phan mae'n bryderus gall fod yn ymosodol tuag at bobl eraill. Mae ei ymddygiad ar adegau yn cynnwys curo ei ben yn erbyn drysau a ffenestri, taflu gwrthrychau a thaflu ergydion at bobl eraill. Pan fydd ei ymddygiad yn nodi ei fod yn cynhyrfu gellir yn aml gofyn iddo fynd yn ôl i'w fflat; ar adegau eraill mae'n chwilio am ddiogelwch ei fflat yn annibynnol.

Ond mae yna adegau pan mae angen iddo gael ei atal er mwyn sicrhau ei ddiogelwch a diogelwch pobl eraill. Mae protocolau ar waith i reoli ei ymddygiad trallodus, sy'n cynnwys staff yn mynd ag ef i'w fflat, ac yna mynd oddi yno'n gyflym. Mae'r camau a gymerwyd ar yr adegau hyn yn cynnwys cloi drws y gegin a siarad ag ef trwy ei ddrws ffrynt.

Er bod pawb yn cytuno mai dyma'r ffordd fwyaf diogel o fonitro Mr K ar yr adegau hyn, nid yw'r ataliad na'r arwahanu wedi cael eu hawdurdodi yn gyfreithlon. Mae yna adegau pan fydd Mr K yn dymuno mynd i'w fflat ei hun ac mae ef ei hun yn dewis bod ar ei ben ei hun. Ar adegau eraill, trwy guro ar y drws mae'n datgan yn glir nad yw eisiau hyn. Nid yw'r defnydd o ataliaeth yn rhywbeth sy'n digwydd 'unwaith yn unig', ond yn hytrach mae'n rhan o gynllun gofal, ac nid yw wedi ei awdurdodi'n gyfreithiol.

Nid yw staff sy'n ymwneud â'r achos hwn wedi cydnabod bod gweithredu'r camau hyn yn arfer heb ddilysrwydd cyfreithiol. Yn yr awdurdodaeth hon ceir fframwaith cyfreithiol a allai ystyried bod awdurdodi colli rhyddid yn yr amgylchiadau hyn yn gyfreithiol. Yn yr achos hwn, dylai naill ai rhieni Mr K neu'r awdurdod lleol wneud cais am orchymyn gwarcheidiaeth lles.

### Astudiaeth achos 2

Roedd gan ward mewn ysbyty iechyd meddwl ar gyfer pobl ag anabledd dysgu 10 o gleifion yn aros i symud i leoliadau cymunedol addas. Nid oedd unrhyw un o'r cleifion wedi'u cadw yn ffurfiol yn unol â Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gogledd Iwerddon) 1986. Nid oedd gan unrhyw un o'r cleifion y gallu i wneud penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth yn annibynnol. Roedd yr allanfa o'r ward wedi ei gloi; roedd drysau mewnol wedi eu cloi hefyd, gan gyfyngu ar y modd y gallai cleifion symud o fewn y ward.


Roedd gan y cleifion yn y ward hon ystod o anghenion cymhleth; roeddent i gyd wedi bod yn yr ysbyty am fwy na 10 mlynedd. Ond nid oedd unrhyw aelod o'r staff yn cydnabod eu bod wedi'u hamddifadu o ryddid nac yn ystyried y mesurau diogelwch

dros dro a nodwyd gan lywodraeth leol yn absenoldeb fframwaith deddfwriaethol cadarnach. Nid oedd un o'r dogfennau oedd ar gael ar gyfer cleifion unigol wedi cofnodi unrhyw risgiau neu sail resymegol am y lefel hon o gyfyngiad, nac yn nodi ei fod yn gymesur a'r opsiwn lleiaf cyfyngol.

Gofynnwyd i'r staff yn y sefyllfa hon lenwi asesiadau risg a chynlluniau rheoli amlddisgyblaethol cynhwysfawr ar gyfer pob claf i sicrhau bod colli unrhyw ryddid / ymarfer cyfyngol yn gymesur â lefel y risg a aseswyd, a'r opsiwn lleiaf cyfyngol y gellid ei ddefnyddio.

# Adran tri

# Yr NPM yn 2014–15



## Cryfhau'r NPM

### Cynlluniau ar gyfer cryfhau llywodraethu

Yn 2014-15, ei chweched flwyddyn, dechreuodd yr NPM ddatblygu awgrymiadau yn deillio o archwiliad mewnol ac allanol o'i waith (drwy hunanasesiad cyntaf yr NPM, digwyddiad 'NPM Y DU: Pum mlynedd yn ddiweddarach', ac adborth uniongyrchol gan Is-bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Atal Arteithio) yn y flwyddyn flaenorol. Ym mis Mehefin 2014, cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder a Rhyddid Sifil ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Simon Hughes AS, i gyflwyno bwriadau'r NPM i gryfhau ei gydymffurfiad ag OPCAT a cheisio ymrwymiad gan y llywodraeth i gefnogi'r broses hon. Mynegodd y Gweinidog ei gefnogaeth i'r ymdrechion hyn.

Yn dilyn y cyfarfod hwn, cytunodd aelodau'r NPM ar fesurau penodol y byddent yn eu dilyn i gryfhau llywodraethu'r NPM: penodi cadeirydd i'r NPM, o'r tu allan i aelodaeth yr NPM; i geisio sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer yr NPM drwy gyfeirio'n benodol at gyfrifoldebau'r NPM ac OPCAT yn statudau'r aelodau eu hunain lle mae'r rhain yn cael eu hadolygu; a thrwy ddeddfwriaeth benodol sy'n nodi dyletswyddau a phwerau'r NPM.

Cafodd y cynigion hyn eu trafod â swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder trwy'r flwyddyn. Roedd trafodaeth am rôl y cadeirydd a'i berthynas ag aelodau'r NPM a gweinidogion y llywodraeth a fyddai'n sicrhau arweinyddiaeth ac annibyniaeth priodol yn parhau ar ddiwedd y flwyddyn.

Ymatebodd yr NPM i lythyr ym mis Tachwedd 2013 oddi wrth SPT y Cenhedloedd Unedig, yn nodi ei gynlluniau i ymdrin â'r pryderon a'r awgrymiadau a nodwyd gan yr SPT, a oedd yn cwmpasu materion yn ymwneud â'r posibilrwydd o fod yna 'negeseuon cymysg ar draws yr NPM, yr angen i wella'r gwaith o rannu gwybodaeth a mabwysiadu ymagwedd fwy 'ataliol', ac i gael cynllun cydlynol ar gyfer hyrwyddo ei weithgareddau.

### Cryfhau gweithgarwch yr NPM ac aelodaeth

Mae sefydlu dau is-grwp NPM newydd - ar gadw carcharorion iechyd meddwl, ac yn yr Alban - wedi cryfhau gallu'r NPM i rannu profiadau a mynegi ei ganfyddiadau. Rhagwelir y bydd yr is-grwpiau hyn yn datblygu gwaith ar y cyd i feysydd pellach o gynllun busnes yr NPM.

Cynhaliwyd trafodaethau pellach am y posibilrwydd o gynnwys Adolygydd Annibynnol y Ddeddfwriaeth Terfysgaeth (IRTL) yn yr NPM ac ym mis Mawrth 2015, cyflwynodd David Anderson, yr Adolygydd Annibynnol ar hyn o bryd, drosolwg o'i rôl a rhannodd safbwyntiau ynghylch cysylltiadau posibl gyda gwaith monitro aelodau'r NPM yng nghyfarfod busnes Mawrth 2015. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd yr achos dros gynnwys yr IRTL yn cael ei ystyried gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.[93]

Ym mis Tachwedd 2014, cytunodd aelodau'r NPM i wneud cyfraniad ariannol bach at gostau canolog yr NPM.

Gyda golwg ar gryfhau gallu pob aelod i feithrin gwybodaeth am gyfrifoldebau i'r NPM ymhlith cydweithwyr, uwch reolwyr, byrddau, rhanddeiliaid allanol ac eraill, paratodd cydlynwyr yr NPM ddeunyddiau

**93** Gweler hefyd Independent Reviewer of Terrorism Legislation (2015), *The Terrorism Acts in 2014*. Medi 2015. Paragraffau 7.25-7.27.

**94** Lansiwyd y wefan hon ym mis Gorffennaf 2015, ewch i: www.nationalpreventivemechanism.org.uk.

hyfforddi newydd. Dechreuwyd gwaith i sefydlu gwefan annibynnol ar gyfer yr NPM, gyda chefnogaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.[94] Cyhoeddwyd taflenni ffeithiau byr yn cyflwyno gwaith yr NPM i feddwl am ei bum mlynedd cyntaf, a'i fethodoleg a'i broses hunanasesu yn ystod y flwyddyn ac maent wedi cael eu dosbarthu'n eang ymysg rhanddeiliaid yr NPM, gan gynnwys NPMs o amgylch y byd.[95]

### Annibyniaeth swyddogion yr NPM

Ym mis 2014, cytunodd NPM y DU ar ganllawiau - *Sicrhau annibyniaeth personél y NPM* (gweler Atodiad III) - sy'n nodi bwriad yr aelodau i weithio'n gynyddol tuag at ostyngiad mewn dibyniaeth ar staff ar secondiad ar gyfer gwaith yr NPM, ymhlith mesurau eraill. Mae'r canllawiau yn ymdrin ag argymhelliad 2013 Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith, a oedd yn galw ar y DU i 'roi terfyn ar yr arfer o secondio unigolion sy'n gweithio mewn mannau lle collir rhyddid i gyrff yr NPM'.

O dan y canllawiau hyn, cytunodd aelodau'r NPM i adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd wrth leihau eu dibyniaeth ar secondeion. Dywedodd pedwar o bob 20 aelod eu bod wedi defnyddio secondeion yn ystod 2014-15. Roedd pob un o'r 10 o aelodau'r NPM nad oedd ganddynt unrhyw secondeion yn 2013-14 yn dal yn yr un sefyllfa. Roedd pedwar aelod o'r NPM wedi lleihau nifer cyffredinol y secondeion oedd yn ymwneud â gwaith yr NPM. Roedd dau aelod o'r NPM wedi cynyddu nifer y secondeion o un, ond roedd ganddynt gynlluniau i ymdrin ag unrhyw wrthdaro buddiannau posibl. Nid oedd ffigurau a ddarparwyd gan bedwar aelod NPM yn debyg i'r flwyddyn flaenorol.

### Atal sancsiynau

Gan fwrw ymlaen gyda rhwymedigaeth yr NPM i atal unrhyw gosb neu ragfarn o ganlyniad i gyswllt person neu sefydliad gyda'i fonitoriaid (OPCAT Erth. 21), gweithiodd aelodau'r NPM i ddatblygu polisïau a phrotocolau penodol:

- **Arweiniodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi** waith i ddrafftio protocol wedi'i anelu at atal cosbau rhag codi yn ystod arolygiadau dalfeydd yr heddlu **HMIC / Carchardai HMI** ar y cyd; bydd y protocol hwn yn cael ei gwblhau yn 2015-16;
- **Gweithiodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi** a **Chyngor Cenedlaethol IMB** gyda'r Ombwdsmon Carchardai a Phrawf i weithredu eu protocol 2013 ar atal sancsiynau mewn carchardai;
- **Dechreuodd ACEM** waith i ddatblygu polisi ar atal sancsiynau a dial;
- **Arweiniodd CJINI** y gwaith o ddatblygu protocol i atal sancsiynau a dial ar gyfer arolygiadau mewn carchardai gyda IMB Gogledd Iwerddon ac Ombwdsmon Carcharorion Gogledd Iwerddon, sydd i fod i gael ei gwblhau ym mis Mehefin 2015;
- **Datblygodd HMIPS brotocol ar atal sancsiynau a dial, ac fe wnaeth gynnwys y pwnc mewn hyfforddiant ar gyfer arolygwyr newydd.**

## Datblygiadau ar gyfer aelodau yn benodol

Adlewyrchodd yr **Arolygiaeth Gofal** ofynion OPCAT yn ei gynllun tair blynedd corfforaethol newydd, sy'n mynd ati i ddarparu arolygu cadarn, cefnogi polisi lleol a chenedlaethol, a chyfrannu at system gofal sy'n seiliedig ar hawliau yn yr Alban. Mae adolygiad ac ymgynghoriad ar ei methodoleg a'i dull wedi

95 Gweler: http://www.nationalpreventivemechanism.org.uk/publications-resources/.

cynnig mwy o gyfleoedd i integreiddio ei rôl NPM yn ei gwaith. Yn ystod y flwyddyn, gofynnwyd i'r Arolygiaeth Gofal arwain (gyda Gwella Iechyd yr Alban) ar ddatblygu Safonau Gofal Cenedlaethol yr Alban, fydd yn cael eu seilio ar hawliau dynol ac a fydd yn cyfeirio at waith yr NPM.

Mae ymdrechion pellach i ddatblygu materion penodol yn ymwneud â mandad yr NPM yn cynnwys y rhai i godi ymwybyddiaeth o gadw *de facto* a chamfanteisio rhywiol ar blant a'r angen am ymatebion wedi'u cydlynu ar draws y gwasanaethau. Mae'r Arolygiaeth Gofal wedi edrych hefyd ar sut y gallai ei harolygiadau o gartrefi gofal i oedolion ag anableddau dysgu ganolbwyntio'n well ar brofiadau a chanlyniadau pobl, a sut mae eu hawliau yn cael eu hyrwyddo a'u hamddiffyn.

Mae Cyngor Cenedlaethol y Byrddau Monitro Annibynnol wedi cynnwys rôl yr NPM o fewn ei gynllun datblygu, a bydd gweithgor hyfforddi a datblygu yn cynnwys gofynion yr NPM yn yr holl raglenni hyfforddiant perthnasol ar gyfer aelodau'r IMB. Mae fframwaith monitro cenedlaethol newydd yr IMBs yn cyfeirio at OPCAT ac yn darparu canllawiau i fyrddau monitro ynghylch sut y dylent fodloni ei ofynion.

Parhaodd Cymdeithas yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa (ICVA) i weithredu argymhellion a wnaed yn ystod datblygiad y safonau cenedlaethol. Mae gweithgor a gomisiynwyd i edrych ar y posibilrwydd o ffurflen adrodd ICV genedlaethol wedi cyhoeddi canllawiau i gynlluniau ynghylch isafswm yr wybodaeth a argymhellir y dylai ymweliadau â'r ddalfa geisio ei chasglu, a modiwlau hyfforddi.

Mae ICVA yn archwilio'r posibilrwydd o ailgyhoeddi ei safonau cenedlaethol bob dwy flynedd gyda'r Swyddfa Gartref, fel ffordd o sicrhau bod y safonau yn esblygu yn unol ag arferion lleol.

Mae ICVA wedi gofyn i adolygiad gael ei gynnal i sefydlu bod cynlluniau ymweld â'r ddalfa yn cydymffurfio gyda'r codau ymarfer a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref, o ganlyniad i bryderon am drefniadau llywodraethu rhai cynlluniau yn genedlaethol.

Ym mis Mehefin 2014, derbyniodd tîm gweithredol a bwrdd y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) bapur ar ddyletswyddau NPM y CQC, er mwyn sicrhau bod y rhain yn cael eu deall ar lefel uwch y sefydliad.

Ar ôl cynnig creu fforwm iechyd meddwl NPM i aelodau'r NPM, trefnodd CQC ddau gyfarfod cyntaf y fforwm a chytunodd i ymgymryd â rôl y cadeirydd.

Ym mis Mawrth 2015, cynhaliodd CQC weithdy NPM i staff sy'n gweithio o fewn timau polisi, arolygu a chydraddoldeb CQC yn ogystal ag aelodau'r NPM, lle cyflwynodd y Ganolfan Gweithredu Hawliau Dynol ym Mhrifysgol Bryste ei chanfyddiadau ar ymchwil cymharol yn adolygu mecanweithiau monitro rhyngwladol, a gomisiynwyd gan CQC yn 2013.

Dechreuodd Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC) a HMIPS raglen ar y cyd o ymweliadau carchar yn yr Alban. Cyflwynodd SHRC ddatganiad ar y cyd gyda Sefydliadau Hawliau Dynol Cenedlaethol Lloegr a Gogledd Iwerddon (NHRIs) i Gyngor Hawliau Dynol

96 Scottish Human Rights Commission (2015), *Joint statement on mental health detention to UN Human Rights Council* yn: http://www.scottishhumanrights.com/resources/policysubmissions/hrcdetmar15 (agorwyd 14/10/15).
97 The Scottish Government, *Mental Health Strategy for Scotland: 2012-15*. Yn: http://www.gov.scot/resource/0039/00398762.pdf (agorwyd 14/10/15).

y Cenhedloedd Unedig ar hawliau dynol pobl gyda phroblemau iechyd meddwl oedd yn cael eu cadw gan y wladwriaeth.[96] Gweithiodd SHRC hefyd gyda Llywodraeth yr Alban, y gymdeithas sifil ac HIMPS i weithredu'r system newydd ar gyfer monitro carchardai yn annibynnol. Gweithiodd SHRC a MWCS gyda'i gilydd i weithio ar ymrwymiad yn y strategaeth iechyd meddwl ar gyfer yr Alban i wella hawliau dynol mewn gofal iechyd meddwl, gan gynnwys ystyried ffyrdd o wella gwasanaethau iechyd meddwl mewn lleoedd cadw.[97]

Comisiynodd **Comisiynydd Plant Lloegr** (CCE) adolygiad tystiolaeth o lle mae plant yn cael eu lleoli mewn lleoedd cadw a lleoliadau gofal yn Lloegr, a'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddio /arolygu sy'n llywio eu lleoliad ym mhob lleoliad, i nodi unrhyw fylchau. Datblygodd CCE brosiect hefyd oedd yn edrych ar ynysu pobl yn y stad ddiogel ar gyfer plant a phobl ifanc, a chynhaliwyd ymarfer casglu data i fod yn sail i waith maes yn y flwyddyn ganlynol.

Fel rhan o'i swyddogaeth ymweld, gwnaeth CCE ymweliadau dirybudd i wyth sefydliad yn stad cadw'r plant, un ymweliad dirybudd â chartref plant diogel sy'n darparu llety ar gyfer llesiant yn unig, ac un ymweliad a gyhoeddwyd i uned cleifion mewnol iechyd meddwl diogel ar gyfer plant.

Parhaodd **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru** (AGGCC) i weithio mewn partneriaeth gyda chydweithwyr o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i fonitro, arolygu a gwella gweithrediad y modd y diogelir rhag colli rhyddid yng Nghymru. Cyflwynwyd hyfforddiant i arolygwyr presennol a rhai newydd i atgyfnerthu eu dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau wrth fonitro gweithrediad y mesurau diogelu, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ymwybyddiaeth o gadw *de facto*. Gwahoddwyd AGGCC i ymuno â'r 'Grŵp Arweinyddiaeth' a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i ystyried goblygiadau dyfarniad Gorllewin Swydd Gaer. Mae AGGCC yn gweithio i dynnu sylw at bwysigrwydd rôl NPM yn y grŵp hwn, yn ogystal ag yn fwy cyffredinol drwy gyfathrebu mewnol ac allanol.

Datblygodd AGGCC fframweithiau arolygu newydd ar gyfer ei arolygiadau o wasanaethau rheoledig a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae'r rhain yn cynnwys fframweithiau ynghylch barn am ansawdd ac maent yn canolbwyntio ar asesiad o effeithiolrwydd gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol wrth gefnogi canlyniadau da i bobl. Maent yn cynnwys rhoi ystyriaeth benodol i'r graddau y mae'r gofal a'r cymorth a ddarperir yn helpu i sicrhau hawliau i bobl.

Diwygiodd **Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar gyfer yr Alban** (HMIPS) y safonau yr oedd wedi eu defnyddio ar gyfer ei harolygiadau ers 2006, a oedd yn ystyried nad oeddent bellach yn adlewyrchu gofynion arolygiadau carchar yn ddigonol. Ymgynghorwyd ag ymarferwyr (gan gynnwys aelodau eraill y NPM), academyddion ac eraill sydd â diddordeb mewn hawliau dynol a sut mae carchardai yn cael eu rhedeg, a chyhoeddwyd y safonau newydd ym mis Mawrth.[98] Mae'r safonau yn rhoi mwy o bwyslais ar ymgysylltu carcharorion â'r broses o wneud penderfyniadau, gwella'r modd y gwerthusir eglurder pwrpas a blaenoriaethau'r carchar, ac asesu perthnasoedd o fewn y carchar a chydag asiantaethau a chymunedau allanol, ac maent yn cynnwys dangosyddion hawliau dynol penodol.

**98** HM Inspectorate of Prisons for Scotland (2015), *Standards for inspecting and monitoring prisons in Scotland*, at: http://www.gov.scot/Publications/2015/03/8256/0 (agorwyd 14/10/15).

Rhoddodd deddfwriaeth newydd gyfrifoldeb i HMIPS am fonitro carchardai yn yr Alban (rôl a gyflawnwyd yn flaenorol gan Bwyllgorau Ymweld), a gwnaeth HMIPS baratoadau ar gyfer gweithredu'r rôl hon (o fis Medi 2015) drwy recriwtio Monitoriaid Carchar Annibynnol gwirfoddol.

Yn ystod y flwyddyn, dechreuodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn yr Alban (HMICS) ar raglen arolygu newydd, a fydd yn cyfrannu at y gwaith o weithredu OPCAT yn nalfeydd yr heddlu yn yr Alban. Roedd hyn yn dilyn arolygiad thematig o drefniadau yn nalfeydd yr heddlu yn yr Alban yn 2014. Bydd y rhaglen arolygu newydd, 'Plismona Lleol+', yn gweld HMICS yn arolygu plismona ym mhob un o'r 14 o ardaloedd tiriogaethol Heddlu'r Alban, gydag arolygiadau o ryw dair adran, a holl ganolfannau dalfa o'u mewn, bob blwyddyn. Cynhaliwyd yr arolygiad plismona lleol cyntaf i gynnwys canolfannau dalfa yn Aberdeen ym mis Mawrth 2015. Bydd y rhaglen dreigl yn sicrhau bod HMICS yn arolygu pob canolfan dalfa yn yr Alban, fel sy'n ofynnol gan OPCAT, ac yn monitro cynnydd a, lle bo'n briodol, yn cyflawni argymhellion o'i arolygiad thematig o ddalfeydd a wnaed yn 2014.

Mae HMICS wedi ymrwymo hefyd i sicrhau nad yw ei dîm arolygu dalfeydd yn cynnwys unrhyw swyddogion yr heddlu sydd ar secondiad i'r sefydliad. Enwebodd HMICS aelod staff unigol o gefndir heb fod yn ymwneud â phlismona i arwain ar faterion y ddalfa fel gwarant pellach o annibyniaeth. Cyhoeddwyd gwybodaeth am y camau a gymerwyd ar wefan HMICS.

Parhaodd Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban (MWCS) â'i raglen o ymweliadau â thema genedlaethol yn 2014-15. Yn ystod ei ymweliadau i fonitro'r defnydd o arsylwi gwell mewn wardiau derbyn acíwt i oedolion, ystyriodd yr MWCS a oedd materion amddifadu pobl o'u rhyddid a'r posibilrwydd o gadw *de facto* yn cael eu hystyried yn ymarferol.[99]

Dechreuodd yr MWCS gynnwys ei ffocws ar faterion thematig yr NPM i mewn i waith ymweld. Dechreuodd ymweliadau i'r holl unedau gofal dwys seiciatrig, a byddant yn cynnwys ffocws ar arferion cyfyngol, ac yn benodol y defnydd o ataliaeth ac arwahanu. Mae ymweliadau â'r holl unedau asesu anabledd dysgu yn cael eu cynllunio hefyd ac, unwaith eto, bydd gwybodaeth benodol yn cael ei chasglu am gyfyngiadau/offer atal a'r defnydd o arwahanu, neu arferion eraill sy'n ynysu unigolion.

Yn adroddiad diwethaf yr NPM, adroddodd yr MWCS ei fod wedi adolygu'r modd y gweithredir cyfyngiadau mewn ysbytai, y gellir ei awdurdodi o dan gyfraith iechyd meddwl mewn perthynas â gohebiaeth, y defnydd o ffonau, a mesurau diogelwch penodol. I ddilyn hyn, cyhoeddodd MWCS ganllawiau wedi'u diwygio a'u diweddaru ar egwyddorion ac arfer gorau wrth weithredu cyfyngiadau penodol.[100]

Mae'r MWCS yn ymweld â nifer sylweddol o bobl bob blwyddyn sy'n destun gorchmynion gwarcheidiaeth o dan ddeddfwriaeth analluogrwydd, ac eleni dechreuodd sgrinio'n systematig yr holl geisiadau a gorchmynion a roddwyd i nodi materion a allent fod yn ymwneud ag amddifadu pobl o'u rhyddid, a sicrhau bod ymweliadau yn targedu pobl y gallai eu gofal a'u cymorth godi materion ynghylch colli rhyddid.

**99** Mental Welfare Commission for Scotland (2015), *Visiting and monitoring report: Enhanced observation 2014/15.*
**100** Mental Welfare Commission for Scotland (2015), *Specified persons guidance: Principles and best practice in implementing specified persons regulations under the Mental Health (Care and Treatment) (Scotland) Act 20013.*

Dechreuodd yr MWCS ar waith i ddatblygu llwybr gofal ar gyfer hawliau'r claf, er mwyn nodi sut y gall pobl gael gwybodaeth am eu hawliau ar adegau allweddol yn eu gofal.

Parhaodd **Ymwelwyr â Dalfeydd Annibynnol yr Alban** (ICVS) i ddosbarthu deunyddiau'r NPM a darparu hyfforddiant ar gyfrifoldebau'r NPM fel rhan o'i raglen hyfforddi ar gyfer gwirfoddolwyr presennol a newydd; ymunodd 32 o ymwelwyr â dalfeydd y cynllun yn ystod y flwyddyn. Cynhyrchwyd cod ymarfer yr Alban ar gyfer ymweld â dalfeydd yn annibynnol a chafodd ei gadarnhau gan Lywodraeth yr Alban, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Bwrdd Awdurdod Heddlu yn yr Alban.

Cyhoeddodd **Arolygiad Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon** (CJINI) adroddiad ar ei arolygiad o Garchar Magilligan (Chwefror 2015) yn ogystal ag adroddiadau thematig ar ddiogelwch carcharorion a gedwir gan Wasanaeth Carchardai Gogledd Iwerddon (Hydref 2014), ac adolygiad dilynol o drefniadau hebrwng carcharorion a dalfeydd y llys (Ebrill 2014). Cynhaliwyd gwaith maes arolygu yn y Ganolfan Cyfiawnder Ieuenctid.[101]

Cyflwynodd **Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon** (NIPBICVS) weithgareddau hyfforddi a datblygu i annog a hyrwyddo gwelliant parhaus ar y cynllun, gan gynnwys hyfforddiant ynghylch oedolion agored i niwed a chydraddoldeb ac amrywiaeth. Ymunodd pump newydd o ymwelwyr â dalfeydd yn Awst 2014.

Datblygodd a chyhoeddodd **Ofsted** (Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau) fframwaith diwygiedig ar gyfer cartrefi plant yn ystod 2014-15. Mae'r fethodoleg ar gyfer arolygu cartrefi plant diogel Lloegr (SCHs) yn cael ei ymgorffori o fewn y fframwaith ehangach hwn, gan ei gwneud yn glir bod sefydliadau o'r fath yn gartrefi i blant yn bennaf, beth bynnag yw eu natur ddiogel. Mae'r fframwaith yn cynnwys canllawiau cryfach ynghylch arolygiadau o gartrefi diogel i blant ac, yn benodol, canllawiau ar werthusiad yr arolygwyr o'r defnydd o ataliaeth a gwahanu sengl, yn unol ag un o flaenoriaethau allweddol yr NPM. Mae'r fframwaith yn awr yn cyfeirio at ei gysylltiadau niferus ag OPCAT yn fwy penodol.

Mae parch tuag at hawliau plant yn ganolog i'r fframwaith, sy'n gosod y meincnod 'da' fel y safon isaf o ofal a chymorth sy'n dderbyniol i blant a phobl ifanc, lle bynnag maent yn byw.

Cytunwyd y dylai fframwaith diwygiedig egluro'n gliriach bod barnau arolygwyr ynghylch yr STCs yn cael eu seilio ar werthoedd ac egwyddorion OPCAT. Roedd angen mwy o eglurder ynghylch y modd y mae arolygiadau yn archwilio'r defnydd o wahanu pobl ar eu pen eu hunain ac ataliad.[102]

Rhwng Ebrill 2014 a mis Mawrth 2015, cyhoeddodd **Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi** (Cymru a Lloegr) (Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi) 94 o adroddiadau arolygu, gan gynnwys adroddiadau ar 49 o garchardai i oedolion, naw o sefydliadau

**101** Adroddiad i'w gyhoeddi yn 2015.
**102** Ymgynghorwyd yn eang ers hynny ar y cynigion ar gyfer newid a chyhoeddwyd y fframwaith newydd ym mis Gorffennaf 2015. Gweler: https://www.gov.uk/government/publications/inspecting-secure-training-centres-framework (agorwyd 14/10/15).
**103** United Nations General Assembly, *United Nations Rules for the Treatment of Women Prisoners and Non-Custodial Measures for Women Offenders* (the Bangkok Rules), A/C.3/65/L.5., 6 October 2010.

diogel i blant, cyfleusterau dalfeydd 10 o heddluoedd a thri chyfleuster cadw mewnfudwyr. Fe wnaeth hefyd gynhyrchu ymchwil thematig ar drosglwyddiadau a hebryngwyr yn y system cyfiawnder troseddol, ac adolygiad o fethiannau o ran rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL).

Yn unol ag arweiniad yr NPM, cwtogodd Arolygiaeth Carchardai EM ar nifer y staff ar secondiad o naw yn 2013-14 i saith yn 2014-15. Fe wnaeth y canfyddiadau o hunanasesiad yr NPM fwydo'n uniongyrchol i gynllun corfforaethol y sefydliad, gyda'r holl feysydd oedd wedi eu nodi fel rhai oedd yn 'cydymffurfio'n rhannol' neu 'ddim yn cydymffurfio ar hyn o bryd' wedi eu cynnwys fel pwyntiau gweithredu. Cyhoeddodd Arolygiaeth Carchardai EM ei hymateb hunanasesu ar ei gwefan.

Ym mis Mehefin 2014, ar ôl ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid, cyhoeddodd Arolygiaeth Carchardai EM *Expectations: Criteria for assessing the treatment of and conditions for women in prison*, sy'n tynnu oddi ar Reolau Bangkok y Cenhedloedd Unedig ar drin merched sydd wedi troseddu.[103] Mae Arolygiaeth Carchardai EM yn adolygu ei *Ddisgwyliadau* o ran dalfeydd yr heddlu, dalfeydd y llys a mewnfudo, a drafftiodd *Ddisgwyliadau* newydd ar gyfer y system canolfannau goruchwyliaeth agos (CSC), ar sail dadansoddiad o safonau hawliau dynol perthnasol. Cafodd y *Disgwyliadau* hyn eu treialu yn ystod arolygiad o CSCs ym mis Mawrth 2015 - arolygiad cyntaf Arolygiaeth Carchardai EM o'r system yn ei chyfanrwydd. Maent yn cael eu diwygio yng ngoleuni'r arolwg a byddant yn cael eu cyhoeddi yn 2015-16.

Cynhaliodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (Cymru a Lloegr) (HMIC) arolygiad thematig, a gomisiynwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref, gan ganolbwyntio ar lesiant pobl sy'n agored i niwed yn nalfeydd yr heddlu. Roedd cwmpas yr arolygiad hwn yn cynnwys y penderfyniad i arestio, dewisiadau eraill i arestio a gafodd eu hystyried a /neu oedd ar gael, a thrin carcharorion cyn iddynt gyrraedd dalfa'r heddlu. Canfu'r adroddiad thematig, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015, y gallai dalfa ar gyfer pobl sy'n agored i niwed fod wedi cael ei osgoi mewn llawer o achosion pe bai dewisiadau eraill wedi cael eu harchwilio. Arweiniodd diffyg trefniadau llety neu ofal iechyd addas arall at bobl â phroblemau iechyd meddwl a phlant yn treulio cyfnodau hir yn y ddalfa. Roedd gan ddarpariaeth yn nalfa'r heddlu rôl sylweddol fel rhan o'r system iechyd a gofal cymdeithasol. Canfu'r adroddiad hefyd fod pobl o grwpiau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu gorgynrychioli ymhlith nifer y bobl oedd yn cael eu cadw.[104] Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion, ac mae grŵp cenedlaethol sy'n cael ei gadeirio gan y Swyddfa Gartref bellach yn goruchwylio'r modd maent yn gweithredu.

Cynhaliodd HMIC 11 o arolygiadau o ddalfeydd yr heddlu ar y cyd ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn ystod y flwyddyn. Gan ddefnyddio hunanasesiad yr NPM, gan ddysgu oddi wrth yr arolygiad thematig ar bobl agored i niwed a ffynonellau eraill, nododd HMIC a Charchardai AEM nifer o feysydd ar gyfer gwella, sy'n cael eu datblygu mewn rhaglen newid i'w chyflwyno yn y flwyddyn adrodd nesaf. Bydd hyn yn cymryd ymagwedd fwy cadarn ac effeithiol at ofynion arolygu a OPCAT

**104** HM Inspectorate of Constabulary (2015), *op. cit.*

Yn 2014-15, cyflwynodd HMIC ddull newydd o gynnal ei arolygiadau o'r gwasanaeth heddlu - 'PEEL' (effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu). Mae'r rhaglen hon yn cael ei datblygu i ddarparu asesiad cyflawn o bob agwedd ar yr hyn y mae heddluoedd yn ei wneud, gan ddefnyddio meini prawf sy'n ei gwneud yn bosibl i ddyfarniadau graddedig gael eu gwneud. Gallai rhaglen PEEL fod â goblygiadau ar gyfer y ffordd y mae HMIC yn ymdrin ag arolygiadau o ddalfeydd, ac mae hyn yn cael sylw yng nghwmpas y rhaglen newid ar gyfer arolygu dalfeydd y cyfeirir ati uchod.

Fe wnaeth yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (RQIA) fonitro bron i 11,000 o ffurflenni a dderbyniwyd gan ymddiriedolaethau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sefydlu pa mor briodol yw gorchmynion cadw a gwarcheidiaeth a chynlluniau triniaeth, gan gynghori ymddiriedolaethau i ymdrin ag unrhyw bryderon a nododd. Yn ystod y flwyddyn, nododd a hysbysodd RQIA yr ymddiriedolaethau am 29 o wallau /hepgoriadau a arweiniodd at gadw carcharorion yn amhriodol.

Cynhaliodd RQIA 66 o archwiliadau sylfaenol ar wardiau iechyd meddwl ac anableddau dysgu fel rhan o raglen a gynlluniwyd ac mewn ymateb i bryderon a godwyd trwy gwynion ac achosion o chwythu'r chwiban. Canolbwyntiodd arolygiadau ar thema ymreolaeth. Cyflwynwyd aseswyr lleyg i'r broses arolygu yn ogystal â holiaduron cleifion hawdd eu darllen ac offer arsylwi. Cynhaliwyd 66 o arolygiadau pellach yn ymwneud â phrofiad cleifion i gwrdd â chleifion ac i gynnig cyfweliadau iddynt mewn wardiau iechyd meddwl, gan gynnwys wardiau i bobl â dementia, wardiau iechyd meddwl plant a phobl ifanc ac i gleifion mewn wardiau anableddau dysgu.

Roedd mwy na 75% o wardiau yn cydymffurfio neu yn cydymffurfio'n sylweddol â disgwyliadau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch therapiwtig a hamdden, gwybodaeth am hawliau a chynllunio rhyddhau. Dangosodd canfyddiadau'r arolygiad lefelau is o gydymffurfiaeth o ran gallu a chydsynio, asesiad a rheolaeth unigol ar angen a risg, a chyfyngu a colli rhyddid.

Hefyd, cynhaliodd RQIA arolygiadau ar y cyd o Garchar Magilligan, Canolfan Cyfiawnder Ieuenctid Woodlands ac ymweliadau monitro mewn perthynas â gwaith y Tîm Adolygu Carchardai.

## Is-grwpiau'r NPM

### Is-grŵp plant a phobl ifanc yr NPM

xParhaodd yr is-grŵp plant a phobl ifanc, a gynhelir gan CCE, i gwrdd yn chwarterol fel fforwm ar gyfer cydlynu camau gweithredu a rhannu cudd-wybodaeth a gwybodaeth am faterion yn ymwneud â gwaith aelodau'r NPM ynghylch plant yn y ddalfa ar draws y DU.

Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd yr is-grŵp ar gadw *de facto* (gan drafod bylchau posibl a gorgyffwrdd yn y drefn arolygu ar draws lleoliadau, y fframwaith cyfreithiol gwahanol ar gyfer plant, y posibilrwydd ei fod yn codi mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai cadw), pobl sy'n agored i niwed yn nalfeydd yr heddlu (yn seiliedig ar ganfyddiadau o arolygiad thematig a arweiniwyd gan HMIC), carcharu pobl ar eu pen eu hunain a'u hynysu, y fframwaith newydd arfaethedig ar gyfer arolygiadau Ofsted / Arolygiaeth Carchardai EM arolygiadau o ganolfannau hyfforddi diogel (STCs), a chanlyniadau arolwg Arolygiaeth Carchardai EM/ y BCI (YJB) o bobl ifanc yn y ddalfa.

Yn dilyn gwerthusiad o'r is-grŵp plant a phobl ifanc yn 2014, argymhellwyd y dylai ganolbwyntio ar gytuno ar bwyntiau gweithredu lle gellir ychwanegu gwerth, yn ogystal â gwaith ar y cyd ar y materion blaenoriaeth strategol a gytunwyd gan yr NPM yn ei gyfanrwydd, gyda chyfeiriad penodol at blant.

**Is-grŵp NPM yr Alban**
Cynhaliwyd cyfarfodydd cyntaf is-grŵp yr Alban yn Hydref 2014 a mis Chwefror 2015, a gwahoddwyd un o Gyfarwyddwyr Llywodraeth yr Alban i fod yn bresennol ym mhob un. Cynhaliodd aelodau'r is-grŵp adolygiadau cymheiriaid o hunanasesiadau NPM ei gilydd. Mae cynlluniau ar gyfer gwaith yr is-grŵp yn 2015-16 yn cynnwys cynyddu effaith gwaith yr NPM yn yr Alban.

**Rhwydwaith iechyd meddwl yr NPM**
Canolbwyntiodd dau gyfarfod cyntaf y rhwydwaith iechyd meddwl ar y ffyrdd y bydd ei aelodau yn gweithio gyda'i gilydd, a sefydlodd bwrpas clir a set o amcanion cyffredin ar gyfer y gr^p. Bydd y grŵp yn cydlynu agweddau, yn galluogi adolygiadau cymheiriaid ac yn rhannu adnoddau ar gyfer ymchwil, hyfforddiant a datblygiad. Ym mis Mawrth 2015, mynychodd aelodau'r rhwydwaith iechyd meddwl weithdy hawliau dynol a alwyd ynghyd gan CQC, a buont yn trafod ymchwil ar y strategaeth a'r arferion ar gyfer cadw lleoliadau cadw iechyd meddwl o dan arolwg.

## Cydweithio rhwng aelodau'r NPM

Datblygodd trefniadau cydweithio aelodau NPM yr Alban yn ystod y flwyddyn, gyda'r Arolygiaeth Gofal yn ymuno â HMIPS ar ei arolygiad o Garchardai Ei Mawrhydi Glenochil, Greenock a Perth. Ymunodd Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban ag arolygiad HMIPS o CEM Glenochil, gan ddefnyddio safonau arolygu newydd HMIPS. Mae'r MWCS a HMIPS wedi dechrau gweithio i gydlynu ymweliadau carchar gan y ddau sefydliad, ac mae SHRC a MWCS wedi bod yn gweithio i symud ymlaen gydag Ymrwymiad 5 y Strategaeth Iechyd Meddwl ar gyfer yr Alban,[105] gyda Llywodraeth yr Alban.

Nododd adroddiad ar y cyd gan MWCS a'r Arolygiaeth Gofal ar anghenion iechyd meddwl pobl ifanc mewn gofal diogel nifer o feysydd ar gyfer gwella, gan gynnwys ynghylch trefniadau trosglwyddo ar gyfer pobl ifanc sy'n symud i mewn ac allan o ofal diogel.[106] Yn dilyn hyn, bwriedir cyflawni mwy o waith ar y cyd mewn lleoliadau gofal diogel hefyd.

Gweithiodd Ofsted yn agos gydag arolygiaethau partner Arolygiaeth Carchardai EM a CQC, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill, i ddatblygu ei fframwaith diwygiedig ar gyfer arolygu canolfannau hyfforddi diogel (STCs), sy'n cael eu comisiynu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

Gweithiodd HMIC ac Arolygiaeth Carchardai EM i ddatblygu *Disgwyliadau* (meini prawf

**105** The Scottish Government, *Mental Health Strategy for Scotland: 2012-15*.
**106** Mental Welfare Commission for Scotland, *Visiting and monitoring report: Visits to young people in secure care settings* yn: http://www.mwcscot.org.uk/media/203241/visits_to_young_people_in_secure_care_settings_final.pdf (agorwyd 14/10/15).
**107** Gweler: http://www.gov.scot/Resource/0046/00469698.pdf (agorwyd 14/10/15).
**108** Gweler: http://hub.careinspectorate.com/media/200552/care-inspectorate-response-to-fai-consultation-september-2014.pdf (agorwyd 14/10/15).
**109** Gweler: https://www.scottish.parliament.uk/S4_PublicPetitionsCommittee/General%20Documents/PE1548_E_Care_Inspectorate_20.04.15.pdf (agorwyd 14/10/15).

asesu) diwygiedig ar gyfer y rhaglen ar y cyd o arolygiadau dalfeydd. Mae'r ddogfen, a fydd yn cael ei chyhoeddi yn y flwyddyn adrodd nesaf, wedi cael ei hymestyn i gynnwys trin carcharorion o'r pwynt cyswllt cyntaf gyda'r heddlu ac mae'n rhoi ffocws cryfach ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac arweinyddiaeth ac atebolrwydd.

Ar hyn o bryd mae ICVA yn gweithio gyda'r Arsylwyr Lleyg yn genedlaethol i gynhyrchu protocolau a fydd yn diogelu hawliau pobl a gafodd eu trin gan gynlluniau peilot yn ymwneud â 'llys rhithwir'. Mae trafodaethau wedi cynnwys trefniadau monitro penodol gan y sefydliadau ar wahân, a dosbarthu taflen noson gyntaf i garcharorion sydd wedi derbyn dedfryd o garchar.

## Cyflwyno cynigion a sylwadau ar ddeddfwriaeth (Erthygl 19c OPCAT)

Ar draws yr NPM, cyflwynodd aelodau sylwadau a bu iddynt ymateb i ymgynghoriadau ar ddeddfwriaeth a pholisi drafft, fel rhan o'i gylch gwaith i gryfhau amddiffyniadau y rhai a gedwir yn y ddalfa. Mae rhai o'r prif ymgynghoriadau polisi a phrosesau deddfwriaethol y mae aelodau'r NPM wedi cyflwyno cynigion ac arsylwadau yn eu cylch yn cynnwys y canlynol.

- Ymatebodd yr **Arolygiaeth Gofal** i ymgynghoriadau Llywodraeth yr Alban ar gynigion am dramgwydd o esgeulustod neu gam-drin bwriadol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol,[107] i ddiwygio deddfwriaeth ymchwiliadau damweiniau angheuol,[108] ac i alwad y Pwyllgor Deisebau Cyhoeddus am dystiolaeth ar ganllawiau cenedlaethol ar ataliaeth ac arwahanu mewn ysgolion.[109]
- Rhoddodd yr **IMBs** dystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder i garchardai: polisi a chynllunio, Adolygiad Harris i farwolaethau yn y ddalfa, a'r adolygiad i lesiant pobl agored i niwed yn y ddalfa.
- Mae gan **CQC** rôl statudol o ran darparu cynigion i'r llywodraeth ar gynnwys Cod Ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddyliol ac yn 2014 rhoddodd gyflwyniad manwl i adolygiad o'r Cod. Cafodd llawer o awgrymiadau'r CQC a sylwadau dilynol, yn cynnwys y rhai sy'n deillio o'i weithgareddau monitro, eu derbyn ac mae'r Cod wedi cryfhau ei gyngor ar atal, arwahanu, cynnwys cleifion mewn penderfyniadau am eu gofal, ac (am y tro cyntaf) osgoi 'cyfyngiadau cyffredinol' ar ryddid a hawliau. Mae'r Cod diwygiedig yn disgrifio am y tro cyntaf hefyd rôl CQC yn yr NPM. Bydd CQC yn monitro'r modd y gweithredir y Cod hwn yn ei waith ymweld ar gyfer NPM.[110]
- Cyflwynodd **CCE** sawl sesiwn briffio yn ystod hynt y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd drwy'r senedd. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar y coleg diogel arfaethedig, gan gynnwys y bwriad i gadw merched, a bechgyn dan 15 o'i fewn. Ymatebodd CCE hefyd i ymgynghoriad y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gynigion ar gyfer rheolau'r coleg diogel, gan godi pryderon yn arbennig am ddefnyddio grym.
- Gweithiodd **AGGCC** gyda Llywodraeth Cymru i hysbysu a dylanwadu ar ffurf y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).
- Cyflwynodd **HMIPS** dystiolaeth i Bwyllgor Cyfiawnder Senedd yr Alban ar Orchymyn Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus

**110** Gweler: https://www.cqc.org.uk/sites/default/files/20140911_mental_health_act_code_of_practice_detailed_consultation_return_1.pdf (agorwyd 14/10/15).
**111** Gweler: http://www.scottish.parliament.uk/parliamentarybusiness/report.aspx?r=9665 (agorwyd 14/10/15).

(Arolygu a Monitro Carchardai) (Yr Alban) 2015. Rhoddodd HMCIPS dystiolaeth yn bersonol i Bwyllgor Cyfiawnder Senedd yr Alban ar 2 Rhagfyr 2014.[111]

- Cymerodd yr **MWCS** rôl weithredol wrth ymateb i ddeddfwriaeth ddrafft, gan amlygu pryderon yn arbennig ynghylch Bil Iechyd Meddwl yr Alban. Cyflwynodd MWCS ddiwygiadau i herio rhai agweddau ar y Bil, yn enwedig yr amserlenni ar gyfer adolygu cyfnod cadw, ac i gryfhau hawl mynediad at eiriolaeth annibynnol.
- Rhoddodd **ICVS** a **HMICS** dystiolaeth am gynnydd a statws y cynllun ymweld â dalfeydd yn yr Alban i Is-bwyllgor Cyfiawnder Senedd yr Alban ym mis Hydref 2014.
- Yn ogystal â rhoi sylwadau ar nifer o Gyfarwyddiadau drafft y Gwasanaeth Carchardai a Gorchmynion Gwasanaethau Cadw drafft drwy gydol y flwyddyn, rhoddodd **Arolygiaeth Carchardai EM** dystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Weinyddiaeth Gyhoeddus ar atebolrwydd cwangos a chyrff cyhoeddus (Ebrill 2014), ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig ar garchardai Cymru a throseddwyr (Mehefin 2014), yr adolygiad annibynnol i farwolaethau hunanachosedig yn nalfeydd Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol (NOMS) i rai 18-24 oed, Adolygiad Harris (Gorffennaf 2014), yr ymchwiliad seneddol i'r defnydd o ddalfeydd mewnfudo yn y DU, a gynhaliwyd gan y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Ffoaduriaid a'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Ymfudo (Hydref 2014), ymchwiliadau Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i sylweddau seicoweithredol newydd (Hydref 2014) a chamddefnyddio sylweddau ac alcohol (Ionawr 2015), ac ymgynghoriad y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gynlluniau ar gyfer rheolau i'r coleg diogel (Rhagfyr 2014).

## Cydweithio rhyngwladol

Cyfarfu sawl aelod o'r NPM gyda Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Drais yn erbyn Menywod a Merched, Rashida Manjoo, yn ystod ei hymweliad swyddogol i'r DU ym mis Ebrill 2013. Fe wnaeth adroddiad ar yr ymweliad, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2014, nodi pryderon y Rapporteur Arbennig am y cynnydd o ran merched mewn carchardai, a'r gorgynrychiolaeth o fenywod duon a lleiafrifoedd ethnig mewn carchardai a dalfeydd mewnfudwyr, yn ogystal â'r ffaith bod carcharorion benywaidd yn fwy tebygol o hunan-niweidio dro ar ôl tro. Mynegodd ofid y gwrthodwyd mynediad iddi i IRC Yarl's Wood, er gwaethaf ceisiadau dro ar ôl tro o ddechrau ei hymweliad. Ymhlith ei hargymhellion, galwodd am weithrediad llawn yr argymhellion o adroddiad Corston 2007 ar ferched gyda gwendidau penodol yn y system cyfiawnder troseddol, yn ogystal ag archwiliad annibynnol i honiadau o gam-drin yn erbyn carcharorion benywaidd yn Yarl's Wood ac i sicrhau bod yr holl gwynion yn cael eu hymchwilio'n drylwyr a bod y rhai a honnir sydd wedi cyflawni'r troseddau yn cael eu dal i gyfrif.[112]

Derbyniodd aelodau NPM y DU ymweliadau gan nifer o ddirprwyaethau oedd â diddordeb yn eu profiad o fonitro cadw annibynnol.

**112** United Nations General Assembly (2015), *Report of the Special Rapporteur on Violence against Women, Mission to the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland*, A/HRC/29/27/Add.2, 19 Mai 2015.
**113** Gweler: http://www.apt.ch/en/2014-children-s-vulnerabilities-in-detention/ for more information (agorwyd 14/10/15).
**114** Ludwig Boltzmann Institute and University of Bristol (2015), *Enhancing impact of NPMs: Strengthening the follow-up on NPM recommendations in the EU*. Yn: http://www.bristol.ac.uk/media-library/sites/law/hric/2015-documents/NPM%20Study_final.pdf (agorwyd 14/10/15).

Croesawodd yr IMBs ddirprwyaethau o Kosovo a Rwsia, a chyfarfu dirprwyaeth o Georgia yr IMBs, CQC ac Arolygiaeth Carchardai EM. Cafodd Arolygiaeth Carchardai EM ymweliadau o Awstralia, Georgia, Ghana, India, Kenya, Libya, yr Iseldiroedd, Norwy, Sbaen, y Swistir, Twrci a Turkmenistan. Rhoddodd staff Arolygiaeth Carchardai EM hyfforddiant i gynorthwyo neu ddatblygu sefydliadau arolygu a monitro lleol yn Bahrain, Bosnia-Herzegovina, Japan, Libanus a Moroco, gan ariannu ei holl waith rhyngwladol ar wahân i'w fusnes craidd sef arolygu domestig. Rhannodd CQC brofiadau o NPM y DU yn yr Wcrain, mewn cynhadledd ranbarthol (Balcanau Gorllewinol) yn Kosovo ac yn Shanghai (er nad yw Tsieina yn un o lofnodwyr OPCAT, y mae ei deddfwriaeth iechyd meddwl newydd yn darparu ar gyfer monitro ymweliadau ag ysbytai). Trefnodd CQC ymweliad hefyd gan y clinigydd oedd yn gyfrifol am ddiwygio cyfreithiol y gyfraith iechyd meddwl yn Brunei Darussalam.

Gwahoddwyd NPM y DU i gyfarfodydd rhyngwladol sy'n canolbwyntio ar gadw a monitro. Siaradodd CCE ynghylch monitro lleoedd cadw yng Nghyngres y Byd ar Gyfiawnder Ieuenctid (Ionawr 2015) ac ar blant mewn gwrthdaro â'r gyfraith wedi eu hamddifadu o'u rhyddid mewn symposiwm arbenigol a drefnwyd gan y Gymdeithas er Atal Arteithio (Gorffennaf 2014).[113] Mynychodd Arolygiaeth Carchardai EM a HMIPS gynhadledd 25 mlynedd y CPT yng Nghyngor Ewrop yn Strasbourg, Ffrainc ym mis Mawrth 2015.

Rhoddodd aelodau'r NPM fewnbwn manwl i brosiect a arweiniwyd gan Sefydliad Hawliau Dynol Ludwig Boltzmann a Chanolfan Gweithredu Hawliau Dynol Prifysgol Bryste ar 'Gryfhau'r gweithredu effeithiol a dilyn i fyny argymhellion yr NPM'.[114]

Mynychodd cydlynydd yr NPM a HMIC gyfarfod o NPMs ym mis Ebrill 2014 i baratoi mewnbwn ar gyfer cyfarfod dimensiwn hawliau dynol atodol y Sefydliad ar gyfer Diogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop (OSCE) lle roedd mater atal arteithio wedi cael ei roi ar yr agenda o dan lywyddiaeth Swistir o'r OSCE. Cefnogodd NPM y DU y gwaith o ddrafftio argymhellion i wladwriaethau OSCE eu bod yn cymryd camau i gryfhau annibyniaeth a phwerau NPMs a mesurau eraill sy'n anelu at atal arteithio (gweler Atodiad IV).

## Hunanasesiad yr NPM

Ym mis Tachwedd 2013, argymhellodd SPT y Cenhedloedd Unedig i NPM y DU ei fod yn defnyddio ei 'offeryn dadansoddi hunan-asesu ar gyfer NPMs' i archwilio ei effeithiolrwydd a'i effeithlonrwydd. Ers hynny, mae NPM y DU wedi datblygu ei fethodoleg ei hun ar gyfer cymhwyso offeryn yr APS ar draws yr NPM sy'n gorff o 20.[115] Yn y flwyddyn adrodd hon, cynhaliodd aelodau'r NPM eu hail hunanasesiad, a bu i aelodau wneud adolygiad cymheiriaid o'u hymatebion fel ffordd o gryfhau'r broses ac annog dysgu ar draws yr NPM. Gwahoddwyd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ymateb i gwestiynau yn ymwneud â rôl y llywodraeth a chyfansoddiad yr NPM.

Bydd canfyddiadau'r ail hunanasesiad hwn yn bwydo i mewn i ymdrechion yr aelodau eu hunain i gryfhau eu cydymffurfiad ag OPCAT, yn ogystal â rhoi sail i gynllunio busnes yr NPM.


115 Gellir gweld holiadur hunanasesu NPM y DU yn Atodiad 8 y Pumed Adroddiad Blynyddol yn: http://www.nationalpreventivemechanism.org.uk/wp-content/uploads/2015/05/NPM-5th-Annual-Report-2013-14.pdf. Mae'r fethodoleg hunanasesu ar gael yn: http://www.nationalpreventivemechanism.org.uk/wp-content/uploads/2015/08/UK-NPM-self-assessment-write-up.pdf.

**Canfyddiadau cyffredinol**
Ymatebodd pob un o 20 aelod NPM i'r holiadur hunanasesu, ac roedd yr ymatebion gan 17 ohonynt wedi gael eu hadolygu gan gymheiriaid - yn bennaf gan aelodau eraill yr NPM.

Roedd canfyddiadau cyffredinol yn fwy cadarnhaol eleni, gydag aelodau yn adrodd am gydymffurfio'n llawn â 83% o'r cwestiynau hunanasesu, sef cynnydd o 4%. Gostyngodd diffyg cydymffurfio o 4% i 2%.

Dadansoddwyd yr ymatebion i'r cwestiynau hunanasesu yn unol â'r tri o bwerau sylfaenol yr NPM a gyflwynir yn Erthygl 19 OPCAT, er mwyn: (a) archwilio'r driniaeth a roddir i rai sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid; (b) gwneud argymhellion gyda'r nod o wella eu triniaeth a'u hamodau; a (c) cyflwyno sylwadau ar ddeddfwriaeth bresennol a drafft. Mae'r tabl isod yn dangos y cydymffurfiaeth a adroddodd aelodau'r NPM gyda phob un o'r pwerau hyn.

Nifer y bobl a ystyriwyd wedi eu cadw *de facto* gan grŵp gofal




Fel yn 2013-14, y lefelau uchaf o gydymffurfiaeth a adroddwyd oedd gyda'r pŵer i wneud argymhellion. Dywedodd yr aelodau fod lefelau uwch o gydymffurfio â'r pwerau i archwilio triniaeth y rhai a amddifadwyd o'u rhyddid, gyda chydymffurfiaeth lawn ar 76% o gwestiynau (cynnydd o 3%) a gostyngiad mewn diffyg cydymffurfio i 3% (gostyngiad o 5%).

### Canfyddiadau penodol

- Parhaodd yr holl aelodau i adrodd am gydymffurfiaeth lawn ar gwestiynau hunanasesu oedd yn ymwneud â'u gwaith i wneud argymhellion gyda'r nod o wella triniaeth ac amodau personau a amddifadwyd o'u rhyddid ac i atal arteithio a cham-drin (C1.2), ac i sicrhau bod unrhyw wybodaeth gyfrinachol a gafwyd yn ystod eu gwaith yn cael ei gwarchod yn llawn (C1.56).
- Parhaodd y lefelau isaf o gydymffurfiaeth i fod ym meysydd cydbwysedd rhwng y rhywiau a chynrychiolaeth o grwpiau ethnig a lleiafrifol mewn timau ymweld (C1.17), strategaethau ar gyfer atal dial neu fygythiadau (C1.36), yn ogystal â gwybodaeth a gasglwyd mewn cyfweliadau grŵp ( C1.37), a dilyn i fyny ar achosion o gam-drin neu arteithio a amheuid neu a gofnodwyd (C1.50).
- Adroddwyd cynnydd wrth ymdrin â dau faes o gydymffurfiad isel a nodwyd y llynedd - yr hyfforddiant y mae staff yr NPM yn ei dderbyn i gyflawni eu rôl NPM yn effeithiol (C1.11), a chydweithio ag eraill i ddilyn i fyny ar achosion o gam-drin neu arteithio a amheuid neu a gofnodwyd (C1.50).
- Fel yn 2013-14, roedd cyrff lleyg yn hunanasesu yn fwy cadarnhaol na chyrff proffesiynol, gan ddweud eu bod yn cydymffurfio'n llawn gyda 88% y cwestiynau, o'i gymharu ag 81% ar gyfer cyrff proffesiynol.
- Fel yn 2013-14, aelodau o Ogledd Iwerddon oedd y rhai mwyaf cadarnhaol am eu cydymffurfiad ag OPCAT, gan asesu cydymffurfiaeth lawn â 90% o'r cwestiynau. Roedd yr hunanasesiad lleiaf cadarnhaol gan aelodau sy'n arolygu neu yn monitro Cymru a Lloegr, gyda cydymffurfiaeth lawn ar 79% o'r cwestiynau.

### Casgliadau

Bydd y canfyddiadau o'r ymarfer hunanasesu yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfod busnes yr NPM yn y dyfodol i nodi camau gweithredu y dylid eu cymryd yn y meysydd sydd angen cynnydd.

Mae NPM y DU wedi rhannu ei fethodoleg ag NPMs eraill o amgylch y byd a chyda SPT y Cenhedloedd Unedig, ac wedi cael gwahoddiad i roi sylwadau ar ddrafft newydd o ddogfen hunanasesu'r SPT.

## Adran pedwar

# Edrych ymlaen at 2015-16



Mae'r NPM wedi cytuno ar dri phrif amcan ar gyfer ei waith yn ystod 2015-16.

1. Cryfhau gwarchodaeth i'r rhai hynny sydd yn y ddalfa trwy waith cydlynus a chydweithredol ar faterion perthnasol.
2. Cydymffurfio â mandad yr NPM a sefydlwyd gan OPCAT.
3. Codi ymwybyddiaeth o'r NPM - yn sefydliadol, yn y DU ac yn rhyngwladol.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae aelodau'r NPM wedi cytuno i barhau i ganolbwyntio ar waith thematig sy'n dod â dull cyffredin o ymdrin â mater penodol yn ymwneud â chadw, ac ymdrechion i gryfhau'r ffordd y mae'r NPM a'i aelodau yn cynnal eu gwaith. Mae'r gwaith canlynol wedi cael ei gytuno.

- Parhau â gwaith cydlynol NPM ar garcharu pobl ar eu pen eu hunain a'u hynysu, a chadw *de facto*.
- Cyflwyno cynigion a sylwadau ar bolisi a deddfwriaeth bresennol a drafft, yn gydlynus ac yn unigol.
- Cryfhau gwaith ar blant a phobl ifanc yn y ddalfa, lleoedd cadw iechyd meddwl, a materion sy'n ymwneud yn benodol â'r Alban drwy ei dri is-grŵp.
- Hunanasesiad a adolygir gan gymheiriaid blynyddol o gydymffurfiad yr aelodau â gofynion penodol OPCAT, i fwydo i mewn i gynllunio gan aelodau ac ar draws yr NPM.
- Cynnig camau i gryfhau llywodraethu'r NPM.
- Mabwysiadu polisïau i atal sancsiynau sy'n codi o waith yr NPM.
- Gweithredu polisi'r NPM ar sicrhau annibyniaeth ei staff.
- Cryfhau'r berthynas rhwng llywodraethau datganoledig a'r NPM.
- Ymgysylltu'n rhagweithiol gydag Is-bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Atal Poenydio.
- Ymgysylltu â chyrff eraill y Cenhedloedd Unedig ac yn Ewrop ac NPMs ar faterion sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr.
- Codi ymwybyddiaeth o'r NPM drwy rwydweithiau Ewropeaidd, gyda chyrff anllywodraethol ac mewn perthynas â gwaith NPM penodol.
- Darparu adnoddau hyfforddiant ac adnoddau gwybodaeth i aelodau'r NPM.
- Creu gwefan NPM annibynnol.
- Cynhyrchu adroddiad blynyddol yr NPM, i gael ei osod gerbron y Senedd.

Yn 2015-16, bydd cynnydd y DU o ran gweithredu'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol a'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn yn cael ei adolygu gan gyrff monitro swyddogol cytuniad y Cenhedloedd Unedig, a chyhoeddwyd ymweliad cyfnodol gan y Pwyllgor Ewropeaidd ar gyfer Atal Poenydio yn 2016.

## Adran pump

# Atodiadau



# Atodiad I

# Cylch gorchwyl is-grŵp yr Alban

## NPM - cylch gorchwyl is-grŵp yr Alban

### Pwrpas

Mae is-grŵp NPM yr Alban a'i aelodau yn cynrychioli buddiannau aelodau NPM y Du yn yr Alban.

Nod y grŵp yw:

- rhannu gwybodaeth am waith cyrff yr NPM yn yr Alban;
- nodi materion a diddordebau cyffredin;
- cydlynu gweithgareddau'r NPM yn yr Alban;
- archwilio posibiliadau ar gyfer gweithgaredd ar y cyd;
- codi proffil gwaith yr NPM;
- gwella cyswllt â Llywodraeth yr Alban;
- darparu cefnogaeth i aelodau'r NPM yn yr Alban;
- gwneud defnydd o hunanasesu ac offer gwerthuso gan gymheiriaid i fesur gwelliant parhaus.

### Aelodaeth / cynrychiolaeth

Mae aelodaeth y grŵp yn agored i'r rhai sydd â rôl arweiniol o ran monitro ac arolygu lleoedd cadw ar draws yr Alban:

- Arolygiaeth Carchardai EM ar gyfer yr Alban
- Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban
- Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban
- Arolygiaeth Gofal
- Cydlynydd NPM y DU
- Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yr Alban
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM ar gyfer yr Alban.

### Dulliau gwaith y grŵp

Bydd y grŵp yn mabwysiadu dull dysgu ar y cyd. Mae hyn yn cynnwys:

#### Cyfarfodydd Grŵp

- Bydd o leiaf ddau gyfarfod yn cael eu cynnal bob blwyddyn cyn cyfarfodydd busnes a gynlluniwyd NPM y DU.
- Bydd cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan aelod yr Alban o grŵp llywio NPM y DU.
- Bydd pynciau'r cyfarfod yn cael eu penderfynu gan aelodau'r grŵp, a bydd agendâu cyfarfodydd a phapurau yn cael eu dosbarthu ymlaen llaw.
- Bydd cyfarfodydd yn cynnwys trafodaethau grŵp bach i rannu profiadau a dysgu.
- Gallai pobl eraill gael eu gwahodd i ymuno â chyfarfodydd grŵp am unwaith yn unig i helpu'r drafodaeth ar bynciau penodol.
- Bydd cofnodion yn cael eu cymryd a'u dosbarthu ymhlith holl aelodau'r is-grŵp.

#### Rhannu gwybodaeth ac adnoddau

- Bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn cyfarfodydd is-grwpiau a thrwy gyfathrebiadau electronig.
- Cyfrifoldeb pob aelod yw ei gwneud yn glir pan fydd mater yn aros yn gyfrinachol ac nid ar gyfer trafodaeth y tu allan i'r grŵp.
- Wrth rannu dogfennau, dylai aelodau ei gwneud yn glir os oes cyfyngiad ar ddosbarthu a /neu ddefnyddio dogfennau.

#### Adrodd

- Bydd cadeirydd yr is-grŵp yn gyfrifol am ddarparu diweddariadau am waith y grŵp i NPM y DU o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

- Lle mae camau gweithredu yn cael eu hargymell gan yr is-grŵp, bydd y rhain yn cael eu cofnodi a'u cyflwyno i NPM y DU i'w cynnwys yng nghynllun busnes / adroddiad blynyddol y DU, lle bo hynny'n berthnasol.

### Adolygu'r cylch gorchwyl

Bydd hyn yn cael ei wneud ar ôl y chwe mis cyntaf i ddechrau, ac yna bob blwyddyn wedi hynny, er mwyn sicrhau perthnasedd parhaus a datblygiad parhaus is-grŵp yr Alban NPM y DU. Mae'r adolygiad nesaf i fod i ddigwydd yn Ebrill 2015.

# Atodiad II

# Cylch gorchwyl ar gyfer y rhwydwaith iechyd meddwl

## Cylch gorchwyl y Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol - rhwydwaith iechyd meddwl

### 1. Cyflwyniad

Ers ei sefydlu yn 2009, mae'r cyrff sy'n rhan o NPM y Deyrnas Unedig  wedi monitro a yw llywodraeth y DU yn bodloni ei rhwymedigaethau o ran cytuniad y Cenhedloedd Unedig ynghylch triniaeth unrhyw un a gedwir mewn unrhyw fath o ddalfa.

Mae atal cam-drin pobl sydd wedi'u cadw o ganlyniad i salwch meddwl yn ffurfio rhan fawr o waith yr NPM. Er mwyn caniatáu trafodaeth arbenigol ychwanegol, mae aelodau'r NPM sy'n arolygu, rheoleiddio a /neu yn ymweld â lleoedd cadw iechyd meddwl wedi sefydlu is-grŵp i gynnig fforwm i roi ystyriaeth fanwl ychwanegol i agweddau ar gynllun busnes yr NPM sy'n berthnasol i leoedd cadw iechyd meddwl yn y DU.

Mae'r is-grŵp yn cynnig sefydliadau sydd â chyfrifoldebau am fonitro a diogelu pobl mewn lleoliadau cadw iechyd a gofal cymdeithasol i gydweithio ar faterion gydag effeithiau penodol ar iechyd meddwl.

### 2. Cadeirio, llywodraethu, adrodd ac aelodaeth

Bydd swydd cadeirydd is-grŵp yr NPM yn cylchdroi rhwng aelodau'r rhwydwaith bob 12 mis. Bydd y sefydliad sy'n cadeirio'r is-grŵp yn darparu cymorth ysgrifenyddol.

Bydd yn adrodd i grŵp llywio a chyfarfodydd busnes yr NPM, ac yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cydlynu gyda chyfarfodydd y grŵp busnes.

Bydd yr is-grŵp yn agored i aelodau'r NPM sydd â diddordeb mewn pobl mewn mannau cadw iechyd meddwl.

Bydd pynciau'r cyfarfodydd yn cael eu dewis gan aelodau'r grŵp a bydd agendâu a phapurau cyfarfodydd yn cael eu dosbarthu o flaen llaw. Bydd agenda'r is-grŵp yn cael ei osod gan y cadeirydd a fydd yn cysylltu gyda chydlynydd yr NPM. Gallai pobl eraill gael eu gwahodd i ymuno â chyfarfodydd grŵp am unwaith yn unig i helpu'r drafodaeth ar bynciau penodol.

Ni fydd yr is-grŵp yn cael unrhyw brosesau cymeradwyo wedi'u dirprwyo o gyfarfod busnes neu grŵp llywio'r NPM. Bydd angen cytuno ar yr holl drafodaeth a chamau gweithredu yn unol â phrosesau llywodraethu pob sefydliad ei hun, gan gynnwys gweithdrefnau rheoli gwybodaeth .

Bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn cyfarfodydd is-grwpiau a thrwy gyfathrebiadau electronig. Cyfrifoldeb pob aelod yw ei gwneud yn glir pan fydd mater yn aros yn gyfrinachol ac nid ar gyfer trafodaeth y tu allan i'r grŵp. Wrth rannu dogfennau, dylai aelodau ei gwneud yn glir os oes cyfyngiad ar gylchredeg a /neu ddefnyddio dogfennau

## 3. Diben ac amcanion

Amcan yr is-grŵp yw darparu fforwm ar gyfer trafod a dadlau ar bynciau sy'n effeithio ar bobl mewn lleoedd cadw iechyd a gofal cymdeithasol.

Nod y grŵp yw:

- chwilio am agwedd gydlynol at faterion iechyd meddwl a chyfraniadau at agenda a chynllun busnes yr NPM;
- galluogi ymagwedd sy'n sicrhau adolygiad gan gymheiriaid at nodi meysydd datblygu a phrosesau gwella;
- rhannu gwybodaeth am waith cyrff yr NPM a chynyddu tryloywder o ymagwedd drefniadol ei gilydd at fonitro iechyd meddwl;
- cynnig mynediad at wybodaeth arbenigol i'r aelodau;
- rhoi cyfle i drafod materion trawsffiniol a goblygiadau i aelodau;
- nodi posibiliadau ar gyfer rhannu adnoddau ar gyfer ymchwil, hyfforddiant a datblygiad, megis cynadleddau, seminarau, e-ddysgu;
- nodi materion a diddordebau cyffredin;
- trafod posibiliadau meincnodi i gefnogi'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer polisïau a chudd-wybodaeth lleol.

## 4. Tymor a gweithdrefnau adolygu

Bydd grŵp llywio'r NPM yn adolygu effeithiolrwydd a diben yr is-grŵp ar ôl y tri chyfarfod cychwynnol, ac yna bob blwyddyn wedi hynny, er mwyn sicrhau perthnasedd parhaus a datblygiad parhaus is-grŵp rhwydwaith iechyd meddwl NPM y DU.

Mae'r adolygiad nesaf i fod ym mis Mawrth 2016.

Cymeradwywyd gan aelodau rhwydwaith MH: Mawrth 10, 2015

# Atodiad III

# Canllawiau ar sicrhau annibyniaeth personél yr NPM

## Sicrhau annibyniaeth personél yr NPM

## Canllawiau i aelodau o Fecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU

### Cefndir

1. Mae'r Protocol Dewisol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio (OPCAT), y mae Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU (NPM) yn cael ei sefydlu oddi tano, yn nodi'r gofyniad:

   > Rhaid i bartïon gwladwriaethau sicrhau annibyniaeth swyddogaethol y mecanweithiau ataliol cenedlaethol yn ogystal ag annibyniaeth eu personél. (Erth.18)

2. Ymhelaethwyd ymhellach ar y gofyniad hwn yn nes ymlaen gan Is-bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Atal Poenydio yn ei *Ganllawiau* 2010 ar fecanweithiau ataliol cenedlaethol (CAT/OP/12/5):

   > 18. Dylai'r Wladwriaeth sicrhau annibyniaeth yr NPM drwy beidio â phenodi aelodau iddi sy'n dal swyddi a allai godi cwestiynau o wrthdaro buddiannau.
   > 19. Dylai aelodau'r NPMs sicrhau yr un modd nad ydynt yn dal nac yn cael swyddi sy'n codi cwestiynau o wrthdaro buddiannau.
   > 30. Dylai'r NPM gynnal pob agwedd ar ei fandad mewn modd sy'n osgoi gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu dybiedig.

3. Yn 2013, adolygodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Poenydio, sef corff swyddogol y Cenhedloedd Unedig sy'n goruchwylio cynnydd partïon gwladwriaethau i weithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio a'r Protocol Dewisol, y Deyrnas Unedig. Yn ystod yr adolygiad hwn, mynegodd y pryder a'r argymhelliad canlynol:

   > 14. Mae'r Pwyllgor, yn gwbl ymwybodol o barodrwydd parti'r Wladwriaeth i hyrwyddo rhannu profiad, yn nodi bod yr arfer o secondio swyddogion y Wladwriaeth sy'n gweithio mewn mannau lle mae pobl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid i gyrff y Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol yn mynegi pryderon ynghylch y gwarant o annibyniaeth lawn i'w ddisgwyl gan y gorff o'r fath (Erth. 2).
   > Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai parti'r Wladwriaeth roi terfyn ar yr arfer o secondio unigolion sy'n gweithio mewn mannau lle mae pobl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid i gyrff y Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol. [...]

4. Mae NPM y DU yn cynnwys 20 o gyrff gwahanol, pob un ag arferion gwahanol ar y defnydd o secondeion. Nododd arolwg gan aelodau'r NPM ym mis Mai 2013 fod wyth aelod o'r NPM wedi defnyddio secondeion i gyflawni eu mandad NPM. Dylid nodi bod pwerau a chwmpas rhai aelodau o'r NPM yn llawer ehangach na'u swyddogaethau OPCAT, ac felly gallant gyflogi secondeion ar gyfer gwaith nad yw'n gysylltiedig â'u gweithgareddau NPM.

5. Ar yr un pryd â sicrhau bod eu staff yn gwbl annibynnol, mae OPCAT hefyd yn gofyn bod yr NPM yn sicrhau bod gan ei staff ddigon o arbenigedd technegol, galluoedd a gwybodaeth broffesiynol i gyflawni eu mandad (*Canllawiau SPT para. 20*).

6. Cytunodd cyfarfod busnes yr NPM ym mis Hydref 2013 ar amlinelliad bras ymateb i Bwyllgor y CU yn erbyn Artaith, ac y dylai'r grŵp llywio ddrafftio ymateb yn adlewyrchu sylwadau'r aelodau a dosbarthu hwnnw i'w gytuno. Gwnaed hyn ac anfonwyd llythyr yr NPM at Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith ym mis Mawrth 2014 (Atodiad B). Yn seiliedig ar y sefyllfa hon y cytunwyd arni, sydd hefyd wedi derbyn cefnogaeth eang gan y rhai oedd yn mynychu cynhadledd 'Pum mlynedd yn ddiweddarach' yr NPM ym mis Ebrill 2014, cytunodd y grŵp llywio yn ei gyfarfod ym mis Mai 2014 y dylai'r canllawiau isod gael eu hargymell i gyfarfod busnes Mehefin 2014 i'w mabwysiadu.

### Y canllawiau

7. Gan nodi argymhelliad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith a chyfansoddiad unigryw NPM y DU, mae aelodau'r NPM wedi cytuno i weithio'n gynyddol tuag at ostyngiad yn eu dibyniaeth ar staff ar secondiad ar gyfer gwaith yr NPM. Hyd nes y cyflawnir hyn, ac yn yr achosion lle nad yw'n bosibl yn y pen draw, bydd aelodau'r NPM yn gweithredu gweithdrefnau i osgoi gwrthdaro buddiannau fel dull diogelu i gadw annibyniaeth yr NPM. Er mwyn cyflawni hyn, byddant yn gweithio i sefydlu diffiniad cliriach o'r staff a neilltuwyd i waith yr NPM, yn enwedig ymhlith yr aelodau y mae eu gwaith yn ymestyn y tu hwnt i fandad yr NPM.

8. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i holl aelodau'r NPM ac yn llywio eu harfer mewn perthynas â staff ar secondiad, yn atal gwrthdaro buddiannau, ac yn diogelu annibyniaeth personél. Dylai eu darpariaethau gael eu hymgorffori fel y bo'n briodol mewn llawlyfrau staff a pholisïau mewnol eraill.

9. Bydd aelodau'r NPM yn anelu at nodi'n glir pa rai o'u staff sy'n ymwneud â gwaith yr NPM, a bydd yn ystyried eu lleoli o fewn uned neu adran ar wahân (*Canllawiau SPT para. 32*). Bydd nodi staff yr NPM yn cwmpasu dealltwriaeth eang o sut mae mandad yr NPM yn cael ei gyflawni, i gynnwys staff rheng flaen a staff cymorth.

10. Mae'r NPM yn ei gyfanrwydd yn ymrwymo i leihau ei ddibyniaeth ar staff ar secondiad ar gyfer gweithgareddau'r NPM, ac i olrhain a rhoi cyfrif am y cynnydd dros amser.

11. Bydd llogi unrhyw secondeion newydd ar gyfer gwaith yr NPM yn cael ei osgoi lle bo modd, oni bai bod yr wybodaeth a'r arbenigedd a ddygir gan yr unigolyn at yr aelod o'r NPM yn rhai nad ydynt i'w cael mewn mannau eraill. Pan fydd hyn yn wir, bydd pob proses recriwtio yn agored, yn dryloyw ac yn gynhwysol, ac yn unol â meini prawf a gyhoeddwyd (*Canllawiau SPT para. 16*).

12. Bydd asesiad llawn o feysydd posibl o wrthdaro buddiannau yn cael ei gynnal gan reolwyr priodol o secondeion presennol a rhai newydd.

13. Ar sail yr asesiad hwn, bydd aelodau'r NPM yn dosbarthu gwaith mewn modd a fydd yn sicrhau na fydd y sawl ar secondiad yn cael ei roi mewn perygl o wrthdaro buddiannau. Dylai cefnogaeth a goruchwyliaeth reolaidd gan reolwyr sicrhau bod unrhyw faterion sy'n peri pryder yn cael eu nodi a'u trin ar y cyfle cyntaf posibl.

14. Ni fydd staff a secondiwyd, ar unrhyw achlysur, yn cymryd rhan yn yr arolygiad o sefydliad y maent yn cael eu secondio ohono, yn debygol o ddychwelyd iddo neu fod â chysylltiad agos ag ef fel arall.

15. Lle mae staff a secondiwyd yn ymwneud â gwaith yr NPM, byddant yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i weithredu gydag annibyniaeth gwirioneddol a chanfyddedig.

16. Bydd aelodau'r NPM yn adrodd ar eu cynnydd wrth weithredu'r canllawiau hyn fel rhan o'r broses adrodd flynyddol ar eu gweithgareddau i'r NPM.

# Atodiad IV

# Argymhellion yr NPM i Gyfarfod Dimensiwn Hawliau Dynol Atodol OSCE

## Argymhellion Mecanweithiau Ataliol Cenedlaethol i Gyfarfod Dimensiwn Hawliau Dynol Atodol OSCE, Fienna, 10-11 Ebrill 2014

Mae Mecanweithiau Ataliol Cenedlaethol (NPMs) yn croesawu penderfyniad y Swistir i osod y mater o atal artaith yn ôl ar frig agenda wleidyddol OSCE a neilltuo Cyfarfod Dimensiwn Dynol Atodol i'r mater hawliau dynol holl bwysig hwn.

Datblygwyd yr argymhellion canlynol i Wladwriaethau cyfranogol OSCE, OSCE / ODIHR a Chadeirydd-mewn-swydd y Swistir gan NPMs o 17 o wledydd yn rhanbarth OSCE yn ystod cyfarfod ymlaen llaw, ar Ebrill 9-10 yn Fienna.

Argymhellion yr NPMs i Wladwriaethau sy'n cymryd rhan yn OSCE :

Dylai pob Gwladwriaeth sy'n cymryd rhan yn OSCE:

1. **Gadarnhau'r Protocol Dewisol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio (OPCAT)** a sefydlu NPM, yn unol â gofynion OPCAT. Dylai'r holl NPMs gael eu mandad, pwerau ac annibyniaeth wedi'u hymgorffori mewn cyfraith genedlaethol.

2. Sicrhau **cydweithrediad y llywodraeth a deialog** gyda NPMs ac Is-bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Atal Arteithio (SPT) sicrhau gwelliannau cynyddol mewn polisi cadw ac ymarfer a gallu'r NPMs i gyflawni eu mandad ataliol.

3. Sicrhau **mynediad heb rwystr ac uniongyrchol i bob man cadw**, gan gynnwys y rhai tu allan i'w hawdurdodaeth diriogaethol ond o dan eu rheolaeth effeithiol, lle mae pobl yn cael neu lle y gallent gael eu hamddifadu o'u rhyddid, boed yn cael ei reoli gan sefydliadau cyhoeddus neu breifat. Dylai gwybodaeth am aelodau'r NPMs a'u mandad fod ar gael i bob awdurdod cadw.

4. Sicrhau **annibyniaeth ariannol** yr NPMs i weithredu'n effeithiol, gan gynnwys darparu adnoddau ariannol digonol iddynt a chlustnodi eu cyllidebau os ydynt yn rhan o gyllideb arall fwy.

5. Gwella gwybodaeth yr awdurdodau cadw a phersonau a gafodd eu hamddifadu o'u rhyddid am **fandad ataliol yr NPMs** ac atal artaith yn gyffredinol, gan gynnwys drwy seminarau neu hyfforddiant.

6. **Cyhoeddi** adroddiadau blynyddol NPMs yn systematig, ac adroddiadau ymweliadau'r SPT a'r Pwyllgor Ewropeaidd er Atal Arteithio (CPT) a gwneud pob ymdrech i **gyfieithu** a sicrhau eu bod ar gael yn y brif iaith/prif ieithoedd cenedlaethol cyn gynted ag y bo modd.

7. Sicrhau bod deddfwriaeth genedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau **ymateb i argymhellion yr NPMs a** sefydlu mecanwaith effeithiol, sy'n cynnwys asiantaethau

perthnasol y Wladwriaeth, sefydliadau rhyngwladol, arbenigwyr ar y gymdeithas sifil a'r NPM, i ddilyn i fyny ar argymhellion yr NPMs a chyrff monitro eraill.

8. Sicrhau bod pobl sydd wedi eu hamddifadu o'u rhyddid yn ymwybodol o'u hawliau, gan gynnwys mynediad at gymorth cyfreithiol a meddygol, rhyddid rhag artaith, i beidio â chael eu gorfodi i wneud cyffes a'u hawl i gael iawn am unrhyw droseddau y gallant eu dioddef.

9. Sicrhau bod gofal iechyd pobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid yn cael ei oruchwylio gan awdurdodau iechyd cyhoeddus perthnasol.

10. Defnyddio cadw fel mesur o ddewis olaf, a phan fo pobl sydd ag anghenion arbennig yn cael eu cadw, sicrhau bod ganddynt fynediad at gyfleusterau a gwasanaethau priodol. Dylai awdurdodau cadw gael eu hyfforddi ar sut i adnabod angen pobl mewn sefyllfaoedd bregus, gan gynnwys rhai sydd wedi dioddef masnachu mewn pobl.

11. Sicrhau bod hawliau pobl a gyhuddwyd neu a gafwyd yn euog o droseddau diogelwch cenedlaethol a throseddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth yn cael eu parchu yn llawn.

12. Casglu a chyhoeddi data am gyfansoddiad y boblogaeth sydd mewn lleoedd cadw, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion a nodweddion arbennig, er mwyn llywio camau gweithredu i leihau'r risg o artaith a mathau eraill o gam-drin.

13. Rhoi blaenoriaeth i newid diwylliant plismona, drwy hyfforddi'r heddlu ynghylch ymchwiliadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a rheoli'r defnydd o rym. Dylai gwladwriaethau sicrhau atebolrwydd yr holl rhengoedd o swyddogion gorfodi'r gyfraith, gan gynnwys trwy gymryd camau mewn ymateb i honiadau ac euogfarnau o artaith a gam-drin.

Argymhellion i OSCE/ODIHR:

Dylai OSCE/ODIHR:

14. Gefnogi rhwydweithiau a chyfnewid profiadau, gwybodaeth ac arferion yn rheolaidd ymysg cymheiriaid rhwng NPMs yn rhanbarth OSCE, gyda chyfranogiad yr SPT, a chyrff rhanbarthol perthnasol pan fo'n briodol.

15. Cefnogi rhaglenni hyfforddiant ar gyfer NPMs, gyda chyfranogiad SPT a chyrff rhanbarthol, er mwyn sicrhau safonau gofynnol a methodoleg gyffredin wrth fonitro cadw, gan gynnwys ar faterion thematig a lleoedd penodol o golli rhyddid, fel sefydliadau seiciatrig.

16. Tynnu sylw at atal artaith, gan gynnwys argymhellion yr NPMs, yn adroddiadau OSCE /ODHIR ar sefyllfaoedd gwledydd a gweithgareddau eraill.

17. Cynnal arolwg ar effaith argymhellion yr NPMs yn rhanbarth OSCE ar gyfreitheg cenedlaethol a rhanbarthol.

18. Hwyluso hyfforddiant parhaus ac adolygu'r cwricwla ar gyfer swyddogion gorfodi'r gyfraith o ran ymchwiliadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a rheoli defnyddio grym. Dylai hyfforddiant gynnwys modiwlau ar sut i adnabod ac ymateb i anghenion pobl mewn sefyllfaoedd bregus.

19. Cefnogi Gwladwriaethau i sicrhau atebolrwydd am bob rheng o swyddogion gorfodi'r gyfraith, gan gynnwys trwy fonitro gweithrediad mecanweithiau cwyno.

# Atodiad V

## Geirfa

| | |
|---|---|
| CAT | Convention against Torture |
| CCE | Office of the Children's Commissioner for England |
| CI | Care Inspectorate |
| CJINI | Criminal Justice Inspection Northern Ireland |
| CPT | Committee for the Prevention of Torture (Council of Europe) |
| CQC | Care Quality Commission |
| CSC | Close supervision centre' |
| CSSIW | Care and Social Services Inspectorate Wales |
| GOOD | Good order and discipline |
| AGIC | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| HMIC | Her Majesty's Inspectorate of Constabulary |
| HMICS | Her Majesty's Inspectorate of Constabulary for Scotland |
| HMI Prisons | Her Majesty's Inspectorate of Prisons |
| HMIPS | Her Majesty's Inspectorate of Prisons for Scotland |
| HMP | Her Majesty's Prison |
| ICRC | International Committee of the Red Cross |
| ICVA | Independent Custody Visiting Association |
| ICVS | Independent Custody Visitors Scotland |
| IMB | Independent Monitoring Board |
| IMBNI | Independent Monitoring Boards (Northern Ireland) |
| IRC | Immigration removal centre |
| IRTL | Independent Reviewer of Terrorism Legislation |
| LO | Lay Observers |
| LTS | Long-term segregation |
| MWCS | Mental Welfare Commission for Scotland |
| NIPBICVS | Northern Ireland Policing Board Independent Custody Visiting Scheme |
| NOMS | National Offender Management Service |
| NPM | National Preventive Mechanism |
| OSCE | Organization for Security and Co-operation in Europe |
| Ofsted | Office for Standards in Education, Children's Services and Skills |
| OPCAT | Optional Protocol to the Convention against Torture and other Cruel, Inhuman or Degrading Treatment or Punishment |
| PACE | Police and Criminal Evidence Act 1984 |
| Nodweddion gwarchodedig | Y rhesymau y mae gwahaniaethu yn anghyfreithlon (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2010) |
| PSO | Prison Service order |
| RQIA | Regulation and Quality Improvement Authority |

| | |
|---|---|
| SHRC | Scottish Human Rights Commission |
| SPT | United Nations Subcommittee on Prevention of Torture |
| SCH | Secure children's home |
| STC | Secure training centre |
| TACT | Terrorism Act 2000 |
| YJB | Youth Justice Board |
| YOI | Young offender institution |

# Atodiad VI

## Rhagor o wybodaeth am NPM y DU

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am NPM y DU, cysylltwch â chydgysylltydd yr NPM. Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am aelod penodol, gallwch gysylltu â'r aelod hwnnw yn uniongyrchol.

Louise Finer
Cydgysylltydd y Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol
Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
Victory House
6ed Llawr
30–34 Kingsway
Llundain WC2B 6EX

Ffôn: 020 3681 2800
Ffacs: 020 7035 2141

E-bost: louise.finer@hmiprisons.gsi.gov.uk

Gwefan: http://www.nationalpreventivemechanism.org.uk/

Mae'r ddelwedd a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn fanylyn o Fae Whitby, gan garcharor yng Ngharchar EM Hull, a enillodd Wobr Arian am Gyfryngau Cymysg yng Ngwobrau Koestler 2015. Mae Ymddiriedolaeth Koestler yn elusen ar gyfer celfyddydau carchar, sy'n ysbrydoli troseddwyr, cleifion a charcharorion diogel i gymryd rhan yn y celfyddydau, a gweithio i gyflawni a thrawsnewid eu bywydau. I gael rhagor o wybodaeth ewch i: www.koestlertrust.org.uk



Mae'r ddelwedd a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn fanylyn o *Fae Whitby*, gan garcharor yng Ngharchar EM Hull, a enillodd Wobr Arian am Gyfryngau Cymysg yng Ngwobrau Koestler 2015. Mae Ymddiriedolaeth Koestler yn elusen ar gyfer celfyddydau carchar, sy'n ysbrydoli troseddwyr, cleifion a charcharorion diogel i gymryd rhan yn y celfyddydau, a gweithio i gyflawni a thrawsnewid eu bywydau.
I gael rhagor o wybodaeth ewch i: www.koestlertrust.org.uk

Cynhyrchwyd gan Design102,
Cyfarwyddiaeth Cyfathrebu a Gwybodaeth, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

ISBN 978-1-4741-2589-5

9 781474 125895